The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Yr Arolygiaeth Gynllunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020/21



HC 418

# Yr Arolygiaeth Gynllunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020/21

Cyflwynwyd gerbron Tŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 7 Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

I'w argraffu dan orchymyn Tŷ'r Cyffredin ar 8fed Mehefin 2021.

HC 418

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at:

The Planning Inspectorate
Temple Quay House
2 The Square Temple Quay Bristol
BS1 6PN
Ffôn: 0303 444 5000

Yr Arolygiaeth Gynllunio
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ
Ffôn: 0303 444 5940

E-bost:
Ymholiadau Cyffredinol: enquiries@planninginspectorate.gov.uk
Ymholiadau'r Wasg: press.office@planninginspectorate.gov.uk
Ymholiadau yng Nghymru: wales@planninginspectorate.gov.uk

This publication is available in:
Welsh - contact the Inspectorate's Cardiff office.
Large Print - contact the Inspectorate's Bristol Office.

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg trwy gysyltu â Swyddfa'r Arolygiaeth yng Nghaerdydd, ac mewn print bras trwy gysyltu â Swyddfa'r Arolygiaeth ym Mryste.

© Hawlfraint y Goron 2021

TMae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni ddywed yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

ISBN 978-1-5286-2720-7
CCS 0121932882    07/21

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys lleiafswm o 75% o ffeibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys

2 - 7 **Trosolwg o berfformiad**

Ewch yn syth at uchafbwyntiau ein perfformiad, gan gynnwys ein heriau, ein llwyddiannau a'n risgiau strategol. Adolygwch yr hyn a wnaethom yn 2020/21 a beth rydym yn ei gynllunio ar gyfer 2021/22 i gyflawni ein Strategaeth 2020/24.

8 - 37 **Adroddiad ar berfformiad**

GCewch gipolygon gan ein Prif Weithredwr a Chadeirydd y Bwrdd cyn dod i adnabod ein sefydliad a'r cyd-destun rydym ni'n gweithredu ynddo.

Ein rhanddeiliaid a chwsmeriaid - tudalen 12
Ein fframwaith rheoleiddio - tudalen 14
Ein strategaeth - tudalen 16
Ein proffil risg - tudalen 18
Ein sefydliad - tudalen 28
Creu Arolygiaeth Cymru - tudalen 30
Ein tri gwasanaeth cyhoeddus - tudalen 32
Ein sicrwydd ansawdd - tudalen 34
Ein gweithrediadau - tudalen 36

38 - 69 **Dadansoddiad o berfformiad**

Plymio i mewn i'r rhifau a dadansoddiad o'n perfformiad gweithredol, yn ôl y gwasanaethau cyhoeddus a ddarparwn, yn ogystal â'n perfformiad o ran gwasanaeth cwsmeriaid, yr amgylchedd a chynaliadwyedd, a chyllid.

70 - 110 **Adroddiad atebolrwydd**

Darllenwch am gyfrifoldebau ein Prif Weithredwr a'n Cyfarwyddwyr i'r Senedd, y trefniadau a sefydlwyd gennym i gyflawni ein dyletswyddau cyhoeddus a'r rheolaethau mewnol sydd gennym ar waith i gydymffurfio â'r holl reoliadau gofynnol.

Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu - tudalen 71
Adroddiad y Cyfarwyddwr - tudalen 72
Y Datganiad Llywodraethu - tudalen 74
Rheolaethau allweddol - tudalen 81
Adroddiad cyflogau a staff - tudalen 90
Atebolrwydd Seneddol ac adroddiad archwilio - tudalen 102

111 - 129 **Datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021**

Adolygiad o fanylion ein datganiadau ariannol.

Datganiad o wariant net cynhwysfawr - tudalen 112
Datganiad o'r sefyllfa ariannol - tudalen 113
Datganiad o lifoedd arian - tudalen 114
Datganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr - tudalen 115
Nodiadau i'r Cyfrifon - tudalen 116

130-133 **Atodiad**

Rydym yn cysylltu â'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i wella'r modd y caiff ein perfformiad ei fesur, ond gallwch weld ein perfformiad yn erbyn targedau gweinidogol hirsefydlog yn Atodiad 1.

# Cyflwyniad

## Fel yr Arolygiaeth Gynllunio, rydym yn deg o ran gwrando ar farnau gwahanol, yn agored yn y ffordd y gweithiwn, yn ddiduedd yn ein harchwiliadau, wrth benderfynu ar apeliadau ac ymdrin â cheisiadau, ac yn canolbwyntio ar gyflawni ar gyfer ein cwsmeriaid.

Ledled Cymru a Lloegr, mae ein Harolygwyr yn rhoi penderfyniadau ac argymhellion ar draws ein tri gwasanaeth cyhoeddus: archwiliadau, apeliadau a cheisiadau.

I wneud hyn, gwnawn yn siŵr bod datblygu'n cael ei ystyried yn ofalus, bod y cartrefi iawn yn cael eu hadeiladu yn y lleoedd iawn, a bod mannau gwyrdd yn cael eu diogelu. Gwnawn yn siŵr bod datblygiadau arfaethedig yn diwallu anghenion y dyfodol ar gyfer yr economi, yr amgylchedd a chymdeithas, a bod barnau'r gymuned ar geisiadau seilwaith mawr yn cael eu gwrando. Rydym yn cynnal ac yn hyrwyddo ansawdd cydraddoldeb, gan sicrhau gwiriadau a chydbwysedd y system gynllunio, fel bod penderfyniadau yn deg, diduedd ac agored. Archwiliwn y cynlluniau lleol gan Awdurdodau Lleol sy'n pennu'r fframwaith ar gyfer blaenoriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae gennym arbenigwyr sy'n gallu cynghori a phenderfynu achosion ar destunau arbenigol ar draws materion amgylcheddol, ecolegol, hanesyddol ac yn ymwneud â choedyddiaeth. Cefnogir gwaith ein Harolygwyr gan weithwyr proffesiynol medrus sy'n darparu cymorth gwaith achos, cyngor arbenigol, gwasanaeth cwsmeriaid, gwasanaethau corfforaethol, rheoli gwybodaeth, rheoli prosiectau ac arbenigedd digidol.



Gwasanaeth archwiliadau



Gwasanaeth apeliadau



Gwasanaeth ceisiadau



# Canolbwyntio ar gwsmeriaid

Mae gennym gwsmeriaid amrywiol sydd ag anghenion amrywiol. Gwyddom fod y rhan fwyaf o gwsmeriaid eisiau gwasanaeth cyffredinol gwell, yn cael ei ddarparu mewn modd amserol, a'u bod am i'n gwybodaeth fod yn glir, yn gyson ac yn hawdd mynd ati. Ymhellach na hyn, rydym yn defnyddio'r sylwadau o arolwg y Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid i wella ein gwasanaeth cwsmeriaid.

## Gweithgareddau a gyflawnwyd yn 2020/21

- Fe wnaethom uno rolau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chwsmeriaid yn un tîm a chreu rolau newydd i wella ein gwasanaeth cwsmeriaid.
- Fe wnaethom feincnodi ein gwasanaeth cwsmeriaid drwy'r Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid.

## Risgiau strategol

- S11 Diogelu Data
- S13 Methiant i reoli rhanddeiliaid
- S17 Colli cyfleoedd i wella profiad cwsmeriaid


## Gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2021/22

- Byddwn yn datblygu strategaeth cwsmeriaid i ddyfnhau ein dealltwriaeth a chael sylwadau am anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid.
- Byddwn yn defnyddio'r sylwadau hynny gan gwsmeriaid i ysgogi a blaenoriaethu newidiadau ac arloesi.
- Byddwn yn gweithredu ar y canfyddiadau o arolwg y Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid (darllenwch fwy)


## Perfformiad

- Fe wnaeth y Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid wneud arolwg o sampl o'n cwsmeriaid. Sgoriodd yr Arolygiaeth Gynllunio 57.6% ar y raddfa meincnod (sgôr y sector gwasanaethau cyhoeddus cenedlaethol yw 76.1%), a sgoriodd 60.5% o ran gwasanaeth i gwsmeriaid (sgôr y sector gwasanaethau cyhoeddus cenedlaethol yw 77%).
- Mae'r canlyniadau yn rhoi'r cipolygon pwysig i ni sydd eu hangen arnom i'n galluogi i wella a bodloni disgwyliadau ein cwsmeriaid.

Graff 1. Sgôr yr Arolygiaeth yn erbyn meincnod y Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid




Graff 2. Sgôr yr Arolygiaeth o ran gwasanaeth cwsmeriaid



# Gwasanaethu pobl, lleoedd a'r economi yn effeithiol ac effeithlon

Mae ein gwaith yn arwain at benderfyniadau, adroddiadau ac argymhellion gwybodus sy'n gwasanaethu pobl, lleoedd a'r economi. Fel rhan o adferiad y wlad o effaith pandemig COVID-19, byddwn yn chwarae ein rhan drwy ganolbwyntio ar gyflawni ein gwaith mewn modd amserol.

## Gweithgareddau a gyflawnwyd yn 2020/21

- Addasom ein ffordd o weithio er mwyn cadw gwaith achos i symud er gwaetha'r pandemig. Eleni, gwnaethom 17,000 o argymhellion a phenderfyniadau yn Lloegr a dros 500 yng Nghymru.
- Rhoesom fesurau diogelwch ar waith ar gyfer ymweliadau safle, a chynhaliom dros 700 o wrandawiadau ac ymchwiliadau yn rhithwir.
- Datblygom allu modelu mwy datblygedig i wella rhaglennu arolygwyr, gan hybu ein defnydd o sgiliau ac adnoddau i'r eithaf.

## Risgiau strategol

- S1 Gallu a chapasiti
- S3 Gwireddu buddion prosiectau newid
- S4 Perfformiad gweithredol
- S12 Methiant i wreiddio newidiadau
- S15 Effaith ceisiadau seilwaith cenedlaethol.

## Gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2021/22

- •Byddwn yn symleiddio'r ffordd rydym yn ysgrifennu ac yn cyhoeddi penderfyniadau ac argymhellion er mwyn gwella hygyrchedd i'n cwsmeriaid.
- Byddwn yn defnyddio cymysgedd o weithdrefnau, gan gymysgu elfennau o sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiadau, ac ymchwiliadau, i wella hyblygrwydd ein gweithrediadau.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu a threialu ein gwasanaethau cyhoeddus digidol i'n cwsmeriaid.
- Byddwn yn cysylltu â'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i wella'r ffordd y caiff ein perfformiad ei fesur.
- Byddwn yn buddsoddi i wella ein perfformiad.


## Perfformiad yn Lloegr

- Cyflwynwyd 32 o adroddiadau gennym yn dilyn archwiliadau cynlluniau lleol, a chyflwynwyd 10 adroddiad mewn ymateb i geisiadau Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol
- Gwnaethom dros 16,800 o benderfyniadau mewn ymateb i apeliadau.
- Effeithiodd y pandemig ar ein gallu i wneud penderfyniadau ar gyfer apeliadau. O ganlyniad, fe wnaeth yr amser penderfynu canolrifol gynyddu o 21 wythnos yn 2019/20 i 23 wythnos


## Perfformiad yng Nghymru

- Cyflwynwyd un adroddiad gennym yn dilyn archwiliad cynllun datblygu lleol a dau adroddiad mewn ymateb i geisiadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.
- Gwnaethom 500 o benderfyniadau mewn ymateb i apeliadau.
- Effeithiodd y pandemig ar ein gallu i wneud penderfyniadau ar gyfer apeliadau yng Nghymru hefyd. O ganlyniad, fe wnaeth yr amser penderfynu cyfartalog ar gyfer apeliadau cynllunio gynyddu o 13 wythnos yn 2019/20 i 15 wythnos.

Graff 3. Apeliadau yn Lloegr dros y pum mlynedd diwethaf




Graff 4. Apeliadau cynllunio yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf



# Bod yn sefydliad deniadol a chynhwysol

Fel rhan o fod yn fan gweithio diogel a deniadol, rydym eisiau datblygu ein pobl a gwella ein cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'n rhaid i ni hefyd gynnal ein cryfderau fel arbenigwyr yr ymddiriedir ynom, sy'n ymgorffori ein gwerthoedd sefydliadol (i fod yn deg, agored, diduedd a chanolbwyntio ar gwsmeriaid).

## Gweithgareddau a gyflawnwyd yn 2020/21

- Fe wnaethom gadw ein pobl yn ddiogel yn ystod y pandemig, cefnogi'r rheiny â chyfrifoldebau gofalu a hyrwyddo pwysigrwydd iechyd a lles.
- Fe wnaethom newid at fodel gweithredu newydd, gan gynnwys recriwtio i dros 200 o swyddi.
- Datblygom ymagwedd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gweithwyr, fel cyfraniad at ein Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig

## Risgiau strategol

- S7 Newid yn y sefydliad
- S16 Iechyd, Diogelwch a Lles


## Gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2021/22

- Byddwn yn parhau i ddatblygu ein hymagwedd at gyflogau a thaliadau i sicrhau cyflog cyfartal am waith cyfartal.
- Byddwn yn rhoi ein hymagwedd at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar waith i ddenu carfan amrywiol o ymgeiswyr ar gyfer swyddi newydd, ac i adlewyrchu'n well y cymunedau a wasanaethwn.
- Byddwn yn datblygu ein proffesiynau i sicrhau ein bod yn cadw gweithlu medrus i gwrdd â'n heriau presennol ac yn y dyfodol.
- Byddwn yn datblygu polisi amgylcheddol ac yn dechrau meincnodi ein perfformiad.


## Perfformiad

- Mae ein sgôr ymgysylltu â chyflogeion yn agos iawn at feincnod y gwasanaeth sifil ar 66%.
- Ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau ym Mawrth 2021 oedd 13%, sy'n debyg i'n perfformiad dros y pum mlynedd diwethaf.

Graff 5. Ymgysylltiad ag arolwg y Gwasanaeth Sifil




Graff 6. Bwlch cyflog rhwng y rhywiau dros y pum mlynedd diwethaf




# Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Mae angen i ni fod yn sefydliad mwy ystwyth sy'n gallu rhagweld newidiadau ac ymateb iddynt. Bydd hyn yn ein galluogi i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon yn gynaliadwy ar draws ein holl wasanaethau.

## Gweithgareddau a gyflawnwyd yn 2020/21

- Gweithiom â rhanddeiliaid i nodi gwelliannau i'r gwasanaeth ymgeisio fel rhan o'r Prosiect Cyflymder.
- Fe wnaethom baratoi ar gyfer polisïau a phrosesau newydd yn deillio o Fil yr Amgylchedd 2020.
- Sefydlom alluoedd cynllunio gweithlu strategol, sganio'r gorwel, arloesi a gwella'n barhaus.
- Fe wnaethom hyrwyddo'r rhaglen gweddnewid i wella gwasanaethau cyhoeddus digidol.
- Cynyddom ei capasiti ar gyfer cynnal digwyddiadau rhithwir.

## Risgiau strategol

- S2 Sganio'r gorwel a chynllunio adnoddau
- S14 Cynllunio ar gyfer y Dyfodol a'r Prosiect Cyflymder


## Gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2021/22

- Byddwn yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i gyfrannu ein gwybodaeth a'n harbenigedd yng ngham dylunio Cynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Byddwn yn parhau i weithio ar y Prosiect Cyflymder.
- Gan ymgysylltu â rhanddeiliaid, byddwn yn archwilio sut gallwn wella ein dull o gynnal digwyddiadau yn y dyfodol mewn byd ar ôl y pandemig.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu a threialu ein gwasanaethau cyhoeddus digidol i'n cwsmeriaid.


## Performance

- O Fehefin i Fedi, cynyddom ein gallu i gynnal digwyddiadau rhithwir. Ers mis Hydref, rydym wedi cynnal rhyw 90 o ddigwyddiadau y mis ar gyfartaledd. (Ceir rhai pryderon ynghylch ansawdd a chywirdeb y dulliau casglu data ar gyfer y data hwn ar ddigwyddiadau rhithwir. Gweler ein datganiadau ystadegol ac adroddiadau ansawdd cefndir am fwy o fanylion.)
- Dros y pum mlynedd diwethaf, mae ein gwariant ar newid wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn gan ddod i £7.1m yn 2020/21.

Graff 7. Digwyddiadau rhithwir a gynhaliwyd yn Lloegr yn 2020/21




Graff 8. Gwariant ar newid



# Datganiad y Prif Weithredwr

## Fe wnaeth effaith pandemig COVID-19 lethu ein meddyliau a dylanwadu ar ein gweithredoedd trwy gydol y llynedd. Mae fy nheimlad cyffredinol yn un o falchder yn yr ymateb i newid a'r cyflawniadau a wnaed gan yr Arolygiaeth Gynllunio.

Yn 2019/20, adroddom am gyflwyno'n rhaglen adfer perfformiad yn llwyddiannus. Fe wnaethom wella ein perfformiad gwaith achos yn fawr. Gwnaethom gynnydd sylweddol gyda gweithredu argymhellion adolygiad Rosewell, ac fe wnaeth y cyfartaledd amser a gymerwyd i benderfynu ar ymchwiliadau apêl haneru bron. Roeddem wedi bwriadu parhau â'r egni hwn yn 2020/21, ond effeithiodd pandemig COVID-19 ar ein cynlluniau.

'Rwy'n hynod falch o waith ein pobl i gadw gwaith achos i symud.'

O ddechrau'r cyfnod clo ar ddiwedd Mawrth 2020, pennais dair blaenoriaeth glir: sicrhau lles ein pobl, cadw gwaith achos i symud a chefnogi'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Trwy gydol y flwyddyn, rwy'n falch o ddweud ein bod wedi parhau â'n gwaith yn yr amgylchiadau eithriadol hyn, ac rwy'n hynod falch â'r gwaith y mae ein pobl wedi'i wneud i gadw gwaith achos i symud.

Fe wnaeth cyfyngiadau'r cyfnod clo leihau argaeledd ein Harolygwyr yn sgil gwarchod eu hunain a chyfrifoldebau gofalu, cyfyngu ar ein capasiti i gynnal ymweliadau safle a chynnal y digwyddiadau angenrheidiol i fwrw ymlaen â'n hachosion. Mewn ymateb, rydym wedi dangos gwydnwch wrth weithredu newidiadau diogel i'n gweithrediadau, sydd wedi ein galluogi i symud achosion ein cwsmeriaid yn eu blaen mor gyflym â phosibl. Mae rhoi digwyddiadau rhithwir ar waith wedi golygu ein bod wedi gallu cynnal gwrandawiadau ac ymchwiliadau yn ddiogel. Mae wedi galluogi cwsmeriaid a rhanddeiliaid, na fyddent fel arall wedi cael y cyfle i gael eu cynnwys, i fynychu neu wylio digwyddiadau o'r fath. Cydnabuwyd y cyflawniad hwn gan ddau enwebiad ar gyfer Gwobrau Rhagoriaeth Cynllunio'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol.

Eleni, rydym hefyd wedi cwblhau ail gam ein gwaith o ailgynllunio sefydliadol, gan lenwi dros 200 o swyddi newydd. Mae'r datblygiadau yn ein meysydd data, arloesi, llywodraethu, masnachol, gwasanaethau cwsmeriaid, a rheoli gwybodaeth a sganio'r gorwel, wedi arwain at gynllunio adnoddau yn well a mwy o wydnwch i newidiadau yn y dyfodol.

Gan edrych ymlaen at y 12 mis nesaf, bydd gennym lawer o heriau newydd. Mae'r canlyniadau o arolwg y Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid yn darparu map i ni o'r hyn y mae angen i ni wneud i wella ein gwasanaethau. Mae gennym raglen o weithgareddau i wella ein gweithrediadau. Byddwn yn canolbwyntio ar gydraddoldeb, amrywiaeth a gwneud yr Arolygiaeth yn fwy cynhwysol. Tuag at ddiwedd 2021, byddwn yn cwblhau ein rhaglen weddnewid, a fydd yn gwella'r ffordd rydym yn gweithio a rhyngweithiadau ein cwsmeriaid â ni. Bydd rhoi ein strategaeth arloesi ar waith yn ein helpu i fod yn barod ar gyfer y set nesaf o newidiadau.

'Yn 2021/22 byddwn yn paratoi ar gyfer diwygiad radical i gynllunio.'

Yn 2021/22, byddwn yn paratoi ar gyfer diwygiad radical o'r system gynllunio ac rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Bydd y Bil Cynllunio yn yr hydref 2021 yn cael effaith fawr ar y gwaith rydym yn ei wneud, a sut rydym yn ei wneud. Hefyd, rydym wrth wraidd menter weinidogol o'r enw Prosiect Cyflymder/ Project Speed, sy'n canolbwyntio ar gyflymu datblygu Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae creu Arolygiaeth annibynnol ar gyfer Cymru, sef Arolygiaeth Gynllunio Cymru, y bwriedir iddi ddechrau ym mis Hydref 2021, yn newid arall y byddwn yn ei gyflawni mewn partneriaeth â'n noddwyr yn y llywodraeth.

Byddwch yn sylwi ein bod wedi gwneud newidiadau i'r ffordd rydym yn adrodd, dadansoddi ac yn cyflwyno data a gwybodaeth am ein perfformiad. Gobeithio y cewch fod y fformat gwell hwn yn fwy hygyrch ac yn haws ei ddeall. Os oes unrhyw sylwadau neu adborth gennych, gwelwch ein manylion cyswllt yn gynharach yn y ddogfen hon.

Unwaith eto, hoffwn ddweud pa mor falch ydwyf o'n bobl yn yr Arolygiaeth Gynllunio yn ystod cyfnod sydd wedi bod yn wirioneddol heriol.

Sarah Richards

# Datganiad Cadeirydd y Bwrdd

Fe wnaeth cychwyn pandemig Covid-19 ail-lunio'r byd. Mae ei effaith wedi bod yn aruthrol ar lefel ddynol, sefydliadol a chymdeithasol. Rwyf yn cymeradwyo ymateb yr Arolygiaeth: yn addasu yn gyflym wrth gynnal ei ffocws strategol a'i hegwyddorion ar yr un pryd.

Rwyf yn falch o'r ffordd y mae'r Arolygiaeth wedi ymateb i heriau'r flwyddyn, mae wedi dangos ei gwydnwch a'i hymrwymiad i gyflawni ei diben. Rwyf yn ddiolchgar am y ffordd gydweithredol y mae ein partneriaid wedi gweithio gyda'r Arolygiaeth i hyrwyddo ein gwaith mewn ffyrdd newydd. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i Weinidogion am eu cefnogaeth a'u diddordeb yng ngwaith yr Arolygiaeth.

'Mae'r Arolygiaeth wedi trawsnewid ei hun: yn fwyaf gweledol drwy gyflwyno digwyddiadau rhithwir, gyda dros 700 wedi'u cynnal erbyn diwedd Mawrth 2021.'

Golygai'r buddsoddiad dros y blynyddoedd diwethaf mewn technoleg a hyfforddiant, yn ogystal ag ymagwedd sy'n aeddfedu at reoli risg, fod yr Arolygiaeth wedi'i pharatoi'n dda ar gyfer newid yn sydyn at weithio o gartref, gan ddefnyddio profiad ein harolygwyr sy'n gweithio gartref. Mae'r ffocws y rhoddodd yr Arolygiaeth ar lesiant a chymorth wedi bod yn amhrisiadwy, a chadarnheir hyn yn sgôr uwch ar gyfer ymgysylltu â chyflogeion. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi trawsnewid ei hun: yn fwyaf gweledol drwy gyflwyno digwyddiadau rhithwir, gyda dros 700 wedi'u cynnal erbyn diwedd Mawrth 2021. Mae diddordeb ac ymgysylltiad y cyhoedd mewn cynllunio wedi dod yn amlwg, gyda dros 15,000 o bobl yn gwylio archwiliad cynllun lleol De Swydd Rhydychen. Mae lefel y newid wedi bod yn sylweddol, mae llawer wedi'i ddysgu, ac mae mwy i ddod eto o ganlyniad i hynny.

Fe wnaeth effaith y pandemig arafu'r cynnydd ar wella amseroldeb, ond nid yw wedi bwrw'r Arolygiaeth oddi ar ei thrywydd. Drwy gydol y flwyddyn, derbyniodd y Bwrdd sicrwydd cadarn mewn perthynas â chyflawni strategol. Mae'r Arolygiaeth wedi parhau i wneud cynnydd yn erbyn ei chynlluniau drwy: roi argymhellion Rosewell ar waith; gwella'r siwrnai ddigidol gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol, gweithredu ailgynllunio sefydliadol a chroesawu chwe phrentis, gwella ymagweddau at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac at iechyd, diogelwch a lles.

Hefyd, roedd yr Arolygiaeth wedi gallu cynorthwyo'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol gyda'i hymateb i'r pandemig a pharatoadau ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Weinyddiaeth wedi defnyddio gwybodaeth a phrofiad Arolygwyr yn eu gwaith ar Gynllunio ar gyfer y dyfodol ac arbenigedd ar Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol ar gyfer y Prosiect Cyflymder. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Arolygiaeth ar greu trefn apeliadau annibynnol yng Nghymru i fynd yn fyw ym mis Hydref 2021.

'Bydd gwaith yr Arolygiaeth yn hanfodol wrth i ni gyd geisio ymadfer o effaith y pandemig.

Mae gwaith yr Arolygiaeth mewn cyfnod arferol yn hollbwysig i les ein cenhedloedd trwy gefnogi creu cymunedau cynaliadwy, galluogi darparu cartrefi, swyddi a seilwaith, diogelu'r amgylchedd a chanolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i gymunedau lleol. Mae hyn yn helpu cyflawni ymrwymiad y Deyrnas Unedig i nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig. Bydd gwaith yr Arolygiaeth yn hanfodol wrth i ni gyd geisio ymadfer o effaith y pandemig.

Ar fy rhan i a'm cyd Gyfarwyddwyr Anweithredol, hoffwn ddiolch i Sarah Richards, ei thîm gweithredol a'r gweithwyr gwydn a medrus ar draws yr Arolygiaeth am eu gwaith ysbrydolgar eleni. Roedd yr enwebiadau ar gyfer gwobrau'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn sicr yn dra haeddiannol.

Trudi Elliott

# Ein rhanddeiliaid a'n cwsmeriaid

Yn ein Cynllun Strategol, amlinellwn ein huchelgeisiau i gynyddu ein ffocws cwsmeriaid, gan gydnabod pwysigrwydd cael dealltwriaeth ddyfnach o bwy yw ein cwsmeriaid a'r ffyrdd gorau o'u gwasanaethu nhw a'u hanghenion amrywiol.

### Ein cwsmeriaid

Mae gennym grŵp amrywiol o gwsmeriaid ar draws ein gwasanaethau apeliadau, ceisiadau ac archwiliadau. Mae ein cwsmeriaid yn cynnwys apelwyr, asiantau cynllunio, Awdurdodau Cynllunio Lleol, asiantaethau eraill y Llywodraeth, datblygwyr, perchnogion tir, cynghorau plwyf a llawer mwy.

Rydym yn dyfnhau ein dealltwriaeth o anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid er mwyn cysoni ein gwasanaethau â hwy. Eleni, daethom yn aelod o'r Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid i fanteisio ar eu harweiniad ac arfer gorau. Hefyd, cynhaliodd y Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid arolwg ar ein rhan i feincnodi ein gwasanaeth yn erbyn gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau eraill mewn sectorau eraill. Cyhoeddom blog ynglŷn â'r canlyniadau a dangoswn yr uchafbwyntiau yn y Trosolwg o Berfformiad ar dudalen 3. Cam cyntaf yw hwn yn ein huchelgais i gynyddu ein ffocws ar gwsmeriaid, wrth i ni fynd ati i lunio ein Strategaeth Cwsmeriaid yn y misoedd i ddod.

### Ein rhanddeiliaid

Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw perthnasoedd da gyda rhanddeiliaid, a'r fantais i'r Arolygiaeth yn eu sgil. Yn ychwanegol at ein cwsmeriaid, mae ein rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys: gweinidogion a swyddogion yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ac yn Llywodraeth Cymru; Awdurdodau Cynllunio Lleol; ymgyngoreion statudol; cyrff a grwpiau proffesiynol.

Mae rhoi gwybodaeth gyson i'n rhanddeiliaid am ein gweithgareddau, llwyddiannau a heriau yn bwysig i ni. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ac wedi cymryd rhan mewn amryw o ddigwyddiadau siarad a gweminarau. Gwyddom fod mwy y gallwn ei wneud yn y gofod hwn a byddwn yn adeiladu o'n map rhanddeiliaid presennol. Rydym yn creu strategaeth gyfathrebu a rhanddeiliaid i gefnogi cyflawni'r Cynllun Strategol. Bydd yn nodi ein segmentau rhanddeiliaid ymhellach ac yn amlinellu arfer gorau ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu.

Yn ein hymdrechion i godi proffil yr Arolygiaeth Gynllunio a dealltwriaeth ohoni, a'n rôl ni yn y system gynllunio, rydym wedi creu a chyhoeddi ffilm gorfforaethol 'flaengar' newydd. Crynodeb lefel uchel ydyw o'n rolau a chyfrifoldebau, ac ers mis Ionawr 2021, mae wedi'i chynnwys yn ein pecynnau recriwtio a roddir i ddarpar ymgeiswyr.

| | Archwiliadau | Apeliadau | Ceisiadau |
|---|---|---|---|
| Cwsmeriaid uniongyrchol | Awdurdodau Cynllunio Lleol | Apelyddion ac asiantau cynllunio | Ymgeiswyr, gan gynnwys asiantau eraill y Llywodraeth |
| Cwsmeriaid anuniongyrchol | • Ymgyngoreion statudol<br>• Trigolion lleol<br>• Grwpiau buddiannau arbennig<br>• Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | • Awdurdodau Cynllunio Lleol<br>• Trigolion lleol<br>• Grwpiau buddiannau arbennig<br>• Datblygwyr<br>• Perchnogion tir<br>• Cynghorau plwyf | • Awdurdodau Cynllunio Lleol<br>• Trigolion lleol<br>• Grwpiau buddiannau arbennig<br>• Adrannau llywodraethol |
| Rhanddeiliaid cyffredinol | • Gweinidogion a swyddogion yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ac yn Llywodraeth Cymru<br>• Swyddogion etholedig lleol a chenedlaethol<br>• Cyrff a grwpiau proffesiynol<br>• Cyfryngau newyddion a masnach | | |

### Ymateb pandemig COVID-19 i gwsmeriaid a rhanddeiliaid

O Ebrill 2020 i Fawrth 2021, mae'r flwyddyn wedi'i llethu gan reoli effaith pandemig COVID-19. Fe wnaethom addasu'n gyflym i weithio'n wahanol a rhoi gwybodaeth gyson i'n cwsmeriaid a'n staff ar ein gwefan, Mewnrwyd a sianelau'r cyfryngau cymdeithasol. Ym mis Mai, rhyddhawyd Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, yn creu'r disgwyliad polisi y dylai pob gwrandawiad ac ymchwiliad gael eu darparu'n rhithwir gydag ychydig o eithriadau'n unig. Cynyddom ein hymdrechion i gynnal digwyddiadau ar-lein a newid o ddigwyddiadau ffisegol i rai rhithwir. Roedd hwn yn brosiect arloesol ac uchelgeisiol a'n galluogodd ni i gadw'r gwaith achos i symud ac ehangu presenoldeb. Er gwaethaf adborth cadarnhaol, rydym yn cydnabod nad yw'n ateb perffaith i'r holl bartïon, ac mae rôl digwyddiadau rhithwir yn y dyfodol yn cael ei datblygu ar y cyd â'n rhanddeiliaid. Yn nodedig, cynhaliwyd gweminar yn Rhagfyr 2020, dan gadeiryddiaeth Bridget Rosewell, a geisiodd gasglu barnau o groestoriad o'r gymuned gynllunio i lywio ein cyfeiriad yn y dyfodol.

#### Gwefan

Dros 328,000 wedi edrych ar dudalennau cynnwys yr Arolygiaeth Gynllunio ar GOV.UK.

#### Ymholiadau'r wasg

Ar gyfartaledd, rydym yn ymateb i 7 o ymholiadau gan newyddiadurwyr bob wythnos

#### Crybwylliadau yn y wasg

Ar gyfartaledd, crybwyllir yr Arolygiaeth Gynllunio tua 120 o weithiau yr wythnos yn y newyddion

#### Twitter

Cawsom 791 o ddilynwyr newydd; derbyniom 650,000 o argraffiadau trydar; a soniwyd amdanom 3,000 o weithiau.

#### LinkedIn

Cawsom 4,000 o ddilynwyr newydd a derbyniom 600,000 o argraffiadau.

#### Youtube

Tanysgrifiodd dros 675 o bobl i'n sianel ac mae 128,000 wedi edrych arni.

# Ein fframwaith statudol

## Mae ein gwaith wedi ei rwymo gan fframwaith statudol y disgwylir i ni weithredu ynddo. Mae Deddfau Seneddol a Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn pennu'r rhan fwyaf o hawliau allweddol o fewn y system gynllunio.

### Diffinio'r system gynllunio

Fel rhan o'n tri gwasanaeth cyhoeddus, rydym yn archwilio cadernid cynlluniau lleol, yn penderfynu ystod o apeliadau a cheisiadau, ac yn gwneud argymhellion ar brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. Yng Nghymru, lle mae cynllunio yn fater sydd wedi'i ddatganoli, gwnawn argymhellion hefyd ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Mae'r system gynllunio y gweithredwn ynddi wedi'i disgrifio fel system a arweinir gan gynlluniau, ac a ddiffinnir gan nifer o Ddeddfau. Mae pedwar darn o ddeddfwriaeth allweddol yn bwysig i'n gwaith yn arbennig, sef:

- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, yn ymdrin â'r system cynlluniau lleol, yn ogystal â'r ddyletswydd statudol i benderfynu ceisiadau ac apeliadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn dynodi fel arall.
- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn ymdrin â'r hawl i apelio ar gyfer cynllunio, gorfodi, ac achosion tystysgrif datblygiad cyfreithlon, yn ogystal â'n gallu i bennu'r weithdrefn ar gyfer amrywiaeth o fathau o achosion.
- Deddf Cynllunio 2008, yn ymdrin â'r drefn ganiatáu ar gyfer prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn Lloegr. Mae hefyd yn cynnwys rhai darpariaethau cyfyngedig sy'n berthnasol i Gymru, sydd ar wahân i'r Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ymdrin â chyfundrefn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghymru.

Mae Deddfau eraill a deddfwriaeth gysylltiedig yn ymdrin ag Adeiladau Rhestredig a meysydd gwaith eraill, llai cyffredin, fel hawliau tramwy, ac apeliadau amgylcheddol.

### Diffinio'r rheolau a'r rheoliadau

Mae is-ddeddfwriaeth yn darparu'r manylion sy'n cefnogi'r system gynllunio. Mae'n diffinio pa ddatblygiad y gellir ei ganiatáu'n gyfreithlon heb geisio caniatâd cynllunio, yn ogystal â pha bryd y dylid gofyn am gymeradwyaeth ymlaen llaw. Mae'n amlinellu'r ffurf y dylid gwneud apêl yn ogystal â phennu ein gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â'r apeliadau hynny.

### Bodloni ein dyletswyddau statudol

Mae'r fframwaith rheoleiddio yn sicrhau gweithredu'r system gynllunio yn deg. Ond rydym hefyd wedi ein rhwymo gan ddyletswyddau statudol eraill, er enghraifft, y rheiny'n ymwneud â diogelu data fel yr amlinellir yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data neu â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'n ofynnol i ni sicrhau bob amser ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, ond mae'n rhaid i ni sicrhau hefyd bod yr holl bartïon sy'n gysylltiedig â'n gwaith achos yn bodloni'u rhwymedigaethau eu hunain.

| | | |
|---|---|---|
| Deddfwriaeth gynllunio allweddol | Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004<br>Deddf Cynllunio 2008 | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990<br>Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 |
| Is-ddeddfwriaeth | Mae'n darparu'r manylion sy'n cefnogi'r system gynllunio.<br>Mae'n diffinio datblygiadau a ganiateir.<br>Mae'n pennu gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag apeliadau. | |
| Enghreifftiau o ddyletswyddau statudol eraill | Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data<br>Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 | Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus<br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| Newidiadau posibl i ddod | Papur Gwyn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol (Lloegr yn unig) | Prosiect Cyflymder |

### Cymru'r Dyfodol

Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040. Mae'n darparu cyd-destun gofodol ar gyfer hwyluso cyflawni datblygu yng Nghymru dros yr 20 mlynedd nesaf, ac yn cyfrannu at uchelgeisiau ehangach Llywodraeth Cymru ac at les cymunedau. Mae gennym ran ganolog i'w chwarae yn hyn.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio gosod Cymru ar lwybr cynaliadwy at wella lles. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi adrodd y gall cael y cynllunio yn iawn helpu i fodloni nodau lles, ac mae'n cydnabod ein bod yn dechrau atgyfnerthu gofynion y ddeddf yn ein dull o wneud penderfyniadau. Mae'n rhaid i ni geisio hyrwyddo i'r eithaf egwyddorion y Ddeddf o fewn ein sefydliad, ac yn ein penderfyniadau.

### Newid deddfwriaeth nawr, ac yn y dyfodol

Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn ymateb i unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth sy'n effeithio ar ein gwaith. Nid yn unig y bydd y rhain yn rheoleiddio rhannau o'n gwaith, ond gallant hefyd agor llwybrau ar gyfer mathau newydd o waith achos, neu roi mwy o hyblygrwydd i ni reoli ein gwaith achos er budd ein cwsmeriaid.

Yn Lloegr, mewn ymateb i'r pandemig, fe wnaeth newidiadau i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ganiatáu ymestyn oes caniatadau cynllunio a oedd yn dod i ben, gan arwain at waith newydd. Mae newidiadau eraill bellach yn ein galluogi i ddefnyddio cyfuniad o weithdrefnau i bennu gwaith achos apeliadau, gan greu mwy o hyblygrwydd ac effeithlonrwydd er budd ein cwsmeriaid (gweler Ein gweithrediadau tudalennau 36-37).

Gallai newidiadau yn y dyfodol fod yn fwy eang yn Lloegr. Mae'r Papur Gwyn cynllunio 'Cynllunio ar gyfer y Dyfodol' yn cynnig nifer o ddiwygiadau radical i'r system gynllunio bresennol a arweinir gan gynlluniau, gan fynd ati i fireinio a moderneiddio'r broses gynllunio. Bydd yn gofyn i ni ymateb ac addasu, gan newid natur ein gwaith a'r ffordd y gwnawn y gwaith hwnnw. Mae 'Prosiect Cyflymder' yn fenter arall a arweinir gan y llywodraeth sy'n amcanu i wella'r broses ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. Bydd yn herio rhanddeiliaid i ddileu rhwystrau a gweithio'n gyflymach gyda'i gilydd o fewn fframwaith presennol Deddf Cynllunio 2008.

Beth bynnag yw cwmpas y newidiadau sy'n dod gerbron, byddwn yn parhau i sicrhau ein bod yn gweithredu o fewn y fframwaith statudol er budd pawb sy'n gysylltiedig â'r system gynllunio.

# Ein strategaeth

## Ein diben yw gweithio gyda'n gilydd i ddarparu penderfyniadau, argymhellion a chyngor i gwsmeriaid mewn modd agored, teg, diduedd ac amserol. Mae ein strategaeth yn mapio'r ffordd yr ydym yn cyflawni ein diben, byw ein gwerthoedd a gwireddu ein gweledigaeth.

Gan ddisgwyl y newidiadau a amlinellwyd yn y Papur Gwyn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol, fe wnaethom ddiweddaru ein Cynllun Strategol yn 2020 yn ysgafn a chyhoeddi yn Ionawr 2021 yn dilyn cymeradwyaeth gan y Gweinidog Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru.

Lluniom y Cynllun Strategol diwygiedig gyda'r cwsmer yn ganolog iddo, ac roedd y rhan fwyaf o newidiadau yn ymwneud ag amcanion. Cadwom ein gweledigaeth a hanfod ein blaenoriaethau strategol, sef:

### Canolbwyntio ar gwsmeriaid

Parhawn i chwilio am gyfleoedd i lywio'n systemau a'n prosesau i ddarparu gwell gwasanaethau sy'n bodloni disgwyliadau ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid.

### Gwasanaethu pobl, lleoedd a'r economi yn effeithiol ac effeithlon

Mae ein gwaith yn chwarae rhan hanfodol o ran bod y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn cyflawni ei hamcan o ddarparu'r cartrefi y mae eu hangen ar y wlad, ac o ran Llywodraeth Cymru yn cyflawni egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### Bod yn sefydliad deniadol a chynhwysol

Bwriadwn ddatblygu gweithlu cynhwysol, medrus ac ymgysylltiedig, sy'n gynrychioliadol o'n cwsmeriaid, gan leihau unrhyw anghydraddoldebau sy'n bodoli. Rydym hefyd yn cadw at egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn amcanu at werthuso ein heffaith ar gymunedau a'r amgylchedd.

### Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Mae meithrin diwylliant o arloesi a gwelliant parhaus yn allweddol i'n parodrwydd ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys yr Arolygiaeth yn partneru gydag eraill a'u cynorthwyo i wella'r system gynllunio ar lefel leol a chenedlaethol.

Nodom 15 amcan strategol ar gyfer 2020/24 a fydd yn gwireddu ein blaenoriaethau, a chreom fframwaith i'n galluogi i fonitro ein cynnydd a'n perfformiad. Mae'r cynlluniau busnes ar gyfer 2020/21 a 2021/22 yn cefnogi cyflawni'r amcanion hyn. Mae ein hamcanion strategol a'n cynlluniau busnes yn gyson â'r blaenoriaethau a bennwyd i ni gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol fel ein hadran noddi.

Mae'n ofynnol i ni gael cynllun strategol treigl tair blynedd. Yn 2021/22 byddwn yn ail-lunio ein Cynllun Strategol mewn ymateb i ddisgwyliadau newidiol ein cwsmeriaid, yr amgylchedd gweithredu a newidiadau deddfwriaethol.

**Diben:**
Gweithio gyda'n gilydd i ddarparu pendergyniadau, argymhellion a chyngor i gwsmeriaid mewn modd agored, teg, diduedd ac amserol.

**Gwerthoedd:**
Canolbwyntio ar gwsmeriaid; Agored; Diduedd; Teg.

**Gweledigaeth:**
Darparu canolfan ragoriaeth broffesiynol ac arloesol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid gydag arbenigwyr cynllunio dibynadwy, annibynnol, gan fodloni amcanion y Llywodraeth ar lefel leol a chenedlaethol wrth weithio gydag eraill i wella'r system gynllunio.

| Canolbwyntio ar Gwsmeriaid | Gwasanaethu pobl, lleoedd a'r economi yn effeithiol ac effeithlon | Bod yn sefydliad deniadol a chynhwysol | Cynllunio ar gyfer y dyfodol |
|---|---|---|---|

Ein 15 amcan

**Gwella** ein dull o ymgysylltu â chwsmeriaid.

**Darparu** gwybodaeth glir, gywir, hawdd ei deall, tryloyw a chadarn, er mwyn galluogi proses gynllunio fodern, effeithlon ac sy'n gwella'n barhaus.

**Parhau** i gynnal yn gadarn ein henw da am y gwerthoedd tegwch, bod yn agored ac yn ddiduedd, ac ansawdd ein proses benderfynu.

**Gwella** ein perfformiad gwaith achos a bodloni gofynion newidiol y system gynllunio.

**Cyflawni** sicrwydd gwell o ran effeithlonrwydd, ansawdd, tegwch, natur agored a diduedd ein penderfyniadau.

**Gweithio** ochr yn ochr â'r Weinyddiaeth i gyflawni newid deddfwriaethol, gan wella'r system gynllunio a'r profiad i gwsmeriaid o'r dechrau i'r diwedd.

**Dadansoddi** a rhannu arfer gorau gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol, i wella profiad cwsmeriaid o'r system gynllunio gyffredinol.

**Datblygu** ein diwylliant o gynhwysiant er mwyn denu, cyflogi a chadw gweithlu amrywiol sy'n cynrychioli'r cymunedau a wasanaethwn yn gynyddol, gan sicrhau bod y sgiliau gennym ar gyfer y dyfodol.

**Ymgymryd** â gwaith i amlygu ein heffaith ar gymunedau a'r amgylchedd, ac effaith COVID-19. Mae hyn yn ein galluogi i addasu ein harferion gweithio, gan gyfrannu at gyflawni nodau datblygu cynaliadwy.

**Rheoli** perfformiad a thalent yn effeithiol er mwyn datblygu ein galluoedd sefydliadol yn barhaus. Bydd hyn yn sicrhau darparu gwasanaethau yn hyblyg a chan ganolbwyntio ar gwsmeriaid, a'n bod yn barod ar gyfer y dyfodol.

**Grymuso** ein pobl i godi materion ac ystyried risgiau.

**Datblygu** a gweithredu strategaeth ddigidol a fydd yn hyrwyddo buddion technoleg ddigidol er mwyn bodloni disgwyliadau datblygol cwsmeriaid ac i ddarparu mwy o werth i'r trethdalwr.

**Annog** a gwerthfawrogi creadigrwydd, syniadau newydd a chymryd risgiau derbyniol wrth ddatblygu gwasanaethau newydd a gwella gwasanaethau presennol.

**Defnyddio** ein data i lywio'r sector cynllunio ermwyn gweithredu'n fwy effeithlon.

**Cynyddu** ein gallu i weld beth sy'n dod fel y gallwn baratoi ar gyfer newidiadau.

# Ein proffil risg

## Wrth i'r byd ein herio ac wrth i ni newid ac esblygu, rydym yn defnyddio rheoli risg i liniaru'n systematig y risgiau hynny a allai ein hatal rhag gwireddu ein strategaeth.

### Rheoli risgiau strategol

Mae ein proses rheoli risgiau yn nodi, asesu, cofnodi, mynd i'r afael a lliniaru ansicrwyddau rhag cyflawni ein blaenoriaethau strategol, amcanion a gweithgareddau. Y risgiau strategol yw'r risgiau pwysicaf i gyflawni ein blaenoriaethau strategol a chanolbwyntio ar y rheiny yma. Caiff pob risg ei hasesu gan ddefnyddio matrics sgorio pump wrth bump. Graddiwn yr effaith drwy ystyried canlyniadau risg ar ein huchelgeisiau, ein pobl, cwsmeriaid a rhanddeiliaid. Graddiwn y debygoliaeth drwy ystyried y tebygolrwydd y bydd risg yn cael ei gwireddu.

Mae ein parodrwydd i dderbyn risg yn mynegi faint o risg rydym yn barod i'w hysgwyddo, yn ôl math o risg. Mae'r lefelau parodrwydd yn amrywio yn ôl y gweithgaredd: er enghraifft, rydym yn barod i dderbyn ansicrwydd wrth arloesi ond rydym yn geidwadol ar gyfer risgiau a allai effeithio ar ein henw da. Mae'r darlun isod yn dangos y risgiau strategol wedi'u plotio o dan y categorïau parodrwydd i dderbyn risg. Byddai cyfran fawr o'n risgiau strategol yn effeithio ar ein cyflawni gweithredol (S1, S4, S12 a S15) neu ein henw da a hygrededd (S2, S13, S14 a S17). Byddai'r pedair risg sy'n weddill yn effeithio ar ein cyllid (S3), ein gallu i arloesi (S7), ein pobl (16) a'n cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol (S11).

| Enw da a Hygrededd |
|---|
| S2 Sganio'r gorwel a chynllunio adnoddau<br>S13 Methiant i reoli rhanddeiliaid<br>S14 Cynllunio ar gyfer y dyfodol a Phrosiect Cyflymder<br>S17 Colli cyfleoedd i wella profiad cwsmeriaid |

| Cyflawni Gwetihredol |
|---|
| S1 Gallu a galluedd<br>S4 Perfformiad gweithredol<br>S12 Methiant i wreiddio newidiadau<br>S15 Effaith ceisiadau seilwaith cenedlaethol |

| Arloesi |
|---|
| S7 Newid yn y sefydliad |

| Ariannol |
|---|
| S3 Gwireddu buddion prosiectau newid |


| Cydymffurio, cyfreithiol neu reoleiddiol |
|---|
| S11 Diogelu data |

| Pobl |
|---|
| S16 Lechyd, diogelwch a lles |

### Ein proffil risg trwy 2020/21

Fe wnaeth ein risgiau strategol newid trwy gydol 2020/21 yn sgil digwyddiadau allanol, fel pandemig Covid-19 neu'r Papur Gwyn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol, ac yn sgil newidiadau a phwysau mewnol. Mae'r tudalennau canlynol yn dangos yn fanwl sut wnaeth pob sgôr risg newid, ac yn egluro'r mesurau lliniaru a roddwyd ar waith yn ogystal â'r rhai sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol.


Nodom bedair risg strategol newydd (S14, S15, S16 a S17). Fe wnaethom gau un risg, ar Brosiect Heathrow (S10), gan fod S15, sef un o'r risgiau sydd newydd ei chofnodi, yn cwmpasu Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn gyffredinol. Fe wnaethom ddiweddaru ac ailasesu pob risg arall; fe wnaeth un sgôr gynyddu (S12), arhosodd tair risg yn sefydlog yn gyffredinol (S2, S3 a S7) ac mae sgorau is gan bedair risg ar ddiwedd y flwyddyn (S1, S4, S11 a S13). Cafodd risgiau strategol S5,S6, S8 a S9 eu cau mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r map gwres isod yn dangos ein risgiau strategol a sut wnaethant esblygu yn 2020/21.



## S1 - Gallu a chapasiti

Gallai diffyg staff sy'n allweddol i fusnes atal yr Arolygiaeth rhag cyflawni gofynion ac anghenion ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid.




### Mesurau lliniaru a gyflawnwyd yn 2020/21

- Paratowyd cynnig trwyadl am gyllid i sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol gennym i fodloni'r galw a darparu ein gwasanaethau.
- Datblygwyd ymagwedd dysgu a datblygu ar gyfer 2020/25 a chynllun gweithredu 2021/22 i sicrhau bod y sgiliau cywir gan ein pobl.
- Newidiom i ddulliau recriwtio rhithwir a'n galluogodd i lenwi'r mwyafrif helaeth o swyddi gweigion a chwblhau ein hailstrwythuro.

### Newid mewn sgôr

Fe wnaeth y debygoliaeth o'r risg hon yn digwydd leihau.


### Mesurau lliniaru yn y dyfodol

- Datblygu cynllun gweithlu pum mlynedd, yn nodi manylion maint a sgiliau ein gweithlu presennol, beth fydd ei angen arnom yn y dyfodol, a chynllun gweithredu ar gyfer datblygu'r sgiliau hynny.
- Adolygu dyluniad diweddaraf ein sefydliad i sicrhau ei fod yn addas i'r diben.
- Datblygu proffesiynau allweddol gyda llwybrau datblygiad proffesiynol clir.

## S2 - Sganio'r gorwel a chynllunio adnoddau

Gallai anallu i ddeall yr amgylchedd cynllunio yn y dyfodol arwain at niferoedd annigonol o bobl fedrus, gan gyfyngu ar ein gallu i ddarparu ein gwasanaethau cyhoeddus.




### Mesurau lliniaru a gyflawnwyd yn 2020/21

- Cysylltwyd â'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a chyrff cyhoeddus eraill i nodi newidiadau posibl i bolisi yn y dyfodol.
- Datblygwyd ein capasiti a'n gallu i ddeall ffactorau allanol trwy greu ein swyddogaeth sganio'r gorwel.

### Newid mewn sgôr - Dim newid.


### Mesurau lliniaru yn y dyfodol

- Datblygu cynllun gweithlu pum mlynedd yn nodi manylion maint a sgiliau ein gweithlu presennol, beth fydd ei angen arnom yn y dyfodol, a chynllun gweithredu ar gyfer datblygu'r sgiliau hynny.
- Datblygu dull systematig o sganio'r gorwel.

## S3 - Gwireddu buddion prosiectau newid

Gallai methiant i wireddu buddion o'n prosiectau newid ein hatal rhag cyflawni ein strategaeth ac arbedion gofynnol.




### Mesurau lliniaru a gyflawnwyd yn 2020/21

- Wedi gwella capasiti a gallu rheoli prosiectau i sicrhau y gallwn elwa'n llawn o bob newid.

### Newid mewn sgôr - Dim newid.


### Mesurau lliniaru yn y dyfodol

- Rhoi rheolaethau ar waith i olrhain cyflawni arbedion a buddion yn systematig.
- Hyrwyddo newid diwylliant i alluogi cyflawni'n llwyddiannus.

## S4 - Perfformiad gweithredol

Gallai camgymhariad rhwng y galw am wasanaethau a'n gallu ni i gyflawni arwain at anallu i gynnal y lefel perfformiad a fynnir gan ein noddwyr a'n cwsmeriaid.




### Mesurau lliniaru a gyflawnwyd yn 2020/21

- Treialwyd dulliau mewn 'tîm arbrofol' i herio rhagdybiaethau ac ymddygiadau a thorri'r cymhlethdod sy'n ein cadw ni rhag ymateb i'r heriau yng ngofynion ein cwsmeriaid.
- Diwygiwyd modelau darparu adnoddau er mwyn llywio penderfyniadau yn ddibynadwy.

### Newid mewn sgôr

Fe wnaeth y debygoliaeth o'r risg hon yn digwydd leihau.

### Mesurau lliniaru yn y dyfodol

- Sefydlu cylch recriwtio a hyfforddi ar gyfer Arolygwyr.
- Adolygu'r dull hyfforddi ar gyfer arolygwyr newydd a phresennol er mwyn cefnogi mwy o hyblygrwydd.
- Adolygu arbenigeddau arolygwyr er mwyn cynyddu hyblygrwydd.
- Datblygu cynllun gweithlu pum mlynedd yn nodi manylion maint a sgiliau ein gweithlu presennol, beth fydd ei angen arnom yn y dyfodol, a chynllun gweithredu ar gyfer datblygu'r sgiliau hynny.

## S7 - Newid yn y sefydliad

Mae gwrthwynebiad i newid a diffyg arweinyddiaeth o ran newid yn ein hatal ni rhag gwneud pethau'n wahanol, cyflawni ein blaenoriaethau strategol ac ymateb i bwysau allanol.







### Mesurau lliniaru a gyflawnwyd yn 2020/21

- Gweithredwyd ymagwedd 'hyblyg' ar gyfer ein prosiectau newid yn ogystal ag ymgysylltu cynnar. Rhoddwyd y gwasanaethau newydd ar brawf mewn amgylchedd byw rheoledig.
- Defnyddiwyd adborth o'r profion mewn amgylchedd byw rheoledig i wella'r gwasanaeth.
- Hyfforddwyd rheolwyr llinell i fod yn fodelau rôl ymagwedd gadarnhaol at newid ac i gynnig cymorth i'n pobl.

### Newid mewn sgôr

Er i debygoliaeth y risg hon gynyddu, roeddem wedi gallu lleihau ei heffaith. Dim newid cyffredinol yn y sgôr.

### Mesurau lliniaru yn y dyfodol

- Adeiladu ar brofiad o'r pandemig gan i ni ddangos y gallwn ymateb i newid yn gyflym iawn.
- Rhoi rheolaethau ar waith a fydd yn annog defnydd hyblyg o'n pobl er mwyn cyfyngu ar y defnydd o gontractwyr..

## S10 - Effaith cyflwyno'r cynllun i ehangu Maes Awyr Heathrow

Gallai graddfa, cymhlethdod a phroffil prosiect ehangu Maes Awyr Heathrow ein harwain i danamcangyfrif y costau a lefel mewnbwn Arolygwyr sy'n ofynnol i brosesu'r cais.




### Mesurau lliniaru a gyflawnwyd yn 2020/21

- Sicrhawyd cyllid prosiect gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar gyfer y prosiect.
- Cynhaliwyd tîm prosiect pwrpasol i reoli a sicrhau ein gwaith.
- Cynhwyswyd Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol fel rhan o'r rhaglen drawsnewid.


### Newid mewn sgôr - risg wedi'i chau

Ymdriniwyd â hi fel rhan o risg S15 Effaith ceisiadau Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol.

## S11 - Diogelu data

Gallai diffyg rheolaethau cadarn a diwylliant anaeddfed o reoli data arwain at dor diogelwch data wrth i ni fethu cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol.




### Mesurau lliniaru a gyflawnwyd yn 2020/21

- Darparwyd hyfforddiant ar reoli data cyffredinol i rai o'n pobl cyn pandemig COVID-19.
- Darparwyd hyfforddiant arbenigol i bobl â rolau a chyfrifoldebau allweddol.
- Diweddarwyd gweithgareddau prosesu a'r gofrestr asedau gwybodaeth.
- Cwblhawyd asesiadau effaith diogelu data.
- Galluogwyd digwyddiadau rhithwir trwy gynnal asesiad risg diogelu data a sefydlu cytundebau rhannu data.
- Aseswyd risg yr holl ddulliau newydd prosesu data personol.
- Wedi gwella cytundebau rhannu data ar gyfer archwiliadau cynlluniau lleol newydd.
- Diweddarwyd hysbysiad preifatrwydd pobl a recriwtio a'r hysbysiad preifatrwydd gwaith achos.

### Newid mewn sgôr

Fe wnaeth y debygoliaeth o'r risg hon yn digwydd leihau.


### Mesurau lliniaru yn y dyfodol

- Parhau i weithredu'r polisi cadw a gwaredu cofnodion fel rhan o'r system rheoli gwybodaeth.
- Darparu pecyn e-ddysgu a hyfforddiant pwrpasol ychwanegol.
- Asesu risg prosesu data personol hanesyddol
- Rhoi cytundebau rhannu data ar waith ar gyfer parhau i rannu data gyda chwsmeriaid a rhanddeiliaid.

## S12 - Methiant i ymgorffori newidiadau

Nid yw'r gwasanaethau cyhoeddus digidol a ddatblygwyd gan y rhaglen newid wedi'u hintegreiddio'n ddigonol yn ein prosesau, ac nid ydynt yn cael eu datblygu ymhellach ar ôl i'r rhaglen ddod i ben.




### Mesurau lliniaru a gyflawnwyd yn 2020/21

- Dechreuwyd gweithredu dulliau gweithio newydd yn gyson â'r model gwasanaeth, yn unol ag agenda ddigidol y Llywodraeth.

### Newid mewn sgôr


Fe wnaeth y debygoliaeth o'r risg hon yn digwydd gynyddu.

### Mesurau lliniaru yn y dyfodol


- Diweddaru prosesau rheoli i gefnogi ymagwedd hyblyg.
- Integreiddio tîm y rhaglen newid a'u dysgu gyda'n tîm digidol.
- Ymgorffori arferion gweithio digidol, yn yr Arolygiaeth ac yn arbennig yn y tîm Gwasanaethau Digidol, trwy brosiect penodol.

## S13 - Methiant i reoli rhanddeiliaid

Gallai methiant i reoli perthnasoedd a chyfathrebu â rhanddeiliaid neu gamgymeriad yr ymdriniwyd yn wael ag ef effeithio ar ein henw da.



Sgôr yn Ebrill 2020



Sgôr ym Mawrth 2021

### Mesurau lliniaru a gyflawnwyd yn 2020/21

- Monitrwyd adborth cwsmeriaid drwy amrywiaeth o sianelau.
- Cipiwyd, rhannwyd a defnyddiwyd cipolygon o'r monitro.
- Hyrwyddwyd naratif corfforaethol cryf ar gyfer staff a chyflëwyd hyn yn rhagweithiol i gwsmeriaid a rhanddeiliaid allweddol.
- Defnyddiwyd dull yn seiliedig ar risg i hyfforddi ein pobl mewn meysydd y gwyddys eu bod yn achosi niwed sylweddol i enw da, fel diogelu data.

### Newid mewn sgôr


Fe wnaeth y debygoliaeth o'r risg hon yn digwydd leihau.

### Mesurau lliniaru yn y dyfodol

- Datblygu strategaeth rheoli rhanddeiliaid.
- Defnyddio gwelliant parhaus yn systematig i ddatrys materion yn gyflym a gwella profiad cwsmeriaid.

## S14 - Cynllunio ar gyfer y Dyfodol a'r Prosiect Cyflymder

Gallai ansicrwydd, diffyg adnoddau, capasiti neu sgiliau oedi neu atal gweithredu newidiadau a ysgogir gan Cynllunio ar gyfer y Dyfodol a'r Prosiect Cyflymder.



Sgôr ym Mawrth 2021

### Mesurau lliniaru a gyflawnwyd yn 2020/21

- Gweithiwyd gyda'r Weinyddiaeth tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i roi cipolwg cynnar i Cynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Gweithiwyd gyda rhanddeiliaid allweddol i gyfyngu ar gyfyngiadau polisi ac i nodi'r newidiadau mwyaf buddiol i gyflawni o'r dechrau i'r diwedd fel rhan o'r Prosiect Cyflymder.
- Wedi sicrhau adnoddau priodol.


### Newid mewn sgôr - Mae hon yn risg newydd.

### Mesurau lliniaru yn y dyfodol

- Rheoli prosiect o ran ein hymagwedd gan ddefnyddio profiad cynnar gyda'r ceisiadau peilot a rheoli risg.
- Rhagamcanu'r sgiliau a'r adnoddau fydd eu hangen (gan gynnwys unrhyw gyfnod pontio) a recriwtio fel bo'r angen.
- Dylunio a chyflwyno rhaglen hyfforddi.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid, Awdurdodau Cynllunio Lleol a chwsmeriaid i'w helpu i fod yn barod ar gyfer y system newydd ac ymgysylltu â ni yn y system newydd.

## S15 - Effaith ceisiadau Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol

Gallai cyflwyno cais unigol, mawr, cymhleth, proffil uchel a dadleuol, neu nifer o achosion llai yn gorgyffwrdd, fod y tu hwnt i'n capasiti i'w cyflawni.



Sgôr ym Mawrth 2021

### Mesurau lliniaru a gyflawnwyd yn 2020/21

- Hyfforddwyd arolygwyr i gynyddu capasiti.
- Hyrwyddwyd prosiectau newid a sicrhau gwireddu buddion.
- Nodwyd ac ymgysylltwyd â rhanddeiliaid allweddol er mwyn gwella cywirdeb rhagamcanu.
- Cynhwyswyd Arolygwyr yn gynnar yn y cyfod cyn-ymgeisio.
- Defnyddiwyd Arolygwyr yn fwy hyblyg ar draws nifer o geisiadau.


### Newid mewn sgôr - Mae hon yn risg newydd.

### Mesurau lliniaru yn y dyfodol

- Treialu newidiadau sy'n deillio o'r Prosiect Cyflymder.

## S16 - Iechyd, diogelwch a lles

Gallai methiant i fynd i'r afael ag iechyd, diogelwch neu les arwain at ddamwain neu ddigwyddiad mawr, damwain neu ddigwyddiad y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu afiechyd.



Sgôr ym Mawrth 2021

### Mesurau lliniaru a gyflawnwyd yn 2020/21

- Gweithredwyd rhestr wirio iechyd a diogelwch gweithio o gartref ac asesiad risg personol COVID-19, gan ddarparu cymorth a chyngor i'n pobl yn ôl yr angen.
- Sefydlwyd mesurau cadw pellter cymdeithasol yn ein swyddfeydd a defnyddiom asesiadau risg wythnosol i alluogi ein pobl i weithio'n ddiogel.
- Darparwyd diweddariadau rheolaidd o'r canllawiau ar gyfer
- ymweliadau safle.
- Paratowyd cynllun gweithredu i wella adrodd a chryfhau rheolaethau yn dilyn archwiliad mewnol ac adolygiad cyfaill beirniadol.
- Ehangwyd aelodaeth y pwyllgor iechyd, diogelwch a lles i gynrychioli ein holl bobl a chynrychiolwyr Undebau Llafur.
- Datblygwyd a diweddarwyd ymagwedd, polisïau a gweithdrefnau iechyd, diogelwch a lles, a recriwtiwyd rheolwr.


### Newid mewn sgôr - Mae hon yn risg newydd.

### Mesurau lliniaru yn y dyfodol

- Cyflwyno ymagwedd, polisi a gweithdrefnau wedi'u diweddaru.
- Cyflwyno hyfforddiant ar iechyd, diogelwch a lles sy'n benodol i'r rôl.
- Adolygu straen galwedigaethol a rhoi cynllun gweithredu ar waith.
- Gweithredu adolygiad parhaus o asesiadau risg, gan gynnwys diogelwch personol a gweithio ar eich pen eich hun, gweithio ar uchder, ac ymweld â safleoedd adeiladu.
- Sicrhau y bydd ein swyddfa yn parhau'n ddiogel o ran COVID-19

## S17 - Colli cyfleoedd i wella profiad cwsmeriaid

Gallai ffocws annigonol ar arloesi, anghenion defnyddwyr a'r profiad o'r dechrau i'rdiwedd arwain ni at golli cyfleoedd i drawsnewid profiad cwsmeriaid.




### Mesurau lliniaru a gyflawnwyd yn 2020/21

- Cynhaliwyd prosiect newid 'Show and tells' i rannu dysgu ac arfer gorau ac annog eu gwreiddio o fewn y sefydliad.
- Ystyriwyd a gweithredwyd arfer da o fannau eraill yn y Llywodraeth i wella sicrwydd a her ein hymagwedd at newid.

### Newid mewn sgôr - Mae hon yn risg newydd.

### Mesurau lliniaru yn y dyfodol

- Datblygu dull systematig o sganio'r gorwel.
- Cyflwyno'r Strategaeth Cwsmeriaid a'r Strategaeth Arloes.




# Ein sefydliad

## Rhoddwyd ein gwydnwch sefydliadol ar brawf gan y pandemig. Fe wnaethom ganolbwyntio ar gadw ein pobl yn ddiogel a'u cefnogi wrth iddynt gydbwyso gwaith gyda bywyd mewn cyfnod clo, a oedd yn aml yn cynnwys cyfrifoldebau gofalu ychwanegol. Hefyd, rhoesom ddyluniad sefydliadol newydd ar waith, gwella ymgysylltiad â'n staff a dechrau gwella ein cynhwysedd.

### Dylunio sefydliadol

Ar yr un pryd ag yr oeddem yn rheoli effaith y pandemig, rhoesom y dyluniad sefydliadol a baratowyd gennym yn 2019 ar waith. Mae 217 o bobl naill ai wedi cael dyrchafiad, eu recriwtio'n allanol neu'u symud i rôl arall. Roedd 50% o'n dyrchafiadau gan ymgeiswyr mewnol. Mae bron i 80% o'n pobl yn Arolygwyr neu'n uniongyrchol gysylltiedig â darparu ein gwasanaethau. Mae'r 20% sy'n weddill wedi'u rhannu rhwng y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol (12%) a'r Gyfarwyddiaeth Strategaeth newydd (8%).

Graff 9. Gweithlu'r Arolygiaeth




### Effaith pandemig COVID-19

Rydym wedi darparu cymorth iechyd, diogelwch a lles rhagweithiol i'n pobl pan wnaethon ni droi i weithio o gartref ym Mawrth 2020. Er bod yr Arolygwyr eisoes yn gweithio gartref, ymatebodd weddill y sefydliad drwy addasu'n eithriadol o dda i weithio o gartref. Mae'r pandemig wedi herio ein pobl ac rydym yn eu cefnogi wrth iddynt gydbwyso gwaith gyda chyfrifoldebau gofalu fel addysgu gartref, gofalu am berthnasau, ond hunan-ofalu hefyd. Ar hyn o bryd rydym yn myfyrio ar y gwersi a ddysgom trwy gydol y pandemig a sut gallai hyn wella'r ffordd y gweithiwn yn y dyfodol.

### Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym yn llywio ein hymagwedd er mwyn gwella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i'n pobl. Dan arweiniad ein Prif Weithredwr, Sarah Richards, mae ein rhwydweithiau sefydledig a'n rhwydweithiau newydd yn magu hyder i arwain newid ar draws y sefydliad. Rydym yn mabwysiadu persbectif newydd yn gynyddol at y ffordd yr awn i'r afael â busnes bob dydd. Rydym wedi sefydlu tîm recriwtio pwrpasol, gan ddod â sgiliau arbenigol ynghyd i ddenu a chadw'r bobl iawn sy'n meddu ar y sgiliau o'r safon uchaf ar yr adeg iawn. Bydd y tîm hwn yn gwella ein prentisiaethau a'n rhaglen allgymorth er mwyn ehangu ein hapêl ar draws y cymunedau rydym ni'n gweithio ynddynt.

Rydym wedi dechrau adolygu ein strategaeth gyflogau a bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn nesaf, a bydd mynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a'n hymrwymiad i gyflog cyfartal yn ganolog i'n strategaeth yn y dyfodol.

### Dysgu a datblygu

Yn 2020, sefydlom dîm canolog dysgu a datblygu i foderneiddio a datblygu ymagwedd gyson at ddysgu ar draws ein sefydliad. Fe wnaeth y pandemig herio ein dulliau dysgu traddodiadol ac roedd y strwythur newydd yn caniatáu ar gyfer arloesi wrth i ni gyflawni. Rydym wedi bodloni anghenion dysgu sy'n dod i'r amlwg, wedi sefydlu adnodd dysgu canolog ac amlinellu hymagwedd ar gyfer dysgu dros y pum mlynedd diwethaf, sy'n tanategu ein Strategaeth Pobl a'n Cynllun Strategol.

### Ymgysylltu

Ein sgôr ymgysylltu â staff yn 2020 oedd 65%, sy'n ddau bwynt canran yn uwch na'n sgôr yn 2019, ond un pwynt canran y tu ôl i feincnod perfformiad uchel y Gwasanaeth Sifil o hyd. Mae'r canlyniad hwn yn cadarnhau tuedd o wella graddol o flwyddyn i flwyddyn a ddechreuodd yn 2015, pan oedd ein sgôr ymgysylltu yn 56%. Gobeithiwn fod y cynnydd hwn mewn ymgysylltu yn ganlyniad ein buddsoddiad mewn cefnogi a datblygu ein pobl ac ymrwymiadau a amlinellwyd yn ein Strategaeth Pobl. Y flwyddyn nesaf, bydd ein ffocws ar arweinyddiaeth a datblygu rheolwyr llinell, yn ogystal â hyrwyddo rhoi ein hymagwedd at Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar waith.

# Creu Arolygiaeth Cymru

## Arolygiaeth Gynllunio gyntaf i Lywodraeth Cymru.

Wrth i'r gyfraith gynllunio yng Nghymru a Lloegr barhau i ddargyfeirio, mae'n herio model gweithredol un Arolygiaeth yn gwasanaethu dwy lywodraeth ar wahân yn gyson, llywodraethau a chanddynt anghenion cystadleuol, a pholisïau cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a chynllunio gwahanol.


Mae sefydlu arolygiaeth gynllunio annibynnol, ar wahân i Gymru wedi bod yn destun dadl amserol ers blynyddoedd lawer. Mae'r trefniant presennol yn waddol trefniadau cyn datganoli, sydd wedi parhau ar ôl datganoli heb fod unrhyw angen am newid wedi'i nodi. Bu pwysau gwleidyddol parhaus i ystyried y posibilrwydd o gael Arolygiaeth bwrpasol i Gymru. Bydd strwythur ar wahân yn dod â Chymru yn gyson â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, gan mai Cymru yw'r unig weinyddiaeth ddatganoledig i beidio â chael ei Harolygiaeth bwrpasol ei hun.

Daeth Gweinidog Tai a Llywodraeth leol Llywodraeth Cymru i'r casgliad, ar 29 Mawrth 2019, y dylai swyddogion ddechrau ar waith i archwilio opsiynau ar gyfer Arolygiaeth ar wahân i Gymru. Amcanion yr Arolygiaeth newydd yw parhau i benderfynu ar apeliadau cynllunio a gwaith achos cysylltiedig ar ran Gweinidogion Cymru a darparu lefelau gwasanaeth uchel i'r holl randdeiliaid yn y system.

Mae'r system gynllunio'n ganolog i gyflawni Strategaethau Genedlaethol Cymru, gan ei bod yn rheoli pa ddatblygiad ddylai fynd rhagddo a ble. Bydd Gwasanaeth Arolygiaeth Gynllunio newydd Cymru yn allweddol i gefnogi system gynllunio gadarn.

Bydd gwaith achos a brosesir gan yr Arolygiaeth newydd o bwysigrwydd arwyddocaol i'r economi yng Nghymru. Yn ogystal â delio ag amrywiaeth eang o geisiadau cynllunio, bydd yn ymdrin â gwaith achos yn ymwneud â cheisiadau trafnidiaeth, ceisiadau morol ac ynni.

Bydd angen i Bennaeth yr Arolygiaeth newydd ddarparu barnau a chyngor diduedd ar y broses gynllunio i wleidyddion ac ymarferwyr ar draws ystod o fuddiannau. Mae'r rôl hon wedi bod yn ganolog i gyflawni newid diwylliant gwleidyddol a phroffesiynol yng ngwasanaeth cynllunio Cymru cyn, yn ystod ac ar ôl creu Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Ni ellir gorbwysleisio gwerth Arolygiaeth Gynllunio newydd annibynnol Cymru i'r gwasanaeth cynllunio yng Nghymru.



Ffynhonnell: Flickr, Awdur: eNil, Dyddiad: Tachwedd 17 2007

# Ein tri gwasanaeth cyhoeddus

Ar draws ein tri gwasanaeth, mae ein Harolygwyr annibynnol, profiadol yn penderfynu ar achosion ac yn gwneud argymhellion mewn modd agored, teg a diduedd. Mae hyn yn golygu eu bod yn ystyried y dystiolaeth, yn gwneud yn siŵr y gall pawb ymateb i dystiolaeth rhai eraill, a chadw meddwl agored heb ragfarnu un farn o gymharu â barn arall.

| Gwasanaeth archwiliadau | Gwasanaeth apeliadau | Gwasanaeth ceisiadau |
|---|---|---|
| Asesu cynlluniau lleol yn Lloegr a chynlluniau datblygu lleol yng Nghymru yn annibynnol. | Ystyried penderfyniadau gan gynghorau yn annibynnol. | Gwneud argymhellion annibynnol. |
| | Apeliadau cynllunio | Prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol |
| | Apeliadau gorfodi | Datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol |
| | Apeliadau arbenigol | Gorchmynion prynu gorfodol |
| | | Tir comin |

## Gwasanaeth archwiliadau

Mae'r lleoedd lle'r ydym yn byw a gweithio yn effeithio'n sylweddol ar ein bywydau a'n lles.

Mae cynghorau Lloegr a rhai sefydliadau eraill yn cynhyrchu cynlluniau lleol a chynlluniau eraill gyda'u cymunedau i nodi sut fyddant yn paratoi ar gyfer y dyfodol. Rydym yn asesu'n annibynnol p'un a yw'r cynlluniau yn bodloni'r profion cyfreithiol, gweithdrefnol a pholisi i'w defnyddio.

Ategir ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflawni datblygu cynaliadwy gan gynlluniau datblygu lleol. Maent yn cynnwys y strategaeth, polisïau a'r dyraniadau i fynd i'r afael â materion allweddol mewn ardal, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Rydym yn archwilio'r cynlluniau hynny i sicrhau y byddant yn darparu sylfaen gadarn i gefnogi'r broses gwneud penderfyniadau pan gânt eu mabwysiadu.

## Gwasanaeth apeliadau

Gall cynghorau wrthod ceisiadau cynllunio a cheisiadau cysylltiedig, a gallant fethu gwneud penderfyniad mewn pryd neu roi hysbysiad gorfodi i chi yn mynnu eich bod yn gwneud rhywbeth neu'n rhoi'r gorau i wneud rhywbeth.



Mae'r Arolygiaeth yma os ydych chi eisiau rhywun annibynnol i ystyried y penderfyniadau gan y cynghorau. Mae ein harolygwyr yn adolygu'r wybodaeth a'r dystiolaeth yn annibynnol, ac yn y rhan fwyaf o achosion, yn ymweld â'r safle a'r ardal gyfagos cyn penderfynu'r achos.

Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu arolygwyr annibynnol hefyd i ystyried tystiolaeth a gwneud penderfyniadau ar gyfer gwaith arbenigol, gan gynnwys:

- Gwaith Gorchymyn Diogelu Coed, tynnu gwrychoedd ac apeliadau gwrychoedd neu berthi uchel gwrthgymdeithasol
- Hawliau tramwy cyhoeddus fel pan fydd cynigion yn cynnwys newidiadau i hawliau mynediad i'r rhwydwaith, neu pan geir gwrthwynebiadau i hawl dramwy newydd.

Fel rhan o'n rhaglen weddnewid, cynhaliom ymchwil defnyddwyr helaeth gydag apelyddion, asiantau ac awdurdodau cynllunio lleol. Defnyddiom yr ymchwil hon i gynllunio ateb cyfnod datblygu Alpha. Ym mis Awst 2020, bu modd i ni fodloni safon gwasanaeth y Llywodraeth. Mae apeliadau deiliaid tai wedi'u datblygu fel yr elfen gyntaf a'u lansio i grŵp peilot o awdurdodau cynllunio lleol. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn trefnu bod hyn ar gael i fwy o awdurdodau, a hefyd yn cynnwys mathau ychwanegol o apeliadau.

## Gwasanaeth ceisiadau

### Prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol yn Lloegr, a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghymru

Rydym i gyd yn defnyddio ac yn dibynnu ar seilwaith cenedlaethol. Rydym i gyd yn dibynnu ar orsafoedd pŵer a ffermydd gwynt i gynhyrchu trydan. Rydym i gyd yn dibynnu ar ein prif ffyrdd, rheilffyrdd, porthladdoedd a meysydd awyr i symud pobl, bwyd a chynhyrchion eraill o amgylch y wlad a rhwng gwledydd. Rydym i gyd yn dibynnu ar gronfeydd dŵr i gael dŵr ffres pan fyddwn ni'n troi ein tapiau, ac yn dibynnu ar waith trin carthffosiaeth pan fyddwn yn fflysio ein toiledau.

Y rhain yw'r prosiectau datblygu mwyaf a mwyaf cymhleth yn y wlad. Cymerant flynyddoedd lawer i'w datblygu. Rydym yn darparu cyngor yn ystod y cyfnod hwnnw, gan nodi ble mae angen gwella'r prosiectau neu ble mae angen mwy o wybodaeth i gyfiawnhau penderfyniad dylunio.

Rydym yn ystyried buddiannau datblygwyr, awdurdodau lleol, cymunedau lleol a phartïon eraill â buddiant, yn gweithredu polisi'r llywodraeth ac yn ystyried unrhyw beth arall sy'n berthnasol. Rydym yn argymell i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru p'un a ddylai'r prosiectau hyn fynd rhagddynt.

Fel rhan o'n rhaglen drawsnewid, rydym wedi cwblhau'r cam darganfod ar gyfer ein gwasanaeth ceisiadau ac rydym nawr yn dylunio datrysiad cam datblygu Alpha gyda ffocws ar Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, gydag asesiad o'r gwasanaeth wedi'i gynllunio ar gyfer 2021.

### Tir Comin

Rydym hefyd yn penderfynu ar geisiadau eraill ar gyfer y llywodraeth, fel ceisiadau am waith ar dir comin. Mae hanes hir gan dir comin yn seiliedig ar hawliau hynafol o dan gyfraith gyffredin Prydain, ac mae tir comin sy'n weddill yn hygyrch i'r cyhoedd erbyn hyn

### Gorchmynion Prynu Gorfodol

Gall rhai sefydliadau brynu tir hyd yn oed os nad yw'r perchennog eisiau gwerthu. Y rheswm am hyn fel arfer yw bod angen y tir ar gyfer prosiect pwysig fel ffordd, rheilffordd neu ddatblygiad pwysig ar gyfer yr ardal. Rydym yn asesu'n annibynnol p'un a ddylai'r gorchymyn prynu gorfodol fynd rhagddo.

# Ein proses sicrhau ansawdd

## Mae ansawdd ein gwaith yn bwysig i gynnal hyder pawb sy’n gysylltiedig â chynllunio, gan gynnwys y cyhoedd, gwleidyddion a datblygwyr. Wrth sôn am ansawdd, golygwn bopeth sy’n ymwneud â chynnwys y penderfyniad terfynol a’r gweithdrefnau a’r prosesau sy’n arwain at hynny.

Mae Arolygwyr unigol yn gyfrifol am y penderfyniadau a’r argymhellion a wnânt, a nhw yn y pen draw sy’n gyfrifol am ansawdd eu gwaith eu hunain. Fel sefydliad, sut ydym ni’n eu cynorthwyo i gyflawni’r ansawdd cywir?

Bydd hyn yn amrywio gan ddibynnu ar y math o waith, ond mae’r cyfan yn dechrau gyda’r hyfforddiant a ddarparwn ar gyfer Arolygwyr newydd. Mae’n canolbwyntio ar bwysigrwydd pwyso a mesur barnau croes i lunio casgliadau â chyfiawnhad da drostynt, ac ar gymhwyso Egwyddorion Franks – bod yn agored, yn deg ac yn ddiduedd.

Ymhellach na hyn, mae’r Arolygiaeth yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant, prosesau sicrhau ansawdd a rheolaeth ar wybodaeth. Darparwn ddiweddariad misol i’r holl Arolygwyr ar ddatblygiadau allweddol yn y byd cynllunio, gan gynnwys yn ymwneud â dyfarniadau cyfreithiol arwyddocaol a materion polisi.

### Archwiliadau

Mae’r holl arolygwyr sy’n newydd i waith cynlluniau lleol yn cael hyfforddiant a ategir gan gyngor ysgrifenedig am brosesau ac arfer gorau. Darperir hyfforddiant, cyngor a sesiynau briffio mewn dau ddigwyddiad penodol bob blwyddyn ac yn fwy rheolaidd fel bo’r angen, er enghraifft, trwy gyfarfodydd misol. Mae’r rhain yn galluogi rhannu a thrafod arfer gorau.

Sicrheir ansawdd yr holl adroddiadau cynllunio lleol a llythyrau cadernid gan banel. Mae sicrhau ansawdd yn canolbwyntio ar safon y rhesymeg a’r drafftio, ac ni ddywedir fyth wrth Arolygwyr pa gasgliadau y dylent eu llunio. Rhoddir ystyriaeth i ansawdd hefyd mewn cyfarfodydd misol rheolwyr llinell ac mewn sgyrsiau misol gydag Arolygwyr. Rydym yn ystyried deilliannau’r broses sicrhau ansawdd, heriau cyfreithiol a chwynion yn rheolaidd er mwyn asesu p’un a oes angen i ni newid unrhyw beth.

### Apeliadau

Mae’r rhan fwyaf o arolygwyr yn penderfynu ar apeliadau cynllunio neu apeliadau gorfodi ar ryw adeg yn ystod eu gyrfaoedd. Mae’r hyfforddiant cychwynnol yn drwyadl ac yn helaeth, ac mae’n ymdrin â’r prif egwyddorion ar gyfer y rhai sy’n gwneud penderfyniadau. Rhoddir arweiniad ar yr ymagwedd y dylid ei mabwysiadu, gan roi ystyriaeth i ddeddfwriaeth, polisi a chyfraith achosion. Fodd bynnag, nid ydym yn darparu unrhyw beth mwy na cheir mewn polisi a chanllawiau cenedlaethol yn ymwneud â’r pwysigrwydd i’w briodoli i ystyriaethau perthnasol. Mae canlyniad unrhyw apêl yn fater i’r Arolygydd unigol ei farnu.

Cyflwynir hyfforddiant ar destunau penodol a diweddariad cyfreithiol mewn digwyddiadau dwywaith y flwyddyn. Yn aml, mae hyn yn cynnwys rhannu arfer da a phrofiad. Defnyddir deunyddiau hyfforddi hefyd mewn cyfarfodydd llai ac mewn gweminarau.


Yn Lloegr, caiff sampl o benderfyniadau apêl eu hadolygu gan reolwyr llinell ar ôl iddynt gael eu rhoi, a rhoddir adborth. Rydym yn cylchredeg unrhyw wersi sy’n codi o gŵynion neu heriau i’r holl Arolygwyr. Yng Nghymru, caiff yr holl benderfyniadau eu gwirio cyn eu rhoi er mwyn sicrhau bod materion ffeithiol fel cyfeirnod yr achos, a rhifau cynlluniau, yn gywir.

Mewn rhai achosion, caiff apeliadau eu penderfynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru yn hytrach na chan yr Arolygydd. Yn yr achosion hyn, mae adroddid yr Arolygydd yn cael ei adolygu gan banel sicrhau ansawdd cyn ei gyflwyno. Mae’r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar y safon y rhesymu a’r drafftio, yn hytrach nag ar ba argymhellion y dylai’r Arolygydd eu gwneud.

### Ceisiadau

Mae’r broses sicrhau ansawdd ar gyfer ceisiadau yn debyg i broses archwiliadau ac apeliadau. Cynhelir hyfforddiant cychwynnol cynhwysfawr i sicrhau bod Arolygwyr yn barod i archwilio, asesu a gwneud argymhellion. Ceir dau brif ddigwyddiad hyfforddi bob blwyddyn, a rhoddir diweddariadau rheolaidd ar arfer gorau a materion yn ymwneud â pholisi a’r gyfraith. Sicrheir ansawdd yr holl adroddiadau o ran eu drafftio a’u rhesymu, ac nid ar natur yr argymhelliad a wneir gan y Panel Archwilio.

### Fframwaith Sicrhau Ansawdd



# Ein gweithrediadau

## Mae ein harolygwyr yn defnyddio tair gweithdrefn wahanol i ystyried tystiolaeth. Mae'r dull a ddefnyddir ganddynt yn dibynnu ar yr achos, y math o dystiolaeth a sut gallant ganfod orau beth sydd ei angen arnynt i wneud eu penderfyniad neu argymhelliad.

### Addasu gweithrediadau i'r pandemig

Er i ni gynnal lefel perfformiad uchel yng Nghymru, yn 2019/20 fe wnaethom wella ein perfformiad gweithredol yn sylweddol yn Lloegr. Penderfynwyd llawer mwy o achosion nag a dderbyniwyd gennym, ac roedd ein penderfyniadau yn cyflymu (gweler ein dadansoddiad perfformiad o dudalen 38). Roeddem wedi cynllunio i barhau'r cynnydd hwnnw yn 2020/21 ond effeithiwyd ar ein gweithrediadau a'n blaenoriaethau gan y pandemig COVID-19.

Cadw ein cyflogeion a'n cwsmeriaid yn ddiogel oedd ein blaenoriaeth uniongyrchol. Yna, fe wnaethom ganolbwyntio ar gadw gwaith achos yn symud lle'r oedd yn ddiogel, a chefnogi'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol fel rhan o ymateb ehangach y llywodraeth.

Ym Mawrth 2020, rhoesom y gorau i ymweld â safleoedd apêl a gohiriwyd yr holl wrandawiadau ac ymchwiliadau. Yn ystod chwe wythnos gyntaf cyfnod clo gwanwyn 2020 llwyddom i wneud y canlynol:

- Rhoi penderfyniadau lle'r oedd ymweliadau safle eisoes wedi'u cynnal;
- Treialu rhoi penderfyniadau heb ymweld â'r safle mewn rhai achosion;
- Paratoi i ailddechrau cynnal gwrandawiadau ac ymchwiliadau yn rhithwir;
- Paratoi i ailddechrau ymweliadau safle yn ddiogel pan oedd teithio'n cael ei ganiatáu; a
- Secondio 30 o Arolygwyr i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i gefnogi ymateb ehangach y llywodraeth.

Trwy gydol gweddill y flwyddyn, fe wnaethom addasu'r ffordd rydym yn gweithio a chynorthwyo ein cyflogeion gyda'u cyfrifoldebau gwarchod eu hunain a gofalu. Ailddechreuodd ymweliadau safle diogel yng nghanol mis Mai. Fe wnaeth gwrandawiadau ac ymchwiliadau ailddechrau yn rhithwir. Erbyn hyn rydym wedi cynnal dros 700 o ddigwyddiadau gan ddefnyddio Microsoft Teams a Youtube i gysylltu'r holl bartïon perthnasol. Gwnaethom dros 17,500 o argymhellion a phenderfyniadau ar archwiliadau, apeliadau a cheisiadau yn ystod y flwyddyn.

### Sylwadau ysgrifenedig

Caiff y rhan fwyaf o'n hachosion eu penderfynu gan Arolygwyr ar ôl gweld tystiolaeth ysgrifenedig ac ar ôl ymweld â'r safle fel arfer. Gelwir hyn yn "sylwadau ysgrifenedig" yn aml. Mae'r apelydd, y Cyngor, pobl a busnesau lleol, ac unrhyw un arall â diddordeb yn yr apêl yn gwneud eu sylwadau yn ysgrifenedig, ac mae'r Arolygydd yn penderfynu ar yr achos ar ôl adolygu'r dystiolaeth.

### Gwrandawiadau

Mae ein ceisiadau seilwaith cenedlaethol, archwiliadau cynlluniau lleol a rhai achosion apêl yn cael eu penderfynu ar ôl i'r Arolygydd gynnal gwrandawiad. Yn yr achosion hyn, mae'r apelydd neu'r ymgeisydd, y Cyngor, pobl a busnesau lleol ac unrhyw un arall â diddordeb yn yr achos yn gwneud eu sylwadau yn ysgrifenedig. Yna mae'r Arolygydd yn cadeirio trafodaeth strwythuredig ynglŷn â rhai o'r materion neu'r holl faterion er mwyn ei helpu i gynnal prawf ar y dystiolaeth. Gall gwrandawiadau ar gyfer ceisiadau ac archwiliadau gael eu cynnal dros ddiwrnodau neu wythnosau, ond mae gwrandawiadau ar gyfer achosion apêl yn fyrrach o lawer. Yn aml, bydd Arolygwyr yn ymweld â'r safle hefyd, ac yna'n paratoi ei benderfyniad neu argymhelliad.

### Ymchwiliadau

Cynhelir ymchwiliadau ar gyfer yr apeliadau mwyaf cymhleth ac ar gyfer rhywfaint o waith achos arall, fel gorchmynion prynu gorfodol a cheisiadau cynllunio sy'n cael eu galw i mewn. Mae'r apelydd neu'r ymgeisydd, y Cyngor, pobl a busnesau lleol ac unrhyw un arall â diddordeb yn yr achos yn gwneud eu sylwadau yn ysgrifenedig. Ar ddisgresiwn yr Arolygydd, gall pobl leisio'u barnau ar lafar yn yr ymchwiliad hefyd. Mae ymchwiliadau yn fwy ffurfiol na gwrandawiadau, a rhoddir tystiolaeth ar brawf trwy groesholi, gan fargyfreithwyr yn cynrychioli'r prif bartïon â buddiant yn yr apêl fel arfer. Ar ôl ymweld â'r safle, mae'r Arolygydd yn gwneud ei benderfyniad neu argymhelliad wedyn.

Yn hanesyddol, mae arolygwyr wedi defnyddio un o'r dair gweithdrefn ar gyfer achos yn ei gyfanrwydd. Mae newidiadau cyfreithiol yn dweud yn glir erbyn hyn y gall arolygwyr ddefnyddio mwy nag un gweithdrefn ar un achos, a galwn y rhain yn weithdrefnau hybrid.


# Archwilio cynlluniau lleol yn Lloegr

## Parhawyd i baratoi cynlluniau lleol a'u cyflwyno i ni drwy'r flwyddyn. Fe wnaethom eu harchwilio'n rhithwir fel nad oedd unrhyw oedi o ran y cynlluniau pwysig hyn ar gyfer cymunedau lleol a'r economi.

Cafodd pedwar ar hugain o gynlluniau eu cyflwyno i ni i'w harchwilio eleni, gostyngiad o 12 o gymharu â 2019/20. Mae hyn yn llai na'r disgwyl ar ddechrau'r flwyddyn, a phandemig COVID-19 oedd y ffactor mwyaf tebygol o ran bod cynlluniau'n datblygu'n arafach nag yr oedd cynghorau wedi disgwyl. Fe wnaeth ein hincwm ostwng yn sylweddol i £2.6 miliwn yn 2020/21, yr isaf y mae wedi bod ers 2016 o leiaf.

Cynhaliom 72 o ddigwyddiadau rhithwir fel na fyddai cynlluniau yn cael eu hoedi gan fesurau cyfnod clo, a chyhoeddom 32 o adroddiadau ar gynlluniau lleol a archwiliwyd gennym. Daeth ein holl adroddiadau i'r casgliad bod y Ddyletswydd i Gydweithio wedi'i bodloni gan awdurdodau cynllunio lleol. Mae'r Ddyletswydd i Gydweithio yn ofyniad cyfreithiol ar awdurdodau cynllunio lleol o ran y ffordd y maen nhw'n paratoi'u cynlluniau. Yn yr achosion hyn, ni all y cynllun barhau gan ei fod yn ymwneud â'r ffordd y paratowyd y cynllun, nid cynnwys y cynllun ei hun. Yn yr holl achosion, roedd ein hadroddiadau yn argymell newidiadau i wella cadernid ac i basio'r profion cyfreithiol, gweithdrefnol a pholisi. Weithiau, roedd hyn yn golygu dileu polisïau di-gyfiawnhad neu gyflwyno rhai newydd, diwygio geiriad polisi neu newid gofyniad tai. Buom yn gweithio'n bragmatig ac yn adeiladol i'w helpu i gyflawni hyn. Roedd yr awdurdodau cynllunio (cynghorau fel arfer) yn gallu mabwysiadu'u cynlluniau wedyn a dechrau gwneud newidiadau cadarnhaol ar gyfer eu cymunedau hyd yn oed yn ystod pandemig.


Graff 10. Cynlluniau Lleol a dderbyniwyd ac a gyhoeddwyd




**Mae Cynlluniau Lleol ledled Lloegr yn darparu ar gyfer 3.7 miliwn o gartrefi**

Ffynhonnell: https://local-plans-prototype.herokuapp.com/

Mae data gofynion tai cynlluniau lleol yn adlewyrchu dealltwriaeth y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol o gynlluniau mabwysiedig ar ddiwedd Rhagfyr 2020. Mae'r data'n arbrofol, yn cael ei ddiweddaru'n fisol, ac yn destun dilysu cyfyngedig. Ni ddylid dibynnu arno felly fel cynrychiolaeth 'amser real' o gynnydd na chynnwys cynlluniau lleol.




Hawlfraint © Maproom.net.
Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi'i thrwyddedu o dan Y Drwydded Llywodraeth Agored f.3.0
Mae'n cynnwys data OS, Y Post Brenhinol ac Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron a'r Post Brenhinol a hawliau cronfa ddata 2020

# Cynllun Lleol De Swydd Rydychen - Astudiaeth achos

## De Swydd Rydychen yw'r archwiliad cynllun cyntaf lle cynhaliwyd yr holl wrandawiadau yn rhithwir. Denodd lefel uchel o ddiddordeb gan y cyhoedd. Cafodd y gwrandawiadau eu ffrydio'n fyw ar ein sianel YouTube.




Ffynhonnell: Cynllun Lleol De Swydd Rydychen 2035.

Mae De Swydd Rydychen yn ardal sy'n ymestyn tua'r de ddwyrain o Rydychen, mor bell â chyrion gogleddol Reading, ac mae'n cynnwys rhan sylweddol o Llain Las Rhydychen ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Chiltern, ac ardal lai o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Twyndiroedd Gogledd Wessex. Mae'r Ardal yn cynnwys Trefi Marchnad deniadol a ffyniannus Wallingford, Thame a Henley-on-Thames, tref gardd Didcot sy'n ehangu, ystod o bentrefi gwahanol, a llawer o gefn gwlad agored braf.

Mae gan Dde Swydd Rydychen, Dinas Rhydychen, a Sir Swydd Rydychen economi gref sy'n tyfu, ond nid yw tai yn fforddiadwy i lawer. Mae angen sylweddol gan Dde Swydd Rydychen am bob mathau o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy, ac nid yw dinas gyfagos Rhydychen yn gallu darparu ar gyfer ei holl anghenion am dai o fewn ei ffiniau. Hefyd, mae materion seilwaith arwyddocaol i fynd i'r afael â nhw.

Mae Cynllun Lleol De Swydd Rydychen yn amlinellu sut fydd datblygiadau yn cael eu cynllunio a'u cyflawni ledled Swydd Rydychen hyd nes 2035. Mae'n nodi ardaloedd a safleoedd priodol ar gyfer datblygiad newydd, fel cartrefi newydd, siopau a chyfleusterau cymunedol. Mae'n nodi sut fydd amgylcheddau hanesyddol a naturiol gwerthfawr yn cael eu gwarchod a'u gwella. Bydd y polisïau yn y cynllun yn helpu gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn yr Ardal hyd nes y caiff ei ddisodli.

Dechreuodd y Cyngor ddatblygu'r cynllun yn 2014 a'i ategu gyda sylfaen dystiolaeth fanwl yn cynnwys 18 o astudiaethau a chynlluniau. Ymgymerodd y Cyngor ag ymgynghoriadau cyhoeddus niferus fel rhan o waith datblygu'r cynllun a'r sylfaen dystiolaeth.

Cyflwynwyd y Cynllun Lleol i'r Arolygiaeth Gynllunio i'w archwilio ar 29 Mawrth 2019, ond ar 3 Hydref 2019, penderfynodd Cabinet y Cyngor i argymell ei dynnu'n ôl. Dilynodd ymyriadau amrywiol gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gyda'r olaf ohonynt bythefnos yn unig cyn cyfnod clo gwanwyn 2020. Ar 3 Mawrth 2020, rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddiadau newydd i'r Cyngor, gan gynnwys y dylai fwrw ymlaen â'r cynllun drwy archwiliad.

Gyda chyfnod clo gwanwyn 2020, ynghyd â'r debygoliaeth y byddai cyfyngiadau'n parhau yn y misoedd dilynol, roedd yn amlwg nad oedd modd cynnal archwiliad cynllun lleol yn y dull arferol. Roedd swyddfeydd y Cyngor ar gau, a lleoliadau cyfarfod eraill hefyd. Nid oedd yn ddiogel cynnal cyfarfodydd mawr o bobl o gartrefi gwahanol, ac nid oedd hynny'n cael ei ganiatáu yn aml.

Gyda chydweithrediad y Cyngor cytunom mai'r gwrandawiadau fyddai'r cyntaf i'w cynnal yn llawn yn rhithwir, a byddent yn cael eu ffrydio'n fyw dros y rhyngrwyd. Er bod llawer o bobl yn arfer defnyddio technoleg fideo erbyn hyn, roedd llawer yn llai yn gyfarwydd â hynny yng ngwanwyn 2020. A oedd modd ei wneud?

Gweithredodd y Cyngor yn gyflym trwy ddarparu ymatebion i sylwadau a chwestiynau'r Arolygydd trwy fisoedd Ebrill a Mai 2020. Ar yr un pryd, roedd paratoadau yn mynd rhagddynt yn dda yn y cefndir. Roedd angen gosod y dechnoleg a'i rhoi ar brawf ar gyfer digwyddiad ar raddfa mor fawr. Paratowyd canllawiau i bawb a oedd yn cymryd rhan. Cynhaliwyd prawf ar y mesurau i wneud yn siŵr nad oedd cyfranogwyr dan anfantais, gan gynnwys gallu ymuno â'r cyfarfod o ystod o gyfrifiaduron, ffonau a llechi gyda phorwyr gwahanol. Ymgorfforwyd y gofynion preifatrwydd data yn y broses. Hefyd, roedd angen i ni sicrhau bod yr Arolygydd yn gallu ymuno â'r cyfarfod rhithwir heb rannu ei fanylion cyswllt, gan sicrhau ei fod yn parhau'n ddiduedd a bod pawb yn gweld yr un dystiolaeth.

Gyda chydweithrediad gan y Cyngor, Swyddog y Rhaglen ac ymdrech tîm ar draws yr Arolygiaeth, agorodd yr Arolygydd yr archwiliad ar 14 Gorffennaf 2020. Daeth i ben ar 7 Awst 2020 gyda 469 o ymddangosiadau gan dystion, a 15,203 o olygon ar YouTube.

| | |
|---|---|
| Mawrth 2019 | Cynllun Lleol wedi'i gyflwyno gan De Swydd Rydychen. |
| Hydref 2019 | Penderfynodd y Cyngor dynnu'r cyflwyniad yn ôl ond cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddyd cadw. |
| Mawrth 2020 | Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddyd newydd i fwrw ymlaen. |
| Gorffennaf i Awst 2020 | Cynhaliwyd ymchwiliad pedair wythnos yn rhithwir. |
| Tachwedd 2020 | Arolygydd wedi cyhoeddi'r adroddiad. |
| Rhagfyr 2020 | Cynllun wedi'i fabwysiadu gan Ardal De Swydd Rydychen. |

Erbyn 2035 gallai'r cynllun alluogi:

**23,550 o Gartrefi**
Saith o safleoedd tai strategol newydd

**12,403 o Swyddi**
47.94 Hectar o dir cyflogaeth

Cynhaliwyd y gwrandawiadau rhithwir mewn ffordd debyg iawn i wrandawiadau ffisegol. Roedd yr Arolygydd yn gallu cael yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen arno, ac ar ddiwedd yr archwiliad canfu fod y cynllun yn gadarn, yn amodol ar restr o addasiadau. Cytunodd y Cyngor i ymgorffori'r addasiadau a argymhellwyd yn y cynllun, a mabwysiadwyd y cynllun ym mis Rhagfyr 2020.

Ni chafwyd unrhyw gŵynion uniongyrchol ynghylch y fformat rhithwir ar ôl y digwyddiad. Roedd adborth gan y Cyngor yn gadarnhaol iawn gyda'r fformat rhithwir, ac ychwanegodd na fyddai eisiau mynd yn ôl at wrandawiadau ffisegol ar gyfer archwiliad cynllun lleol. Bellach, mae gan yr Ardal Gynllun Lleol diweddar i arwain a rheoli datblygu, er gwaethaf effaith y pandemig. Mae'r cynllun yn darparu ar gyfer 23,550 o gartrefi gyda saith o safleoedd tai strategol, a 12,403 o swyddi gyda hyd at 47.64 hectar o dir cyflogaeth.

# Apeliadau yn Lloegr

## Rydym wedi llwyddo i gadw gwaith achos i symud yn ystod y pandemig trwy weithio'n wahanol. Mae cyfyngiadau'r cyfnod clo a'n capasiti llai drwy'r flwyddyn wedi effeithio ar brofiad ein cwsmeriaid, yn enwedig ar gyfer gwrandawiadau ac ymchwiliadau. Fodd bynnag, roedd ein hamseroedd o ran gwneud penderfyniadau yn gwella erbyn y chwarter olaf.

Derbyniwn ystod eang o apeliadau, fel y dangosir yn Graff 14, ond rydym yn eu grwpio i dri chategori, a nodir eu manylion isod o'r mwyaf cyffredin i'r lleiaf cyffredin.

### Apeliadau cynllunio

Hwn yw ein maes gwaith mwyaf. Er gwaetha'r pandemig, roedd nifer yr apeliadau cynllunio newydd yn cael eu cyflwyno yn parhau'n uchel, dim ond oddeutu 7% yn is nag yn 2019/20.

Penderfynom ar lai o apeliadau nag a dderbyniwyd gennym drwy'r gwanwyn ac yn gynnar yn yr haf 2020. Canlyniad atal ymweliadau safle, gwrandawiadau ac ymchwiliadau yn ystod y gwanwyn yw hyn er mwyn cadw ein gweithwyr a'n cwsmeriaid yn ddiogel. Hefyd, roedd llai o gapasiti Arolygwyr gennym yn sgil gweithgareddau gwarchod a gofalu trwy gydol y flwyddyn. Wrth roi gwrandawiadau ac ymchwiliadau rhithwir ar waith, yn ogystal â gwneud newidiadau i gynnal ymweliadau safle yn ddiogel, bu modd i ni ymdopi'n iawn â nifer gyffredinol yr achosion newydd a oedd yn cael eu cyflwyno ar ddechrau'r cyfnod clo yn 2021.

### Apeliadau gorfodi

Derbyniom 21% yn llai o apeliadau gorfodi o gymharu â 2019/20. Gallai hyn fod oherwydd bod llai o hysbysiadau gorfodi wedi'u cyflwyno gan gynghorau wrth iddyn nhw ganolbwyntio ar flaenoriaethau'n ymwneud â'r pandemig.


Yn 2019/20, bu modd i ni ystyried nifer uchel o apeliadau gorfodi. Cyn i ni allu gweld effaith ein hymdrechion yn 2020/21, cafodd ymweliadau safle, gwrandawiadau ac ymchwiliadau eu hatal gan leihau ein gallu i wneud penderfyniadau. Bu modd i ni gyfyngu ar y cynnydd yn y niferoedd o achosion agored drwy'r flwyddyn, gan ein rhoi ni mewn sefyllfa dda i leihau amseroedd gwneud penderfyniadau ar gyfer gwrandawiadau ac ymchwiliadau y flwyddyn nesaf.

### Apeliadau arbenigol


Mae gwaith achos arbenigol y delir ag ef gan ein gwasanaeth apeliadau yn cynnwys gwaith i ddiogelu coed gan orchymyn diogelu coed, apeliadau rheoliadau amgylcheddol, apeliadau gwrychoedd ac apeliadau perthi a gwrychoedd uchel, ac ystod o waith achos yn ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus.

Roedd achosion newydd 8% yn is nag yn 2019/20. Roedd y gostyngiad mwyaf (tua 40%) mewn gwaith achos hawliau tramwy. Gallai hyn hefyd fod oherwydd bod cynghorau yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'n ymwneud â'r pandemig a bod llai o weithgarwch hawliau tramwy.

Graph 11. Achosion apêl wedi'u penderfynu yn ôl chwarter in 2020/21





Graff 12. Achosion apêl wedi'u penderfynu yn ôl math yn 2020/21



## Apeliadau cynllunio wedi'u penderfynu trwy sylwadau ysgrifenedig

Cafodd apeliadau eu rhwystro yn ystod cyfnod clo Gwanwyn 2020. Arweiniodd hyn at gwsmeriaid yn disgwyl yn hirach am benderfyniadau yn ystod yr Haf a'r Hydref. Wrth i gyfyngiadau gael eu llacio, cynyddodd argaeledd ein Harolygwyr a bu modd cynnal ymweliadau safle eto, a gwnaethom gynnydd da wrth benderfynu ar achosion a oedd wedi cronni'n gynharach yn y flwyddyn. Fe wnaethom wella'n raddol yn ôl i'r cyflymderau cyn y pandemig yn ystod y gaeaf. Fe wnaethom wella ein cysondeb eleni a phenderfynom ar 90% o'n hachosion cyn pen 37 wythnos, bedair wythnos yn gyflymach na'r llynedd. Ond roedd llai o benderfyniadau cyflym iawn, gyda 10% o achosion yn cael eu penderfynu ymhen 13 wythnos yn hytrach na 12; a chynyddodd yr amser penderfynu canolrifol o 19 wythnos i 22.

Graff 13. Amser penderfynu canolrifol ar gyfer achosion apêl cynllunio wedi'u penderfynu trwy sylwadau ysgrifenedig





## Apeliadau cynllunio wedi'u penderfynu ar ôl gwrandawiad

Yn flaenorol, roedd gwrandawiadau yn cael eu cynnal gan awdurdodau cynllunio lleol yn eu hadeiladau gyda phobl yn mynychu'n bersonol, felly cawsant eu gohirio yn ystod cyfnod clo gwanwyn 2020. Fe wnaeth gwrandawiadau rhithwir ein galluogi i barhau â'n gwaith er gwaetha'r pandemig COVID-19, ond bu'n rhaid i ni eu trefnu a'u cynnal ein hunain yn hytrach na dibynnu ar awdurdodau cynllunio lleol.

Erbyn hyn rydym yn cynnal rhyw 50 o apeliadau cynllunio trwy wrandawiad rhithwir bob mis, ond mae angen i ni gynyddu hyn ymhellach i fodloni'r galw. Rydym yn rhannu ein dysgu gydag awdurdodau cynllunio lleol fel eu bod hwythau'n gallu trefnu a chynnal gwrandawiadau unwaith eto. Bydd hyn yn ein helpu i gynyddu nifer y gwrandawiadau yn ôl i'r lefel cyn y pandemig ac i gyflymu penderfyniadau.

O ganlyniad, cymerodd fwy o amser i benderfynu ar rai achosion na'r flwyddyn flaenorol, gyda 10% yn cymryd mwy na 64 wythnos, a gwaethygodd ein cysondeb. Fodd bynnag, bu modd i ni benderfynu ar gymaint o achosion yn gyflym, a hyd yn oed lleihau ein hamser penderfynu canolrifol o wythnos o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.


Graff 14. Amser penderfynu canolrifol ar gyfer achosion apêl cynllunio wedi'u penderfynu drwy wrandawiadau




## Apeliadau cynllunio wedi'u penderfynu ar ôl ymchwiliadau

Fel apeliadau cynllunio trwy wrandawiad, cafodd ymchwiliadau eu gohirio yn ystod cyfnod clo gwanwyn 2020. Rydym wedi bod yn eu cynnal yn rhithwir ers Mehefin 2020. Ar ddechrau 2021, dylai'r nifer uchel o ymchwiliadau a oedd yn cael eu cynnal yn rhithwir fod wedi lleihau amseroedd penderfynu hyd yn oed yn fwy, ond fe wnaeth cyfnod clo'r gaeaf leihau ein capasiti eto. Er gwaetha'r cyfyngiadau hynny ar ein capasiti, fe wnaethom wella ein cysondeb eleni a phenderfynom ar 90% o'n hachosion cyn pen 66 wythnos, sef wyth wythnos yn gyflymach na'r llynedd. Ond cymerodd ychydig yn hirach i benderfynu'r achosion cyflymaf o gymharu â'r llynedd.


Graff 15. Amser penderfynu canolrifol ar gyfer achosion apêl cynllunio wedi'u penderfynu drwy ymchwiliadau




## Apeliadau gorfodi wedi'u penderfynu trwy sylwadau ysgrifenedig

Rydym wedi lleihau nifer yr apeliadau agored gan ryw 300 neu oddeutu 11% dros y flwyddyn. Fel gydag apeliadau cynllunio, cafodd apeliadau eu rhwystro yn ystod cyfnod clo Gwanwyn 2020. Arweiniodd hyn at gwsmeriaid yn disgwyl yn hirach am benderfyniadau yn ystod yr haf a'r hydref. Wrth i gyfyngiadau gael eu llacio, cynyddodd argaeledd ein Harolygwyr a bu modd cynnal ymweliadau safle eto, a gwnaethom gynnydd da wrth benderfynu ar achosion a oedd wedi cronni'n gynharach yn y flwyddyn. Fe wnaethom wella'n raddol yn ôl i'r cyflymderau cyn y pandemig yn ystod y gaeaf. O ganlyniad, fe wnaeth ein hamser penderfynu ar gyfer yr achosion arafaf gynyddu o ddwy wythnos, i 60 wythnos, a gwaethygodd ein cysondeb cyffredinol. Fodd bynnag, bu modd i ni wella ein hamser penderfynu ar gyfer y 10% o achosion cyflymaf, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud wythnos yn gyflymach o gymharu â'r llynedd, ac roedd ein hamser penderfynu canolrifol chwe wythnos yn gyflymach.

Graff 16. Amser penderfynu canolrifol ar gyfer achosion apêl gorfodi wedi'u penderfynu drwy sylwadau ysgrifenedig



## Apeliadau gorfodi wedi'u penderfynu ar ôl gwrandawiadau ac ymchwiliadau


Rydym bellach yn cynnal mwy o wrandawiadau ac ymchwiliadau gorfodi bob mis nag yr ydym yn derbyn. Ond mae angen i ni gynyddu hyn ymhellach er mwyn lleihau'r llwyth achosion presennol. Hefyd, mae angen i ni gynnal digwyddiadau ffisegol pan fydd yn ddiogel i wneud hynny er mwyn penderfynu'r achosion hynny nad ydym wedi gallu eu cynnal yn rhithwir gan y byddai gwneud hynny wedi creu anfantais i un parti o leiaf. Fe wnaeth effeithiau canlyniadol y pandemig COVID-19 waethygu'r amser aros ar gyfer achosion ymchwiliad a gwrandawiad.

Ar gyfer gwrandawiadau, fe wnaeth yr amser penderfynu canolrifol ar gyfer yr achosion cyflymaf gynyddu saith wythnos o gymharu â'r llynedd, ac ar gyfer 10% o'n hachosion, cynyddodd yr amser penderfynu 24 wythnos. Fe wnaeth ein cysondeb ddioddef hefyd.


Ar gyfer ymchwiliadau, ni fu modd i ni barhau â'r cynnydd cadarnhaol a wnaethom y llynedd i wella ein cysondeb a'n cyflymder. Er i'n hamser penderfynu leihau chwe wythnos o gymharu â'r llynedd ar gyfer y 10% o achosion cyflymaf, cynyddodd ein hamser penderfynu 29 wythnos ar gyfer y 10% o achosion arafaf. Hefyd, fe wnaeth yr amser penderfynu canolrifol gynyddu 11 wythnos.

Rydym ni wedi trefnu a chynnal yr holl wrandawiadau ac ymchwiliadau rhithwir yn ystod y pandemig COVID-19, tra bod awdurdodau cynllunio lleol wedi cynnal digwyddiadau ffisegol yn flaenorol. Bellach, rydym yn rhannu ein dysgu gydag awdurdodau cynllunio lleol fel eu bod nhw'n gallu'u trefnu unwaith eto. Bydd cynyddu nifer y gwrandawiadau ac ymchwiliadau gorfodi yn dechrau lleihau'r oedi hwn eto..

Graff 17. Amser penderfynu canolrifol ar gyfer achosion apêl gorfodi wedi'u penderfynu drwy wrandawiadau




Graff 18. Amser penderfynu canolrifol ar gyfer achosion apêl gorfodi wedi'u penderfynu drwy ymchwiliadau





## Hawliau tramwy

Parhaom i benderfynu ar waith achos hawliau tramwy trwy gydol y pandemig COVID-19 drwy gyfnewid tystiolaeth ysgrifenedig a chynnal gwrandawiadau ac ymchwiliadau rhithwir. Bu rhai o'n harolygwyr a oedd wedi'u hyfforddi i ddelio â hawliau tramwy yn gweithio ar waith achos arall yn ystod y pandemig COVID-19 er mwyn ein helpu i barhau i wneud penderfyniadau.

Fe wnaeth ein cysondeb waethygu eleni, ond hanerodd yr amser penderfynu ar gyfer 10% o'n hachosion a lleihaodd yr amser penderfynu canolrifol bum wythnos. Fodd bynnag, cymerodd 10% o'n hachosion fwy o amser i'w penderfynu, gyda chynnydd o 16 wythnos. Ceir mathau gwahanol o achosion hawliau tramwy. Mae penderfyniadau gweithdrefnol pen desg yn gyflym, ond mae rhai yn mynnu cynnal ymchwiliadau, sy'n cymryd mwy o amser.


Graff 19. Amser penderfynu canolrifol ar gyfer apeliadau hawliau tramwy




## Gorchmynion Diogelu Coed, ac apeliadau gwrychoedd a pherthi uchel

Defnyddiom lai o gapasiti Arolygwyr na'r arfer i benderfynu ar yr apeliadau hyn drwy'r pandemig COVID-19 er mwyn ein helpu i ymdopi â'n llwyth achosion cyffredinol. Eto, bu modd i ni leihau ein hamser penderfynu wyth wythnos ar gyfer y 10% o achosion cyflymaf, ond parhaodd ein cysondeb cyffredinol i waethygu, gyda'r achosion yn y 10% arafaf yn cymryd 15 wythnos ychwanegol i'w penderfynu.

Graff 20. Amser penderfynu canolrifol ar gyfer achosion apeliadau gorchymyn diogelu coed, gwrychoedd a pherthi uchel



# Apeliadau yn Lloegr - Astudiaeth achos

## Mae llawer o'n hapeliadau yn ymwneud â chynlluniau bach neu ganolig. Mae'n llawn mor bwysig rhoi ystyriaeth ofalus i'r materion mewn cynlluniau bach ag ydyw mewn cynlluniau mwy. Yn anaml iawn y mae'r penderfyniad cywir yn eglur, ac mae angen i arolygwyr bwyso a mesur gwahanol faterion, pryderon a thensiynau rhwng amcanion gwahanol.

Y cynllun arfaethedig oedd addasu tafarndy nad yw'n cael ei ddefnyddio yn ddau gartref ychydig oddi ar yr A44 gerllaw pentref Whitbourne, Swydd Henffordd.

Roedd Cynllun Lleol Swydd Henffordd a Chynllun Cymdogaeth Whitbourne yn cefnogi cadw'r cyfleusterau hyn. Yn aml, mae tafarndai, yn enwedig mewn aneddiadau gwledig, wrth galon y gymuned, yn cynnig lle i gymdeithasu. Roedd y Cyngor Dosbarth (fel yr awdurdod cynllunio) yn pryderu bod tafarndai a gwasanaethau gwledig eraill yn dod dan fygythiad a'i bod yn hanfodol y gallai cyfleusterau barhau i wasanaethu eu cymunedau lleol. Cefnogwyd y Cyngor Dosbarth gan y Campaign for Real Ale. Er ei fod yn derbyn bod tafarndai yn cau weithiau, nid oedd y Cyngor Dosbarth yn fodlon na fyddai'r dafarn hon, efallai, yn ailagor gyda'r perchennog a'r busnes iawn



Ffynhonnell: Cyflwyniad Cyngor Swydd Henffordd.

Fodd bynnag, roedd Cyngor Plwyf Whitbourne yn cefnogi egwyddor y newid defnydd a thacluso'r safle. Roedd ailddefnyddio adeilad adfeiliedig presennol a gwella'i olwg yn gadarnhaol hefyd, yn ogystal â'r potensial i drigolion y cartrefi yn y dyfodol i gefnogi'r gymuned leol a'i chyfleusterau.

Ystyriodd yr Arolygydd yr holl dystiolaeth a ddarparwyd, ac ymwelodd â'r safle a'r ardal o amgylch. Cydnabu y byddai'r ddau gartref newydd yn gadarnhaol ac y byddai'n cyfrannu at y Cyngor yn cyflawni cyflenwad tir pum mlynedd ar gyfer cartrefi newydd. Fodd bynnag, gwrthodwyd yr apêl gan yr Arolygydd a gwrthododd ganiatâd cynllunio. Colli'r dafarn yn barhaol a'r cyfleuster cymunedol yr oedd yn ei ddarparu oedd un o'r prif ffactorau yn hyn, ac felly hefyd y tebygolrwydd y byddai'r bobl a oedd yn byw yn y cartrefi yn gorfod gyrru bron bob amser i gyrraedd cyfleusterau. Nid oedd yn eglur ychwaith a fyddai modd cynnal diogelwch y ffyrdd, na bod y gwaith angenrheidiol i ddiogelu ystlumod, sef rhywogaethau a warchodir gan y gyfraith, wedi'i wneud.

### Ffeithiau allweddol:
- Defnydd presennol: Tafarndy gwag
- Datblygiad arfaethedig: addasu yn ddau gartref

### Cynlluniau ar waith:
- Cynllun Lleol: Cynllun Lleol Swydd Henffordd Hydref 2015
- Cynllun Cymdogaeth: Cynllun Cymdogaeth Whitbourne Rhagfyr 2016

### Prif ystyriaethau:
- Polisïau lleol a chenedlaethol ar gyfer gwasanaethau lleol a chyfleusterau cymunedol
- Diogelwch ar y priffyrdd
- Rhywogaethau a warchodir

### Penderfyniad yr Arolygydd:
- Gwrthodwyd yr apêl

## Digwyddiadau Allweddol

**2018**

**Rhagfyr** – Cyflwyno'r cais

**2019**

**Awst** – Penderfynu ar y cais

**Rhagfyr** – Dechrau'r apêl

**2020**

**Ionawr** – Datganiad achos yr Awdurdod Cynllunio/ Sylwadau partïon â buddiant

**Chwefror** – Sylwadau Terfynol gan yr Apelydd a'r Awdurdod Cynllunio

**Mehefin** – Cyhoeddi'r penderfyniad apêl

# Ceisiadau

## Parhaodd y cynllunio ar gyfer ein seilwaith cenedlaethol hanfodol drwy'r pandemig COVID-19. Cynhaliwyd ein gwrandawiadau cyhoeddus yn rhithwir fel nad oedd y prosiectau hollbwysig hyn yn cael eu hoedi gan ein harchwiliadau.

### Ceisiadau Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr

Pandemig neu beidio, rydym i gyd yn disgwyl cael trydan, dŵr a nwy pan fydd eu hangen arnom, yn disgwyl teithio pan fydd angen i ni wneud, a disgwyliwn fwyd a nwyddau eraill i'n cartrefi a'n gwaith. Mae'r cynllunio ar gyfer y seilwaith sydd ei angen ar y wlad wedi parhau trwy gydol y pandemig COVID-19. Fe wnaeth ein rôl ni yn archwilio pa brosiectau ddylai fynd rhagddynt barhau hefyd, ond yn rhithwir, er mwyn symud pob prosiect y gallem yn eu blaen, er gwaetha'r pandemig COVID-19. Mae hyn yn arbennig o bwysig i brosiectau seilwaith, gan y gall oedi arwain at ansicrwydd i gymunedau, seilwaith heb fod yn barod pan fo ei angen, costau cynyddol i'r trethdalwr a rhai prosiectau yn mynd yn anhyfyw yn ariannol.

Buom yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid i gytuno ar fframiau amser newydd yn dilyn canslo gwrandawiadau ffisegol yn ystod cyfnod clo gwanwyn 2020. Fe wnaethom ad-drefnu gwrandawiadau er mwyn eu cynnal yn rhithwir, gan ein galluogi i gyflawni'n unol â'r fframiau amser diwygiedig a chyfyngu ar yr oedi i'n cwsmeriaid. Mae'r ansicrwydd a grëwyd gan y pandemig wedi effeithio ar ein hincwm. Bu'n cynyddu ers 2018, ond fe wnaeth ostwng o bron i hanner, i £4.7 miliwn, yn 2020/21.

### Tir Comin


Gall llawer o geisiadau ar gyfer gwaith ar Dir Comin fod yn fach, ond yn aml maent yn allweddol i ddarparu trydan neu nwy fel gwasanaethau hanfodol, er diogelwch y cyhoedd neu i gynghorau lleol i ddarparu llwybrau troed diogel neu gyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus.


Penderfynom ar 69 o'r ceisiadau hyn trwy gydol y pandemig COVID-19. Dros yr haf, fe wnaeth amseroedd cyfartalog gynyddu wrth wneud penderfyniadau ar achosion a gafodd eu hoedi, ond aeth ein graddfeydd amser yn ôl i'r arfer wedyn.

### Gorchmynion prynu gorfodol

Gall gorchmynion prynu gorfodol helpu cynlluniau pwysig fynd rhagddynt ond mae mynnu bod rhywun yn gwerthu eu tir yn gam arwyddocaol iawn. Yn aml yn ystod yr achosion hyn, mae arolygwyr yn gwrando tystiolaeth ar faterion sensitif a phwysig iawn. Ar ôl i ymchwiliadau rhithwir ddechrau, parhaom i benderfynu achosion pan oeddem yn gallu gwneud hynny heb greu anfantais i'r rheiny a oedd yn gysylltiedig. Penderfynom ar bum achos yn ystod y flwyddyn, ac mae gennym lawer mwy o achosion yn yr arfaeth.

Graff 21. Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol wedi'u derbyn a'u cyhoeddi yn 2020/21




Hawlfraint © Maproom.net.
Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi'i thrwyddedu o dan Y Drwydded Llywodraeth Agored f.3.0
Mae'n cynnwys data OS, Y Post Brenhinol ac Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron a'r Post Brenhinol a hawliau cronfa ddata 2020

# Parc Solar Cleve Hill - Astudiaeth achos

Gallai Parc Solar Cleve Hill gynhyrchu trydan i bweru dros 15,000 o gartrefi y flwyddyn, ond roedd pryderon gan bartïon â buddiant yn cynnwys ei niwed i'r dirwedd a'i effaith ar rywogaethau a warchodir. Fe wnaethom archwilio'r prosiect yn annibynnol, gwrando ar y dystiolaeth ac argymell y dylai fynd rhagddo.



Ffynhonnell: cyflwyniad Parc Solar Cleve Hill.

Mae'r safle rhyw 2 cilometr i'r gogledd ddwyrain o Faversham a 5 cilometr i'r gorllewin o Whitstable ar arfordir gogledd Caint. Fe'i defnyddir fel tir âr yn bennaf, a cheir rhywfaint o gors pori dŵr croyw. Hefyd, mae'r ardal yn cynnwys amddiffynfa bresennol rhag llifogydd arfordirol ac is-orsaf bresennol Cleve Hill.

Roedd y ffermdir âr yn gorstir yn flaenorol o fewn Aber Afon Tafwys, a chafodd ei ddraenio'n raddol o'r cyfnod canoloesol. Yn fras, cyflawnodd ei ffurf bresennol erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg er y parhaodd i esblygu i mewn i'r ugeinfed ganrif, fel y gwelir gan strwythurau amddiffynnol yr Ail Ryfel Byd. Yn fwyaf diweddar, effeithiwyd ar y dirwedd leol gan seilwaith yn gysylltiedig â llinellau a pheilonau foltedd uchel a fferm wynt alltraeth.

Mae gwerth cadwraeth natur i'r gors pori dŵr croyw, ac mae'n ffurfio rhan o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Swale, sydd hefyd yn Ardal Gwarchodaeth Arbennig a safle Ramsar. Mae llwybr troed hir Saxon Shore Way a saith o lwybrau troed cyhoeddus eraill yn rhedeg yn gyffiniol â'r safle neu ar draws y safle. Mae llawer o safle'r datblygiad arfaethedig o fewn Ardal o Werth Tirwedd Uchel sydd wedi'i dynodi'n lleol.

Cyflwynwyd y cais ym mis Tachwedd 2018 a fe'i derbyniwyd i'w archwilio yn Rhagfyr 2018. Roedd y cynnig yn cynnwys oddeutu 886,000 o baneli solar a storfa fatris gysylltiedig dros 491.2 hectar. Penodwyd yr Awdurdod Archwilio ym misoedd Mawrth a Mehefin 2019 gyda chyfanswm o dri arolygydd ar y panel. Rhwng Mai a Thachwedd 2019, fe wnaethant ystyried yr holl dystiolaeth. Cynhaliwyd chwe gwrandawiad ganddynt yn gyhoeddus i ystyried materion penodol, dau wrandawiad yn gyhoeddus ynglŷn â chaffael tir yn orfodol er mwyn galluogi'r prosiect i fynd rhagddo, a thri gwrandawiad arall llawr agored. Cafwyd dwy rownd o gwestiynau ysgrifenedig gan yr Awdurdod Archwilio i'r partïon, ac ystyriodd yr Awdurdod Archwilio 886 o sylwadau perthnasol

Yn Chwefror 2020, argymhellodd adroddiad yr Awdurdod Archwilio i'r Ysgrifennydd Gwladol fod y prosiect yn cael ei gymeradwyo. Daeth yr adroddiad i ystod o gasgliadau sy'n rhy hir i'w crynhoi yma, ond roedd yn cydnabod y cyfraniad pwysig y byddai'r ynni ffotofoltaig solar yn ei wneud at yr angen i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ychwanegol. Roedd hyn yn gyson â pholisi'r llywodraeth gan nodi angen am brosiectau ynni carbon isel ac adnewyddadwy o faint i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, i fodloni ymrwymiad cyfreithiol y wlad i gyrraedd allyriadau carbon "sero-net" erbyn 2050, ac i sicrhau cyflenwad ynni diogel, amrywiol a fforddiadwy.

Hefyd, nododd yr Awdurdod Archwilio effeithiau tirweddol niweidiol mawr ac arwyddocaol ar yr Ardal o Werth Tirwedd Uchel yng nghyffiniau uniongyrchol y datblygiad. Gyda mesurau lliniaru digonol wedi'u sicrhau drwy'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, ni chanfu'r Awdurdod Archwilio unrhyw reswm i atal y prosiect oherwydd ei effaith ar fioamrywiaeth a chadwraeth natur.

Cymeradwywyd y prosiect gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 28 Mai 2020.

Panel yn cynnwys 3 Arolygydd

886 o sylwadau perthnasol

Dwy rownd o gwestiynau ysgrifenedig

Dau wrandawiad caffael gorfodol
Chwech gwrandawiad materion penodol
Tri gwrandawiad llawr agored

| | |
|---|---|
| Tachwedd 2018 | Cyflwyno cais i'w Archwilio |
| Rhagfyr 2018 | Cais wedi'i dderbyn i'w Archwilio |
| Mawrth 2019 | Penodi Awdurdod Archwilio |
| Mai 2019 | Archwiliad yn Dechrau |
| Mehefin 2019 | Aelod panel ychwanegol wedi'i benodi |
| Tachwedd 2019 | Cau'r Archwiliad |
| Chwefror 2020 | Adroddiad argymhellion wedi'i anfon i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol |
| Mai 2020 | Penderfynu ar y cais: Cymeradwyo'r prosiect |

**50 megawat**
Gallai gynhyrchu ynni sy'n ddigon i bweru oddeutu 15,000 o gartrefi.


# Cynlluniau datblygu lleol yng Nghymru

## Mae cynlluniau datblygu lleol yng Nghymru yn dangos sut y bydd cymunedau penodol yn cael eu gweddnewid yn y blynyddoedd i ddod, yn dilyn y cyfarwyddyd strategol a bennwyd yn Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.



Arweiniodd y cyfyngiadau a roddwyd ar waith mewn ymateb i'r pandemig COVID-19 at oedi o ran cynnal y gwrandawiad ar gyfer archwiliad Cynllun Lleol Wrecsam wrth i ni newid o sesiynau personol i sesiynau rhithwir. Ochr yn ochr â'r archwiliad i gynllun Wrecsam, dechreuom yr archwiliad i gynllun lleol Sir y Fflint hefyd. Cynhaliwyd y rhain yn rhithwir yn y pen draw, a'r rhain oedd y digwyddiadau rhithwir cyntaf i ni fod yn rhan ohonynt. Cyflwynom ein hadroddiad ar gyfer cynllun Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gan fodloni ein dau Darged Gweinidogol wrth wneud hynny.

Graff 22. Cynlluniau datblygu lleol a dderbyniwyd ac a gyhoeddwyd




# Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghymru


## Mae niferoedd y ceisiadau a gyflwynir i'w harchwilio yn cynyddu.



Ffynhonnell: Gwefan y prosiect Mor Hafren BioPower

A r y dechrau, fe wnaeth pandemig COVID-19 arafu'r broses ymgynghori ac ymgysylltu â chymunedau a fynnir cyn cyflwyno cais Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, ac arweiniodd hyn at rywfaint o lithro o ran y cyflwyniadau disgwyliedig. Yn 2020/21, derbyniom bedwar cais Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol i'w harchwilio yn y flwyddyn. Cyflwynwyd dau adroddiad ac argymhellion i Weinidogion Cymru yn 2020/21 (STOR Felindre a Pharc Solar Gwynllŵg). Cyflwynwyd y ddau yn unol â'r targed gweinidogol. Fe wnaeth llythyr gan y Prif Swyddog Cynllunio ym mis Mai 2020 wneud newidiadau i weithdrefnau ymgynghori cyn-ymgeisio, gan ganiatáu i wybodaeth y mae'n ofynnol trefnu ei bod ar gael i'w harchwilio, ar wefan.

Graff 23. Ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a dderbyniwyd ac a gyhoeddwyd



# Apeliadau yng Nghymru

## Fe wnaeth cydweithio a gweithio fel tîm gadw gwaith achos i symud, a derbyniwyd y Gorchymyn Diwygio Harbwr Cyntaf i Arolygiaeth Gynllunio Cymru ymdrin ag ef.

### Apeliadau cynllunio a gorfodi


Cafodd pandemig COVID-19 effaith ddifrifol ar ein gallu i ddarparu gwasanaeth amserol dibynadwy i'r cwsmeriaid. Cafodd ymweliadau â safleoedd eu hatal a gohiriwyd digwyddiadau cyhoeddus. Byddai hyn wedi bod yn siomedig ac yn rhwystredig i'r holl bartïon a oedd yn gysylltiedig â'r broses apêl, gyda datblygiadau yn cael eu hoedi ac effaith ar yr economi. Roedd effaith lawn y pandemig COVID-19 ar ein perfformiad yn erbyn targedau gweinidogol i'w gweld yn dechrau o fis Mai 2020. Fe wnaeth hyn gyd-daro'n gadarnhaol gyda rhai cyfyngiadau'r cyfnod clo yn cael eu llacio, a gyda chyhoeddi llythyr gan Brif Swyddog Cynllunio Llywodraeth Cymru.

Roedd y llythyr yn caniatáu i Arolygwyr, a swyddogion cynllunio eraill, i gynnal ymweliadau â safleoedd. O'r pwynt hwn, roeddem yn gallu rhoi sicrwydd i'r rheiny a oedd yn gysylltiedig â'r broses o ran pa bryd y gallent ddisgwyl cael penderfyniad. Cafodd yr holl achosion eu brysbennu o fewn Arolygiaeth Gynllunio Cymru er mwyn asesu a fyddai modd cynnal ymweliadau â safleoedd gyda chwmni drwy angen mynediad yn unig, neu fel ymweliad heb gwmni. Er mwyn diogelu ein pobl ac aelodau'r cyhoedd, ni chynhaliom unrhyw ymweliad â safleoedd lle'r oedd angen cael mynediad i adeilad. Arweiniodd y gwaith cyfathrebu yr oedd ei angen gyda'r partïon i hwyluso hyn at faich trymach ar adnoddau.


Gweithiom gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol yr oedd lefelau mynediad amrywiol ganddynt i swyddfeydd a chyfarpar er mwyn gallu prosesu apeliadau. Fe wnaethom gytuno cynllun gwaith gyda phob un ohonynt gyda'r nod o gynnal digwyddiadau yn rhithwir ar ôl ni ddod o hyd i ateb ar gyfer cyfieithu ar y pryd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Gydag ateb ar waith, dechreuwyd cynnal digwyddiadau rhithwir o ddifrif yn Ionawr 2021. Mae'r penderfyniad cyntaf yn dilyn gwrandawiad a gynhaliwyd yn rhithwir wedi'i roi o fewn y targed.

Derbyniom fymryn yn llai o achosion newydd, ond cyhoeddom fwy o benderfyniadau na'r llynedd. Er mwyn sicrhau cadw gwaith achos i symud a sicrhau bod ein perfformiad yn parhau i wella, rydym wedi drafftio cynllun ymadfer sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd a'i ddiwygio lle bo'n briodol.


Graff 24. Apeliadau cynllunio wedi'u penderfynu drwy sylwadau ysgrifenedig - Deiliaid tai a masnachol bach





Graff 25. Apeliadau cynllunio eraill wedi'u penderfynu drwy sylwadau ysgrifenedig





Graff 26. Apeliadau cynllunio wedi'u penderfynu trwy wrandawiadau




Graff 27. Apeliadau cynllunio wedi'u penderfynu trwy ymchwiliadau




Graff 28. Apeliadau gorfodi wedi'u penderfynu trwy sylwadau ysgrifenedig




Graff 29. Apeliadau gorfodi wedi'u penderfynu trwy wrandawiadau ac ymchwiliadau




## Apeliadau arbenigol

Effeithiwyd yn sylweddol ar waith Hawliau Tramwy gan y pandemig COVID-19, er bod nifer yr achosion a dderbyniwyd yn llai nag mewn blynyddoedd blaenorol. Ymdrinnir â'r rhan fwyaf o achosion hawliau tramwy gan ddefnyddio ffeiliau papur felly roedd cynnydd yn araf pan ofynnwyd i bobl weithio o gartref.

Ni effeithiwyd gymaint ar apeliadau amgylcheddol â gwaith hawliau tramwy. Roedd nifer yr achosion Fforddfraint yr ymdriniwyd â nhw yn y flwyddyn gryn dipyn yn uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol.

Mae Gorchymyn Diwygio Harbwr wedi'i gyflwyno ac mae'n cael ei brosesu gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Hwn yw'r cyntaf o'i fath ar ôl datganoli pwerau i Weinidogion Cymru.

Nid yw Gweinidogion Cymru wedi gosod targedau Gweinidogol ar gyfer mathau arbenigol o waith achos, ond rydym yn monitro ein perfformiad yn erbyn targedau y gosodom i ni'n hunain er mwyn darparu rhyw lefel o sicrwydd o ran pa bryd y gellir disgwyl canlyniad.

# Menter Môn, Ardal Arddangos Morlais

## Cais o dan y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd yw digwyddiad rhithwir cyntaf Arolygiaeth Gynllunio Cymru: Menter Môn, Ardal Arddangos Morlais.

Mae Ardal Arddangos Morlais yn ardal o wely môr 35 cilomedr sgwâr ger Ynys Gybi, Ynys Môn. Mae'r prosiect yn cynnig darparu ardal ar gyfer gosodiad ac arddangosiad masnachol o nifer o ddyfeisiau ynni tonnau, ar gyfer uchafswm capasiti o 240 Megawat. Hefyd, mae'r prosiect yn cynnig cysylltu'r trawsnewidyddion ynni tonnau gydag is-orsafoedd cymunedol a llwybrau ceblau trydan ar y tir i allforio'r trydan a gynhyrchir i'r grid.

Gwnaed y cais gan Fenter Môn o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992. Yn Awst 2020, penderfynodd yr Arolygydd mai ymchwiliad fyddai'r weithdrefn orau i gasglu ac ystyried y dystiolaeth. Trefnwyd i'r ymchwiliad agor yn Rhagfyr 2020 fel y digwyddiad rhithwir cyntaf i'w gynnal yng Nghymru. Gyda diddordeb sylweddol yn y prosiect, a'r ymchwiliad ei hun felly, roedd yn mynd i fod yn dipyn o her i gynnal y digwyddiad hwn, ac at hynny, nid oeddem erioed wedi cynnal digwyddiad rhithwir!


Ar y pwynt hwn, roedd digwyddiadau rhithwir wedi'u cynnal yn Lloegr, ond mae Safonau'r Gymraeg yn mynnu bod yr holl gyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gan yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru yn cynnig cyfleusterau cyfieithu, pe bai rhywun yn dymuno siarad yn Gymraeg. Mae'r egwyddorion bod rhaid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ac y dylai pobl allu siarad yn eu dewis iaith, heb gael eu trin yn llai ffafriol, yn sail i'r safonau. Felly yr her oedd sicrhau y gallem gael ateb ar waith ar gyfer cyfieithu ar y pryd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ar ôl ymchwiliadau pellach rhwng y Swyddog Achos yn prosesu'r cais a'r datblygwyr yn gweithio ar y prosiect digwyddiadau rhithwir, dyluniwyd ateb gan ddefnyddio Microsoft Teams. Roedd yn syml, ond fe'n galluogodd ni i gynnig y cyfle i fynychwyr roi'u tystiolaeth yn Gymraeg os oeddent yn dewis gwneud hynny.

Roedd llyfrgell ddogfennau wedi'u sefydlu i reoli'r nifer fawr o ddogfennau a oedd yn gysylltiedig â'r ymchwiliad. Pan nad oedd hyn yn bosibl mwyach, roedd angen i'r Swyddog Achos ymchwilio i ffordd o ffurfio llyfrgell a'i gwneud yn hygyrch i'r holl gyfranogwyr mewn cyfnod amser eithriadol o fyr. Bodlonwyd yr her hon ac roedd y llyfrgell ddogfennau ar gael pan agorwyd yr ymchwiliad.

Fe wnaeth yr Arolygydd, gan gynnal ei ddigwyddiad rhithwir cyntaf, amserlennu'r ymchwiliad i ganiatáu ar gyfer egwyliau rheolaidd, ac amlinellodd yn glir beth oedd i'w drafod ym mhob sesiwn. Cynhaliwyd sesiwn min nos ar gyfer aelodau'r cyhoedd i leisio'u barnau. Cafodd y sesiynau eu recordio a threfnwyd eu bod ar gael ar ein sianel YouTube. Roedd hyn yn galluogi unrhyw un nad oeddent yn gallu bod yn bresennol mewn sesiwn benodol i weld y recordiad o'r sesiwn honno cyn y digwyddiad nesaf ar yr amserlen. Fe wnaeth recordio'r sesiynau helpu'r ymchwiliad i redeg yn hwylus, a galluogi mwy o fynediad i'r trafodion. Cyhoeddwyd y recordiadau ar ôl eu hadolygu i sicrhau bod data personol wedi'i ddiogelu.

Ymrwymiad a pharodrwydd staff yr Arolygiaeth Gynllunio, y Swyddog Achos a'r Arolygydd yn arbennig i edrych ar ffyrdd gwahanol o weithio, ac i gydweithio ag eraill, wnaeth ein galluogi i gyflawni'r ymchwiliad hwn.

Bu'r ymchwiliad yn eistedd am 20 diwrnod, gan gynnwys digwyddiad cyhoeddus min nos. Mynychwyd y sesiynau gan dros 50 o bobl i roi tystiolaeth. Daeth yr ymchwiliad i ben, ac mae'r Arolygydd yn ystyried ei argymhelliad nawr. Pan fydd wedi gorffen ysgrifennu ei adroddiad, bydd hwn, ynghyd â'i argymhelliad, yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru i wneud eu penderfyniad.




Ffynhonnell: Gwefan Menter Môn, Ardal Arddangos Morlais.

# Ein gwasanaeth cwsmeriaid

## Rydym yn rhyngweithio ag ystod amrywiol o gwsmeriaid ac wedi ymrwymo i sicrhau yr ymdrinnir â'n holl waith achos yn broffesiynol, gan ystyried cyflwyniadau gan bartïon amrywiol. Rydym yn helpu sicrhau bod ein safonau'n cael eu cynnal a bod adborth yn cael ei ddarparu pan fydd pethau'n mynd o'i le.

### Dros y flwyddyn ddiwethaf

Fel y soniwyd yn y Trosolwg o Berfformiad tudalen 3, am y tro cyntaf eleni fe wnaethom feincnodi ein gwasanaeth cwsmeriaid drwy'r Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid. Gwahoddom ystod eang o gwsmeriaid i roi adborth i ni a derbyniwyd 307 o ymatebion, sef cyfradd ymateb o ryw 10%. Gallwch ddarllen mwy am y fethodoleg, y canlyniadau a'r camau rydym yn eu cymryd yn ein datganiad.


Mae ymdrin â chwynion cwsmeriaid yn rhan allweddol o'n gwasanaeth cwsmeriaid. Ers 2018/2019, mae'r amser cyfartalog a gymerir i ymateb i gŵynion wedi cynyddu o 15 diwrnod i 28 diwrnod eleni. Mae nifer y cwynion wedi aros yn sefydlog yn ystod y cyfnod hwn. Canlyniad heriau o ran adnoddau yw'r arafu yn yr amser ymateb. Gwaethygwyd hyn eleni gydag effaith y pandemig, gyda phobl yn gadael y sefydliad a rhai eraill yn cael eu hail-gyfeirio i waith gweithredol yn y trydydd chwarter. Arweiniodd hyn at amseroedd ymateb yn arafu i 33 diwrnod. Wrth i recriwtiaid newydd gael eu hychwanegu at y tîm yn y pedwaredd chwarter, bu gwelliant yn ein hamser ymateb i 26 diwrnod.

Gall cwsmeriaid uwchraddio'u cwynion i'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd os na chafodd eu cwynion eu datrys gennym ni. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae nifer y cwynion a uwchraddiwyd wedi parhau'n gyson ac yn gymesur â nifer y cwynion a dderbynnir bob blwyddyn. Uwchraddiwyd 39 o gŵynion i'r Ombwdsmon eleni ac ni chadarnhawyd yr un o'r rheiny, adeg cyhoeddi hwn. Mae hyn yn dangos ein bod, er gwaetha'r ymatebion arafach, yn ymdrin â'n cwynion fel yr amlinellir yn ein gweithdrefn gwyno.


### Ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf

Byddwn yn adolygu strwythur, prosesau a systemau'r gwasanaeth cwsmeriaid i wella ein heffeithlonrwydd, hyblygrwydd ein hadnoddau a phrofiad cwsmeriaid. Rydym eisoes wedi nodi cyflenwr meddalwedd a ffefrir i gefnogi arferion gweithio mwy effeithlon, a dull mwy strwythuredig o nodi data cwynion. Byddwn yn defnyddio'r data hwn i nodi tueddiadau a themâu sy'n rhedeg drwy ein cwynion o safbwynt ein cwsmeriaid, gan gymryd camau lle bo'n briodol i leihau nifer y cwynion a dderbyniwn. Byddwn hefyd yn adolygu ein gweithdrefn gwyno i sicrhau ei bod yn parhau'n addas i'r diben, yn darparu canllawiau clir i gwsmeriaid ar y mathau o gŵynion y gallwn ymchwilio iddynt, a beth i'w ddisgwyl pan fyddwn wedi derbyn cwyn. Trwy gynnal adolygiadau a gwella ein systemau a'u prosesau, dylwn weld darlun gwell o ran ein hamseroedd ymateb, yn ogystal â meithrin dealltwriaeth well o pam mae ein cwsmeriaid yn cwyno a sut gallwn wella fel sefydliad.


Graff 30. Amseroedd ymateb cyfartalog i gŵynion dros bum mlynedd




Graff 31. Amseroedd ymateb cyfartalog i gŵynion yn 2020/21




Graff 32. Cwynion i'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd



# Perfformiad amgylcheddol a chynaliadwyedd

## Deall ein heffaith ar ddatblygu cynaliadwy fel sefydliad, ac o ganlyniad i'n penderfyniadau a'n hargymhellion.

### Effaith ein penderfyniadau a'n hargymhellion

Mae datblygu cynaliadwy wrth wraidd polisïau'r Llywodraeth sy'n pennu'r fframwaith ar gyfer y penderfyniadau a'r argymhellion y mae ein Harolygwyr yn eu gwneud.  Mae'r holl Arolygwyr yn ymwybodol o'u dyletswydd i sicrhau bod y system gynllunio'n cyfrannu at gyflawni datblygu o fewn ein fframwaith statudol. Nid ydym ni'n creu polisïau. Ond mae ein Harolygwyr yn sicrhau bod polisïau cenedlaethol a lleol yn cael eu gweithredu ar draws y system gynllunio yng Nghymru a Lloegr.  Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer archwiliadau cynlluniau lleol a cheisiadau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, sy'n mynnu ystyriaeth fanwl o feini prawf cynaliadwyedd, gan gynnwys effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol.

Rydym yn ystyried ffyrdd y gall yr Arolygiaeth adrodd yn fwy cywir ar effaith penderfyniadau ac argymhellion ar ddatblygu cynaliadwy a chyflawni nodau datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae pump ohonynt yn arbennig o berthnasol i'n rôl: #8 Twf economaidd, #9 Seilwaith, #11 Dinasoedd a chymunedau cynaliadwy, #12 Defnyddio a chynhyrchu cyfrifol a #16 Sefydliadau cryf. Mae'r gwaith hwn wedi'i oedi o ganlyniad i'r pandemig COVID-19, a byddwn yn mynd i'r afael ag ef eto fel rhan o Gynllun Busnes 2021/22.

### Effaith ein sefydliad

Mae ein model gweithredu, sef y ffordd yr ymgymerwn â'n gwaith, yn gadael ôl-troed ffisegol ac effaith amgylcheddol. Fel arfer mae ein pobl wedi'u rhannu rhwng gweithio mewn swyddfa a gweithio gartref. Yn y ddau achos, cawn effaith amgylcheddol trwy drafnidiaeth, gwresogi, goleuadau, gwastraff, dŵr ac ati. Mae Arolygwyr yn gweithio o gartref yn bennaf, ond mae eu rôl yn gofyn iddynt ymgymryd ag ymweliadau â'r holl safleoedd o amgylch y wlad. Mae hyn yn wir yn aml ar gyfer archwiliadau, ymchwiliadau a gwrandawiadau, i sicrhau eu bod yn llwyr ddeall effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol berthnasol y cynnig y maent yn ei ystyried. Rydym yn cynnal tua 20,000 o ymweliadau safle bob blwyddyn, ac mae bob un ohonynt yn cyfrannu at ein heffaith amgylcheddol. Mae'r tabl ar dudalen 66 yn dangos effaith teithio busnes swyddogol ar allyriadau, a leihaodd o draean eleni yn sgil mesurau'r cyfnodau clo a gyfyngodd ar ymweliadau safle, ac yn sgil troi at ddigwyddiadau rhithwir.

Felly ar hyn o bryd rydym yn mesur rhywfaint o'n heffaith, ond gellir gwneud llawer mwy. Bwriadwn gyflwyno mesurau newydd a gwell ac i ddyfnhau ein dealltwriaeth o'n hôl-troed amgylcheddol ehangach.


### Ein lle swyddfa

Cyn y pandemig COVID-19, roedd ein pobl wedi'u rhannu rhwng Arolygwyr sy'n gweithio gartref a thimau cymorth sy'n gweithio mewn swyddfeydd ym Mryste a Chaerdydd. Mae ein swyddfeydd ym Mryste a Chaerdydd wedi'u lleoli o fewn cyrraedd hawdd i gysylltiadau bws a rheilffordd da sy'n lleihau'r defnydd o drafnidiaeth breifat.  Mae ein Harolygwyr yn gweithio o'r swyddfeydd hyn o bryd i'w gilydd, gan ddefnyddio trefniadau lleoliad gwaith hyblyg.

O ganol mis Mawrth 2020 gofynnwyd i'n holl bobl weithio o gartref yn unol ag ymateb y Llywodraeth i'r pandemig. O ganlyniad, defnydd cyfyngedig eithriadol a wnaed o'n swyddfeydd drwy'r flwyddyn, dim ond pan nad oedd gweithio o gartref yn bosibl. Mae Tabl 1 yn dangos effaith amgylcheddol ein swyddfa ym Mryste ar rai metricsau penodol. Nid yw'n dangos effaith amgylcheddol ein swyddfa yng Nghymru, gan yr adroddir am hynny ar wahân gan Lywodraeth Cymru, ac nid yw'n dangos effaith amgylcheddol cyflogeion sy'n gweithio gartref ychwaith.
Er gwaethaf ein defnydd cyfyngedig o'r swyddfeydd, yn ein swyddfa ym Mryste gwelsom gynnydd yn y defnydd o nwy (19%), trydan (19%) a d□r (33%). Mae'r gwastraff a gynhyrchir yn y swyddfa hon wedi lleihau 40% ar gyfer gwastraff ailgylchadwy a 38% ar gyfer tirlenwi. Disgwyliwn fod gweithio o gartref wedi cynyddu gwastraff a'r defnydd o ynni, yn ogystal â newid ein heffeithlonrwydd o ran adnoddau, o gymharu â gweithio gartref, ond nid ydym wedi gallu meintioli'r effaith honno.

### Ymrwymiad gwyrddu'r Llywodraeth

A ninnau'n denant Temple Quay House, gwnaethom gyfrannu at dargedau Ymrwymiad Gwyrddu'r Llywodraeth o ran cynaliadwyedd, addasu i'r newid yn yr hinsawdd a phrawfesur gwledig. Rydym yn adrodd ar ein ffigurau ochr yn ochr â holl Adrannau'r Llywodraeth a chyrff hyd braich. Fel y cyfryw, nid ydym yn adrodd ar effeithiau y gellir eu rheoli nac effeithiau y dylanwadwyd arnynt. Nid yw'r Arolygiaeth yn comisiynu gwaith adeiladu newydd ychwaith.



Tabl 1. Effaith amgylcheddol o Temple Quay House a theithio busnes (rhan 1)

| | 2016/17 (34% meddiannaeth) | 2017/18 (34% meddiannaeth) | 2018/19 (34% meddiannaeth) | 2019/20 (22% meddiannaeth) (Ailddatganwyd) | 2020/21 (22% meddiannaeth) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr** | | | | | |
| *Dangosyddion anariannol* | | | | | |
| Allyriadau crynswth ar gyfer ystodau 1 a 2 (tCO2e) | 424.84 | 289.51 | 172.37 | 83.53 | 136.47 |
| Cyfanswm allyriadau net ar gyfer ystodau 1 a 2 (tCO2e) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Allyriadau crynswth ar gyfer ystod 3 teithio busnes swyddogol (kgCO2) | 503 | 467 | 459 | 453 | 302 |
| Allyriadau ystod 3 eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| *Defnydd ynni cysylltiedig (KW h)* | | | | | |
| Trydan: tariff gwyrdd | 712,507 | 623,087 | 383,382 | 288,147 | 355,033 |
| Nwy | 569,013 | 271,294 | 135,647 | 190,878 | 234,685 |
| Nwy petrolewm hylifedig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| *Dangosyddion ariannol (£'000)* | | | | | |
| Gwariant ar ynni | 103.6 | 82.55 | 136.93 | 59.52 | 53.54 |
| Gwariant trwydded ymrwymiad lleihau carbon | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Incwm ymrwymiad lleihau carbon o ailgylchu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwariant ar deithio busnes swyddogol | 865.4 | 846.3 | 887.6 | 1,026 | 408 |
| **Defnydd o adnodd y mae pen draw iddo - dŵr** | | | | | |
| *Dangosyddion anariannol (m3)* | | | | | |
| Defnyddio dŵr - a gyflenwir | 2,281 | 1,992 | 1,243.38 | 1,127 | 1,678 |
| Defnyddio dŵr - a dynnir | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| *Dangosyddion ariannol (£'000)* | | | | | |
| Costau cyflenwi dŵr | 7.0 | 6.63 | 4.22 | 4.9 | 5.55 |

Tabl 1. Effaith amgylcheddol o Temple Quay House a theithio busnes (rhan 2)

| | 2016/17 (34% meddiannaeth) | 2017/18 (34% meddiannaeth) | 2018/19 (34% meddiannaeth) | 2019/20 (22% meddiannaeth) (Ailddatganwyd) | 2020/21 (22% meddiannaeth) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwastraff** | | | | | |
| *Dangosyddion anariannol (t)* | | | | | |
| Cyfanswm y gwastraff | 15.55 | 29.76 | 42.74 | 61 | 36.44 |
| Gwastraff peryglus | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwastraff nad yw'n beryglus - tirlenwi | 2.33 | 2.80 | 1.41 | 0.8 | 0.5 |
| Gwastraff nad yw'n beryglus - ailddefnyddio neu ailgylchu | 13.21 | 13.52 | 34.05 | 60 | 36 |
| Gwastraff nad yw'n beryglus – llosgi neu ynni o wastraff | 0 | 13.44 | 7.28 | 0 | 0 |
| *Dangosyddion ariannol (£'000)* | | | | | |
| Cyfanswm cost gwaredu | 5.3 | 10.65 | 5.65 | 0.1 | 0.2 |
| Cost gwaredu gwastraff peryglus | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwastraff nad yw'n beryglus - tirlenwi | 0.3 | 0.34 | 0.66 | 0.035 | 0.21 |
| Gwastraff nad yw'n beryglus - ailddefnyddio neu ailgylchu | 5.0 | 1.60 | 1.18 | 0.063 | 0.051 |
| Gwastraff nad yw'n beryglus - llosgi neu ynni o wastraff | 0 | 8.72 | 3.80 | 0 | 0 |

Mae newid ym mherchnogaeth a rheolaeth y swyddfa rydym yn ei phrydlesi yn Temple Quay wedi arwain at newidiadau i'r ffordd y caiff gwybodaeth am yr adeilad ei chasglu a'i hadrodd. Hyd at 2018/19, roedd y data gwirioneddol yn cael ei adrodd yn yr un flwyddyn adrodd. Ond gan ddechrau yn 2019/20, dim ond y tri chwarter cyntaf yr adroddwyd amdanynt fel data gwirioneddol ac roedd data'r pedwaredd chwarter yn seiliedig ar amcangyfrifon.

Erbyn hyn gallwn adrodd y data gwirioneddol ar gyfer pedwaredd chwarter 2019/20, gan ddisodli'r amcangyfrifon, fel y dangosir yn y ffigurau a ailddatganwyd yn nhabl 1. Mae'r ffigurau ar gyfer 2020/21 yn seiliedig ar amcangyfrifon ar gyfer y pedwerydd chwarter, a byddant yn cael eu hailddatgan yn 2021/22, pan fydd y rhifau gwirioneddol yn hysbys.



Sarah Richards
Prif Weithredwr
29 Mehefin 2021

# Perfformiad ariannol


## Rydym yn rheoli ein cyllid yn effeithiol ac effeithlon i gefnogi cyflawni ein cynllun strategol. Caiff £52.1m o'n gwariant ei ariannu gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol gyda £12m o incwm ar Seilwaith Cenedlaethol, Cynlluniau Lleol a Gwaith achos arall.

Yn 2020/21 fe wnaethom wario £64.1m, £0.6m yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gostyngiad mewn costau yn bennaf yn sgil cyfyngiadau teithio'n gysylltiedig â COVID-19 yn cael effaith ar ein gwariant ar deithio a chynhaliaeth (i lawr o £2.3m yn 2019/20 i £0.7m yn 2020/21).


Mae ein costau'n gysylltiedig â staff, sef £50.2m yn 78% o'n cyfanswm costau, sy'n gynnydd o 2019/20 pan wnaethom wario £47.7m ar gostau pobl (74% o'r cyfanswm gwariant). Dros y blynyddoedd, rydym wedi gallu ystwytho rhai o'n costau yn unol â'r incwm a gynhyrchir o weithgareddau (gweler Nodyn 2 - Datganiad o Gostau Gweithredu yn ôl segment), fel ein Harolygwyr heb fod ar gyflog misol a staff dros dro. Eleni, parhaom i wario ar Arolygwyr heb fod ar gyflog misol er mwyn cadw gwaith achos i symud drwy'r pandemig.

Mae incwm wedi amrywio dros y pum mlynedd diwethaf o'r isaf ar £9.1m yn 2017/18 i fyny at £17.6m yn 2019/20. Y gyllideb wreiddiol ar gyfer incwm yn 2020/21 oedd £17m (gweler tabl 16, tudalen 103) ond cafodd hon ei gostwng i £12m. Ceisiadau Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol oedd ein maes incwm mwyaf, gyda £4.7m o waith wedi'i gwblhau yn y flwyddyn o gymharu â £8.5m yn 2019/20 (gweler graff 24, tudalen 51). Caiff gweddill ein costau eu hariannu gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.


Graff 33. Gwariant ac incwm dros y pum mlyned diwethaf




Graff 34. Gwariant yn 2020/21




Graff 35. Incwm yn 2020/21





# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 7(2) Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo'r Arolygiaeth Gynllunio i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratoir y cyfrifon ar sail gronnus ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Arolygiaeth, ei hincwm a'i gwariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r llifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i mi, fel y Swyddog Cyfrifyddu, gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn benodol:

- ufuddhau i'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw; a
- chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a chymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r barnau sydd eu hangen i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Penododd y Swyddog Cyfrifyddu Adrannol yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol y Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu'r Arolygiaeth Gynllunio. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau'r Arolygiaeth, wedi eu nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylswn fod wedi'u cymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod archwilwyr yr Arolygiaeth yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Cadarnhaf fod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn ei gyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymeraf gyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a chyfrifon, a'r barnau a fynnir ar gyfer pennu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Sarah Richards

Sarah Richards,
Chief Executive
29 June 2021

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

## Arweinir yr Arolygiaeth Gynllunio gan grŵp o Gyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol.



Trudi Elliott

Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Bwrdd Penodwyd ar 1 Ebrill 2018.

Mynychodd wyth cyfarfod Bwrdd, pump cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a saith o gyfarfodydd Panel.



Sally Dixon

Cyfarwyddwr Anweithredol a chadeirydd cylchdro'r Paneli Sicrwydd Strategol

Penodwyd ar 22 Gorffennaf 2019.

Mynychodd wyth cyfarfod Bwrdd, pump cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chwech o gyfarfodydd Panel.



Stephen Tetlow

Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd cylchdro'r Paneli Sicrwydd Strategol

Penodwyd ar 22 Gorffennaf 2019.

Mynychodd wyth cyfarfod Bwrdd, pump cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a saith o gyfarfodydd Panel.



Rebecca Driver

Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Penodwyd ar 31 Rhagfyr 2019.

Mynychodd wyth cyfarfod Bwrdd, pump cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a saith o gyfarfodydd Panel.



Sarah Richards

Prif Weithredwr

Penodwyd ar 7 Mawrth 2016.

Mynychodd wyth cyfarfod Bwrdd, pump cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chwech o gyfarfodydd Panel.



Navees Rahman

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Penodwyd ar 5 Rhagfyr 2016.

Mynychodd dau gyfarfod Bwrdd, dau gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a dau gyfarfod Panel.



Paul McGuinness

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro yn absenoldeb rhiant Penodwyd ar 16 Mawrth 2020.

Mynychodd bump cyfarfod Bwrdd, tri chyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a phedwar o gyfarfodydd Panel.



Graham Stallwood

Cyfarwyddwr Gweithrediadau Penodwyd ar 13 Mai 2019.

Mynychodd saith cyfarfod Bwrdd a phump o gyfarfodydd Panel.



Christine Thorby

Cyfarwyddwr Strategaeth Penodwyd ar 1 Ebrill 2019.


Mynychodd chwe chyfarfod Bwrdd a chwech o gyfarfodydd Panel.

Cyhoeddir ein cofrestr o fuddiannau ar wefan GOV.UK: https://www.gov.uk/government/publications/register-of-planning-inspectorate-board-member-interests

# Y datganiad llywodraethu

## Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn gorff hyd braich a noddir gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru. Ein trefniadau llywodraethu yw'r rheolaethau sydd gennym ar waith i gynnal ein dyletswydd gyhoeddus gydag uniondeb.

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021. Mae ein Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu dynodedig, Sarah Richards, yn gyfrifol am sicrhau effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu a'r rheolaethau sydd ar waith, gan gynnwys rheoli risg ac archwiliadau mewnol. Mae'n gyfrifol yn bersonol am ddefnydd y sefydliad o adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau ac i reoli'r sefydliad yn unol â'n Cytundeb Fframwaith, ac yn unol â rheolau ac arfer gorau y Gwasanaeth Sifil ar briodoldeb a gwerth am arian. Gall fod gofyniad iddi ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn perthynas â'i chyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae'n fodlon bod ganddi'r lefel angenrheidiol o sicrwydd drwy adolygiadau trwyadl o'r rheolaethau, yn enwedig rheolaeth risg a chanfyddiadau archwilio, mewn cyfarfodydd y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r paneli, a thrwy gymeradwyaethau ar newidiadau mewn cyfarfodydd y Tîm Gweithredol.





### Bwrdd yr Arolygiaeth Gynllunio

Rôl gynghorol sydd gan y Bwrdd. Ei nod yw darparu sicrwydd cyfunol i'n noddwyr ynglŷn â'n cynnydd o ran cyflawni ein strategaeth trwy ddarparu mewnwelediad, her a chymorth i'r Tîm Gweithredol.

Trudi Elliot yw Cadeirydd Anweithredol annibynnol y Bwrdd. Mae'r aelodau eraill yn cynnwys y Cyfarwyddwr Anweithredol eraill, yr holl Gyfarwyddwyr Gweithredol, y Prif Weithredwr, cynrychiolydd o'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, a chynrychiolydd o Lywodraeth Cymru.

Cyfarfu'r Bwrdd yn rhithwir wyth gwaith yn 2020/21, a chynhaliwyd cyfarfod ychwanegol ym mis Awst i oruchwylio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019/20 ar ôl iddo gael ei oedi gan bandemig COVID-19. Dangosir presenoldeb yn Adroddiad y Cyfarwyddwr ar dudalennau 72-73.

Mae pob cyfarfod yn cynnwys diweddariadau gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a chan Lywodraeth Cymru. Roedd rhyw draean o'r trafodaethau'n ymwneud â pherfformiad gweithredol a phrosiectau newid. Treuliodd y bwrdd ryw chwarter o'u hamser yn herio ein cynllun busnes ac adroddiad blynyddol, ac roedd ffocws yr amser a oedd yn weddill ar feddwl strategol. Roedd papurau o safon a chyflwyniadau â gwybodaeth berthnasol yn cefnogi'r rhan fwyaf o drafodaethau.




Dros y flwyddyn, fe wnaeth y Bwrdd hefyd adolygu a chynnig sylwadau'n benodol ar:


- ein hymagwedd at sicrhau diogelwch a lles ein pobl a chadw gwaith achos i symud drwy'r pandemig;
- ein risg strategol newydd ar iechyd a diogelwch, ein polisi iechyd, diogelwch a lles a'r cynllun gweithredu cysylltiedig;
- ein Cynllun Strategol 2020/2024, Cynllun Busnes 2021/22 a'r dangosfwrdd strategol sy'n ein galluogi ni i fonitro cynnydd ac effeithiolrwydd;
- ein sefyllfa ariannol, gan gynnwys ein hymateb i adolygiad o wariant y llywodraeth;
- llywodraethu data, gyda ffocws ar ddiogelu data a rheoli gwybodaeth;
- newidiadau arfaethedig i'n gwaith rheoli'r portffolio newid;
- cynigion i ddiwygio Cynllunio ar gyfer y dyfodol; ac
- ein cynnydd gyda'r Prosiect Cyflymder.

Fe wnaeth Stephen Tetlow, aelod Anweithredol o'r Bwrdd, gynnal adolygiad annibynnol o'r rhaglen gweddnewid. Daeth i'r casgliad fod arweinyddiaeth y rhaglen wedi gwella ar ôl newid ffocws ar gyflenwi gwasanaethau o'r dechrau i'r diwedd. Gwelodd berthnasoedd cadarnhaol gyda'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Digidol y Llywodraeth wrth i ni weithio gyda'n gilydd ar y rhaglen hon. Hefyd, nododd fod angen gwneud cynnydd i ymgorffori'r dyluniad sefydliadol diweddaraf, sefydlu dangosyddion perfformiad allweddol ac olrhain buddion.

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn is-bwyllgor cynghori i'r Bwrdd. Caiff ei gadeirio gan Rebecca Driver. Y ddau aelod arall yw Sally Dixon a Stephen Tetlow ond mynychir y cyfarfodydd gan ystod eang o aelodau gweithredol ac arbenigwyr hefyd. Ei nod yw cefnogi'r Bwrdd trwy ddarparu mewnwelediad, her a chymorth yn benodol ar reoli risg, archwilio, rheolaethau busnes a llywodraethu. Mae'r pwyllgor hefyd yn adolygu uniondeb yr adroddiad blynyddol a chyfrifon.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg bum gwaith eleni. Dangosir presenoldeb yn Adroddiad y Cyfarwyddwr ar dudalennau 72-73. Treuliwyd amser yn adolygu rheolaethau mewnol, adroddiadau ariannol a blynyddol, rheoli risg, archwiliadau mewnol ac allanol, gan gynnwys gweithredoedd rheoli. Roedd cyfarfodydd yn cynnwys adolygu dangosfwrdd a oedd yn dangos data allweddol ar drefniadau llywodraethu, digwyddiadau diogelu data, taliadau cydnabyddiaeth, ein proffil risg strategol a gwybodaeth sicrwydd allweddol arall.




Dros y flwyddyn, fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gynghori ar:


- gynhyrchu Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon 2019/20 a 2020/21;
- ein fframwaith rheoli risg yn ogystal â'r parodrwydd i dderbyn risg;
- dylunio a chyflwyno cynlluniau archwilio mewnol ac allanol;
- ein trefniadau llywodraethu data;
- ein polisi chwythu'r chwiban diwygiedig;
- ein hymagwedd at wrth-dwyll;
- y fframwaith adrodd ar gyfer ein Cynllun Busnes 2021-22; ac
- ein mesurau datblygol ar werth am arian a chynhyrchiant.

Yn dilyn archwiliad mewnol ar iechyd a diogelwch, argymhellodd y Pwyllgor fod y Tîm Gweithredol yn adolygu ei broffil risg strategol. Penderfynont ddynodi risg strategol benodol ar iechyd, diogelwch a lles, gweler risg S16 ar dudalen 25.

## Paneli Sicrwydd Strategol

Mae'r Paneli Sicrwydd Strategol yn baneli cynghori sy'n mynd at wraidd materion sydd yn ategu'r Bwrdd. Cânt eu cadeirio gan Gyfarwyddwr Anweithredol. Y mynychwyr eraill yw'r Cyfarwyddwyr Anweithredol eraill, aelodau o'r Tîm Gweithredol ac arbenigwyr â gwybodaeth berthnasol. Nod y paneli yw cynnig sicrwydd o ran ein cyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau strategol. Maent yn cynnig cyfleoedd i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol gael sicrwydd trwy glywed yn uniongyrchol gan ystod ehangach o uwch arweinwyr.

Cynhaliwyd wyth o gyfarfodydd y Paneli Sicrwydd Strategol eleni. Dangosir presenoldeb yn Adroddiad y Cyfarwyddwr ar dudalennau 72-73. Ni roddwyd ffocws cyfartal ar draws y blaenoriaethau. Mae hyn yn rhannol oherwydd y tarfu yn sgil y pandemig, ond hefyd oherwydd, wrth amcanu at ymdrin â'r holl flaenoriaethau dros y flwyddyn, caiff testunau eu blaenoriaethu yn seiliedig ar risgiau a gwerth.




Fe wnaeth y paneli adolygu a chynnig sylwadau ar:

- ein hymagwedd at arloesi;
- ein gwasanaeth cwsmeriaid yn y cyfnod pan ddechreuodd pandemig Covid-19 gael effaith;
- datblygu ein methodoleg rhagamcanu;
- ein risgiau strategol a'n parodrwydd i dderbyn risg;
- datblygu Cynllun Busnes 2021/22;
- rheoli newid sefydliadol;
- ein hymagwedd at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; a
- chanlyniadau Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil.

Cynigiodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol fewnwelediadau yn ystod cyfarfodydd y Paneli mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys cynghori ar ddatblygu ein strategaeth arloesi, argymell ein bod yn datblygu datganiadau syml i egluro ein parodrwydd i dderbyn risg a thrwy herio'r ffordd y gwnaethom flaenoriaethu gweithgareddau fel rhan o'n gwaith i ddatblygu Cynllun Busnes 2021/22.

## Cyfarfodydd y Swyddog Cyfrifyddu

Caiff cyfarfodydd y Swyddog Cyfrifyddu eu galw gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, Tai a Chynllunio, sy'n eu cadeirio. Mae'r cyfarfodydd hynny'n dwyn y Swyddog Cyfrifyddu, Sarah Richards, i gyfrif am berfformiad gweithredol ac ariannol a chydymffurfiaeth â'r Cytundeb Fframwaith sy'n ffurfioli'r berthynas rhwng yr Arolygiaeth a'i noddwyr.

## Y tîm gweithredol

Mae'r Tîm Gweithredol yn cynnwys ein Prif Weithredwr a'n Cyfarwyddwyr ar gyfer Gweithrediadau, Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol. Y grŵp hwn sy'n pennu ac yn cyflawni ein strategaeth. Fe wnaethant gyfarfod bob pythefnos i fonitro ein perfformiad ariannol ac anariannol, lliniaru risgiau a materion strategol, rheoli ein perthnasoedd gyda'n prif randdeiliaid a rhoi cyfarwyddyd i'r Arolygiaeth. Fe wnaeth y cyfarfodydd arbenigol canlynol gefnogi proses benderfynu'r Tîm Gweithredol:

- Bwrdd y Portffolio Newid;
- Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles;
- Grŵp Llywio Proffesiynol;
- Fforwm Rheoli Diogelwch Gwybodaeth;
- Grŵp Prosiect Covid-19;
- Cyfarfodydd llywodraethu'r cyfarwyddiaethau; a'r
- Uwch Grŵp Arwain (fforwm rhannu gwybodaeth).

## Bwrdd Prosiect COVID-19

Grŵp dros dro oedd Bwrdd Prosiect COVID-19 a sefydlwyd pan ddechreuodd y pandemig, ac mae'n adrodd i'r Tîm Gweithredol i sicrhau proses benderfynu gyflym a chlir. Fe wnaeth mynychder cyfarfod y grŵp amrywio drwy'r flwyddyn mewn ymateb i'n hanghenion newidiol.

Nod Bwrdd Prosiect COVID-19 oedd cydlynu gweithgareddau ymateb penodol i effaith y pandemig ac i fesurau'r cyfnod clo. Cynhaliwyd arolygon rheolaidd i asesu sut yr oedd ein pobl yn gweld eu lles corfforol a'u lles meddwl, i nodi oriau gweithio a gollwyd a'r modd y gallai'r uwch reolwyr gynnig cymorth orau. Gan ddilyn arfer gorau, dilynodd ymateb pedwar cam: cychwynnol, tymor byr, tymor canolig a thymor hir. Gwariwyd £148,160 o £150,000 a ddyrannwyd ar gostau rheoli'r prosiect ac i ariannu'r ymateb, gan gynnwys galluogi gweithio o gartref a chostau lles ychwanegol. Roedd y trafodaethau a'r argymhellion yn cwmpasu ystod eang o bynciau:

- Mesurau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles ein pobl (gweler tudalen 25 a thudalen 88).
- Ymdrechion i gadw gwaith achos i symud (gweler tudalen 36).
- Cymorth i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (gweler tudalen 36).
- Cynlluniau parhad busnes (gweler tudalen 87).
- Rheolaethau sy'n ofynnol i sicrhau diogelwch gwybodaeth a diogelu data (gweler tudalen 23 a thudalennau 83-84).
- Cyfathrebu gyda'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid (gweler tudalennau 12-13).
- Cynorthwyo ein pobl (gweler tudalennau 28-29 a thudalen 89).
- Gwybodaeth reoli i lywio penderfyniadau (gweler tudalen 85).

## Gweithgor gadael yr Undeb Ewropeaidd

Am y tair blynedd diwethaf, rydym wedi rheoli risg Gadael yr Undeb Ewropeaidd i'n pobl a'n gweithrediadau trwy weithgor. Cadeirydd y grŵp oedd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, ac roedd yr aelodaeth yn cynnwys uwch arweinwyr gweithredol a chorfforaethol.

Nododd y grŵp y rhan fwyaf o risgiau yn ystod 2018/19 a 2019/20, a'u lliniaru i lefel dderbyniol. Roedd y risgiau hyn yn ymwneud â pharhad gweithrediadau, cyflenwi nwyddau a gwasanaethau, hygyrchedd data ac ymdrin â data, a newidiadau i bolisi'r llywodraeth. Mae rhai yn risgiau sy'n parhau mewn perthynas â'r modd y byddwn yn addasu i newidiadau i bolisi'r llywodraeth yn y dyfodol, ac i'r darpariaethau yn y dyfodol rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer mynediad at ddata ac ymdrin â data. Ni wnaeth y Grŵp gyfarfod yn ffurfiol yn 2020/21, a bu'n ymdrin â'r holl fusnes trwy ohebiaeth neu ddirprwyo i fforymau eraill, fel y Fforwm Diogelwch Rheoli Gwybodaeth ar faterion yn ymwneud â llywodraethu data.

Cafodd cyfwerth â phedwar arolygydd amser llawn eu secondio i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol am lawer o'r flwyddyn i gynorthwyo â pharodrwydd seilwaith ffiniau, ac fe wnaeth ein harbenigwyr amgylcheddol gefnogi hyn ar gyfnodau allweddol yn y broses.

## Adolygiad o effeithiolrwydd

Cynhaliom adolygiad effeithiolrwydd mewnol o'r Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Paneli Sicrwydd Strategol yn yr hydref, a thrafodom y canlyniadau yng nghyfarfod o'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2020. Hefyd, cynhaliom adolygiad effeithiolrwydd mewnol ar wahân o gyfarfodydd y Tîm Gweithredol ar yr un pryd, a thrafodwyd hwnnw gyda'r Tîm Gweithredol yn Ionawr 2021. Bydd adolygiad allanol ar y strwythur llywodraethu corfforaethol yn ei gyfanrwydd yn cael ei gynnal yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22.

Canfu'r adolygiad mewnol fod y cyfarfodydd yn gynhwysol, gyda barnau a heriau yn cael eu hannog. Canfuont hefyd fod y rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn bresennol yn meddu ar lefel sgiliau a gwybodaeth briodol. Ystyriwyd bod y Paneli Sicrwydd Strategol yn ychwanegu gwerth ac yn darparu cyfleoedd mewnwelediad. Fodd bynnag, mae angen mwy o eglurder mewn perthynas â lefelau awdurdod ar gyfer gwneud penderfyniadau a llwybrau uwchraddio ar draws y perthnasoedd, a llinellau adrodd o fewn y strwythur llywodraethu corfforaethol.

Mae sicrhau bod ein llywodraethu yn effeithiol a bod ein cyfarfodydd llywodraethu corfforaethol yn ymatebol, yn gynhwysol ac yn gyfranogol gyda llwybrau uwchraddio priodol yn eu lle yn gwneud cyfraniad at Nod Cynaliadwyedd y Cenhedloedd Unedig, sef 'Heddwch, Cyfiawnder a Sefydliadau Cryf' (targedau 16.6 ac 16.7).

## Effaith creu Arolygiaeth Cymru ar ein trefniadau llywodraethu

Rydym yn darparu cymorth ymarferol i Lywodraeth Cymru ar gyfer creu Arolygiaeth Gynllunio newydd Cymru. Mae'r ffocws ar drosglwyddo cyflogeion a data yn ogystal â gwneud y newidiadau angenrheidiol i systemau a phrosesau fel bod y newid yn digwydd mor ddi-dor ag y bo modd i gwsmeriaid. O 1 Hydref 2021, y bwriad yw i Arolygiaeth Gynllunio Lloegr roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau ar ran Llywodraeth Cymru ac ni fydd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru mwyach ar gyfer y gwasanaethau hyn a'r gorbenion cysylltiedig. Mae'r Ddogfen Fframwaith sy'n adlewyrchu'r berthynas rhwng yr Arolygiaeth a chyrff llywodraethol ar hyn o bryd yn cael ei hadolygu a'i diwygio, i adlewyrchu'r newidiadau.

### Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol

Fe wnaethom asesu cydymffurfiaeth ein trefniadau llywodraethu â Chod Ymarfer Da ar gyfer Adrannau'r Llywodraeth Ganolog Trysorlys Ei Mawrhydi. Penderfynom eu bod yn cydymffurfio, gydag ychydig o eithriadau sy'n cael eu hesbonio isod.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol wedi'i ysgrifennu gyda'r rhagdybiaeth bod rôl gwneud penderfyniadau gan y Bwrdd, ond rôl gynghori sydd gan ein Bwrdd. Felly, mae rhai o'r cyfrifoldebau y mae'r Cod yn eu neilltuo i'r Bwrdd yn cael eu cyflawni gan ein Tîm Gweithredol. Yn ogystal, nid yw Cadeirydd ein Bwrdd yn Weinidog ond yn hytrach ein Cyfarwyddwr Anweithredol arweiniol ydyw, sy'n adrodd i Gyfarwyddwr Cynllunio'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Yn groes i'r Cod, nid oes gennym bwyllgor enwebiadau ar gyfer penodiadau. Mae Cadeirydd y Bwrdd yn gysylltiedig â'r broses recriwtio ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol, gan gyflawni rôl y pwyllgor i bob pwrpas. Mae hwn yn drefniant cymesur o ystyried maint ein sefydliad a'n Tîm Gweithredol.

Mae'r Cod yn datgan y bydd adolygiadau effeithiolrwydd yn cael eu harwain gan aelod o'r Bwrdd Anweithredol ac y dylai o dro i dro asesu cymysgedd sgiliau a phrofiad aelodau bwrdd i sicrhau ei fod yn ddigonol a pherthnasol. Cynhaliodd ein Cyfarwyddwr Anweithredol arweiniol arfarniadau o'r Cyfarwyddwyr Anweithredol, gan gynnwys gwerthusiad o gymysgedd sgiliau a phrofiad. Nododd y Cyfarwyddwr Anweithredol arweiniol bod angen mwy o brofiad ariannol i ddarparu craffu digonol yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Yn 2021-22, byddwn yn cyfethol Cyfarwyddwr Anweithredol ychwanegol i gynyddu'r sgiliau a phrofiad yn y Pwyllgor hwn.

Golygodd effaith pandemig COVID-19 na chafodd adolygiad effeithiolrwydd allanol ei gynnal o fewn y cyfnod tair blynedd argymelledig, ac roedd hynny hefyd yn torri ein Dogfen Fframwaith. Rydym wedi trafod hyn gyda'n Noddwyr ac maent yn dawel eu meddwl y byddwn ni'n mynd i'r afael â hyn yn y flwyddyn ariannol nesaf. Yn y cyfamser, cynhaliom adolygiad effeithiolrwydd mewnol blynyddol o'n llywodraethu corfforaethol (gweler tudalen 79). Bydd cwmpas adolygiadau effeithiolrwydd allanol sydd i ddod yn cael ei rannu gyda'r Cyfarwyddwr Anweithredol arweiniol a fyddai'n cymeradwyo hyn ar y cyd â'r Prif Weithredwr.

# Rheolaethau allweddol

Fel rhan o'n trefniadau llywodraethu mae gennym reolaethau penodol ar waith ar draws yr Arolygiaeth i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol yn ogystal â gweithredu arfer gorau.

## Rheoli risg

Mae ein prosesau rheoli risg yn gyson â'r Llyfr Oren: Rheoli Risg - Egwyddorion a Chysyniadau. Mae'r Tîm Gweithredol yn gyfrifol am bennu ein parodrwydd i dderbyn risg, ac adolygir hynny gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Y Tîm Gweithredol sy'n berchen ar y risgiau strategol y nodir eu manylion ar dudalennau 18-26.

Mae 2 o 12 o risgiau strategol ar y gyfradd darged ar gyfer rheoli

### Newidiadau a wnaed yn 2020/21

- Cynhwyswyd 'byddwn yn grymuso ein pobl i godi materion ac ystyried risgiau' fel amcan yng Nghynllun Strategol 2020/24 Strategic Plan.
- Mabwysiadwyd system rheoli risg haenog gyda chofrestr strategol, cofrestri cyfarwyddiaethau a chofrestri gweithredol.
- Cyflwynwyd rhwydwaith o hyrwyddwyr risg sy'n goruchwylio pob cofrestr ac yn sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.
- Cynhyrchwyd datganiadau parodrwydd i dderbyn risg i gynyddu dealltwriaeth o'n parodrwydd i dderbyn risg.
- Cynhyrchwyd cyfathrebiadau mewnol i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o reoli risg, gan annog staff i godi risgiau a meithrin diwylliant rheoli risg a ddymunir.
- Sefydlwyd grŵp ffocws i restru risgiau newydd a chynyddu ymwybyddiaeth drwy'r Arolygiaeth.

### Cynlluniau ar gyfer 2021/22

- Amlygu a rheoli risgiau'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, rheoli gwybodaeth, parhad busnes a gwrth-dwyll yn systematig.
- Trosglwyddo risgiau prosiectau yn systematig i gofrestri risg busnes fel rhan safonol o'r broses cau prosiect.

## Archwiliadau Mewnol

Barn flynyddol gyffredinol cymedrol ar gyfer y flwyddyn

Rydym yn cysylltu ag Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth i roi cynllun archwilio seiliedig ar risg at ei gilydd ar gyfer y flwyddyn. Caiff y cynllun ei gymeradwyo gan y Swyddog Cyfrifyddu yn dilyn cyngor gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Yr archwiliadau yw'r sylfeini ar gyfer y farn sicrwydd gyffredinol flynyddol.

Caiff yr archwiliadau a'r camau gweithredu rheoli y bwriedir iddynt gryfhau rheolaethau o fewn y maes a archwiliwyd, eu hadolygu a'u holrhain gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

### Newidiadau a wnaed yn 2020/21

- Cynhaliwyd bob un o'r chwech archwiliad o bell mewn ymateb i bandemig COVID-19. Roedd dwy lefel sicrwydd ar wahân gan un archwiliad.
- Rheolaethau yn darparu sicrwydd cymedrol:
  - rheolaeth risg;
  - contractwr IR35;
  - cynllunio'r gweithlu;
  - amgylchedd rheoli asedau gwybodaeth;
  - parhad busnes; a
  - rheolaethau ariannol ar y gyflogres;
- Rheolaethau yn darparu sicrwydd sylweddol:
  - Datganiad llywodraethu.
- Cododd yr archwiliadau mewnol hynny 20 o weithredoedd rheoli:
  - dim camau gweithredu blaenoriaeth uchel;
  - 13 o gamau gweithredu blaenoriaeth ganolig; a
  - 7 o gamau gweithredu blaenoriaeth isel.
- Mae'r farn archwilio gyffredinol ar gyfer y flwyddyn yn gymedrol, gan gydnabod bod angen gwneud rhai gwelliannau i wella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.

### Cynlluniau ar gyfer 2021/22

- Cynnal archwiliadau mewnol o'r rheolaethau canlynol:
  - cynaliadwyedd;
  - adolygiad effeithiolrwydd o lywodraethu corfforaethol;
  - ansawdd data;
  - dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus;
  - y gyflogres;
  - y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data;
  - cynllunio adnoddau a'r gweithlu; a
  - rheoli buddion.

## Rheolaethau cyfreithiol

Derbyniwyd 130 o heriau cyfreithiol (<1% o'r penderfyniadau ac argymhellion)

Cafodd 67% o heriau yn yr Uchel Lys eu hamddiffyn yn llwyddiannus

Mae penderfyniadau gan Arolygwyr yn dod o dan Indemniad y Goron. Mae hyn yn golygu bod yr Arolygiaeth yn atebol am benderfyniadau a wneir, nid yr Arolygwyr unigol a'u gwnaeth. Mae ein prosesau sicrhau ansawdd yn cynnal prawf ar gyfreithlondeb penderfyniadau achos dadleuol neu gymhleth cyn bod unrhyw benderfyniad terfynol yn cael ei wneud. Ymhellach na'n rheolaethau mewnol, mae Adran Gyfreithiol y Llywodraeth yn ein cynghori a'n cynorthwyo ar faterion gwaith achos ac mewn ymateb i heriau cyfreithiol. Gall heriau llwyddiannus fod yn ganlyniad gwall dynol, ond gall ddigwydd hefyd pan fydd Arolygydd a barnwr wedi dehongli'r gyfraith yn wahanol. Rydym ni'n ymateb i'r rhain naill ai drwy hyfforddiant a/neu ddiwygio canllawiau ar ddehongli cyfraith achosion.

Mae ein polisi ex gratia ar waith i roi iawndal i gwsmeriaid pan fyddwn ni'n cydnabod ein bod wedi gwneud camgymeriad, cyn dyfarniad llys. Caiff dyfarniadau eu hadolygu a'u hawdurdodi drwy wiriadau annibynnol ac ariannol.

### Newidiadau a wnaed yn 2020/21

- Diweddarwyd canllawiau Arolygwyr yn unol â dyfarniadau.
- Wedi gwella rhagamcanu taliadau ex gratia.

### Cynlluniau ar gyfer 2021/22

- Adolygu'r polisi taliadau ex gratia.
- Addasu ein hymagwedd yn unol â risgiau ychwanegol o heriau yn dilyn newidiadau o Cynllunio ar gyfer y Dyfodol.

## Diogelwch gwybodaeth

Dim digwyddiad difrifol

Mae gennym reolaethau ar waith i gadw data ein cwsmeriaid yn ogystal â'n gwybodaeth hanfodol i fusnes yn ddiogel. Fel rhan o'n rhaglen barhaus gwella diogelwch, rydym wedi'n hardystio i Cyber Essentials Plus. Asesiad technegol annibynnol yw hwn o lefelau gwarchodaeth seiber ein nodiaduron digidol, dyfeisiau ffonau symudol, gweinyddion a rhwydweithiau. Mae gennym dri maes blaenoriaeth uchel ar hyn o bryd: bygythiad ymosodiadau seiber, awtomeiddio patsys diogelwch a defnyddio caledwedd a meddalwedd heb gymeradwyaeth ymlaen llaw.

### Newidiadau a wnaed yn 2020/21

- Adolygwyd defnydd derbyniol o'r rhyngrwyd a pholisïau diogelwch.
- Gweithredwyd rheolau llymach ar Microsoft Office 365 i atal colli data ac i ddiogelu yn erbyn bygythiadau uwch.
- Ataliwyd digwyddiadau drwy wneud gwaith monitro amddiffynnol ar Microsoft Office 365.
- Gweithredwyd sganio rheolaidd ac awtomatig ar systemau allanol.
- Cynhaliwyd efelychiad gwe-rwydo a diweddarwyd canllawiau hyfforddi i ddefnyddwyr.

### Cynlluniau ar gyfer 2021/22

- Adolygu gweithrediadau diogelwch Microsoft Office 365 i reoli cymeradwyo ceisiadau.
- Cynhyrchu a chyflwyno pecyn hyfforddi wedi'i deilwra.
- Canoli'r gofyniad monitro diogelwch.
- Archwilio cyflenwyr gwasanaethau digidol trydydd parti.

## Diogelu Data

Adroddwyd am 3 achos o dor diogelwch data i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Derbyniom farn archwilio mewnol o sicrwydd 'cyfyngedig' yn flaenorol yn ymwneud â'n llywodraethu ar ddata, ac arweiniodd hyn i ni nodi llywodraethu data fel risg strategol.

Fel rhan o'n llywodraethu corfforaethol, mae'r Fforwm Rheoli Diogelwch Gwybodaeth yn goruchwylio ein llywodraethu ar ddata, mae gweithgor ar wahân yn darparu arbenigedd tra bod perchnogion gwybodaeth ac arbenigwyr gwybodaeth yn cefnogi gweithredu.

Rydym yn disgwyl i nifer yr achosion o dor diogelwch data yr adroddir amdanynt i gynyddu yn y lle cyntaf o ganlyniad i fwy o ymwybyddiaeth ymhlith staff, cyn disgyn yn y tymor hir drwy gydymffurfio'n gynyddol â rheolaethau.

### Newidiadau a wnaed yn 2020/21 a Chynlluniau ar gyfer 2021/22

Gweler mesurau lliniaru ar gyfer risg S11 tudalen 23.

## Rheoli cwynion

Derbyniwyd 1,074 o gŵynion

Gall cwsmeriaid godi cwynion oherwydd camgymeriadau gweinyddol, camgymeriadau ffeithiol, methiant yn ein safonau gwasanaeth, ymddygiad gwael a phan fydd ein cwsmeriaid yn teimlo nad ydym wedi dilyn polisi neu ganllawiau cynllunio, deddfwriaeth berthnasol a'n canllawiau gweithdrefnol. Rydym yn cynnal ymchwiliad cadarn i bob cwyn ac yn darparu adborth i'r maes perthnasol yn y sefydliad lle caiff cwynion eu cadarnhau. Gall cwsmeriaid uwchraddio'u cwynion i'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd.

### Newidiadau a wnaed yn 2020/21

- Adolygwyd y broses gŵynion a chynhaliwyd ymarferiad gwersi a ddysgwyd, gyda newidiadau arfaethedig i'w gweithredu yn 2021/22.

### Cynlluniau ar gyfer 2021/22

- Gweithredu newidiadau a nodwyd yn adolygiad 2020/21 a sicrhau bod prosesau'n canolbwyntio ar y cwsmer, yn gadarn ac yn effeithlon.
- Dadansoddi'r holl gŵynion a dderbyniwyd er mwyn amlygu themâu, rhannu mewnwelediadau i ysgogi gwelliannau i wasanaethau ac olrhain gwireddu buddion.
- Gweithredu datrysiad pen desg ar gyfer gwasanaethau cwsmeriaid i nodi rhyngweithiadau cwsmeriaid, ysgogi arbedion effeithlonrwydd, strwythuro data a nodi materion cyson.

Tabl 2. Cwynion yn 2020/21

| | |
|---|---|
| Cwynion a dderbyniwyd gan yr Arolygiaeth | 1,074 o gŵynion |
| Cwynion a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon Seneddol | 39 o gŵynion |
| Cwynion a dderbyniwyd i ymchwilio iddynt gan yr Ombwdsmon Seneddol | Dim cwyn |
| Cwynion a gadarnhawyd yn llawn gan yr Ombwdsmon Seneddol | N/A |
| Cwynion a gadarnhawyd yn rhannol gan yr Ombwdsmon Seneddol | N/A |
| Cwynion heb eu cadarnhau gan yr Ombwdsmon Seneddol | N/A |
| Argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon Seneddol y cydymffurfiwyd â nhw | N/A |
| Argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon Seneddol na chydymffurfiwyd â nhw. | N/A |

## Gwybodaeth reoli

5 Datganiad Ystadegol

Rydym wedi dechrau defnyddio data'n wybodus i lywio penderfyniadau allweddol. Rydym yn symud o fesur perfformiad gwaith achos cyfartalog i edrych ar amrywioldeb yn ogystal â gallu cynnal dadansoddiadau a diagnosis. Defnyddir y wybodaeth hon i gynhyrchu datganiadau ystadegol ar ein perfformiad i gwsmeriaid a rhanddeiliaid.

### Newidiadau a wnaed yn 2020/21

- Crëwyd dangosfwrdd i fonitro lefelau salwch, absenoldeb arbennig a chapasiti pobl.
- Crëwyd fframwaith i fesur ein perfformiad yn erbyn Cynllun Strategol 2020/2024.
- Datblygwyd ein hofferyn gwybodaeth fusnes ymhellach.
- Cynhaliwyd dadansoddiad i gefnogi penderfyniadau ac i ddeall ysgogwyr ein perfformiad.
- Cynhaliwyd arddangosiadau o allu dadansoddol a datblygwyd offeryn i wella llythrennedd data.
- Datblygwyd datganiadau ystadegol yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

### Cynlluniau ar gyfer 2021/22

- Sefydlu prif set ddata a safonau data er mwyn nodi data allweddol a gwella ansawdd.
- Datblygu gwybodaeth reoli ar gyfer rhanddeiliaid.
- Ehangu datganiadau ystadegol misol.
- Cynnal dadansoddiad i gefnogi gwneud penderfyniadau.
- Gweithio gyda'n noddwyr i ddiweddaru ein targedau perfformiad.
- Gwella llythrennedd data a phennu lefelau gwybodaeth a sgiliau sydd eu hangen.

## Rheoli newid

10 o brosiectau newid yn rhedeg gyda chyfanswm cyllideb o £7.1 miliwn

Mae'r portffolio newid yn cynnwys y rhaglen weddnewid a phrosiectau amrywiol a chanddynt gost, effaith, buddion a/neu risg sylweddol. Mae'r Bwrdd Portffolio Newid misol yn darparu llywodraethu drwy herio cynnydd yn erbyn cyflawni a'r gyllideb. Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn darparu rhywfaint o gyllid drwy achosion busnes.

### Newidiadau a wnaed yn 2020/21

- Sefydlwyd tîm newydd i gefnogi dull rheoli'r portffolio a chyflawni prosiectau newid allweddol.
- Cyflwynwyd achos busnes cyllido ar gyfer y rhaglen weddnewid a chafwyd cymeradwyaeth gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Thrysorlys Ei Mawrhydi.
- Ymgymerwyd â sicrwydd y rhaglen weddnewid yn annibynnol gan Gyfarwyddwr Anweithredol (gweler tudalen 75).

### Cynlluniau ar gyfer 2021/22

- Gweithredu strwythur llywodraethu newydd a fydd yn blaenoriaethu gweithgareddau ar sail tystiolaeth o gyflawni buddion.
- Cyflwyno prosesau a thempledi wedi'u diweddaru i wella rheolaeth a thryloywder, yn enwedig ar nodi, cynllunio a rheoli buddion.
- Rhoi cynllun dwy flynedd at ei gilydd ar gyfer y portffolio newid, gan gynnwys effaith Cynllunio ar gyfer y dyfodol, y Prosiect Cyflymder a'r model gweithredu ar ôl COVID-19.
- Lleihau dibyniaeth ar adnoddau wedi'u contractio i gyflawni newid.

## Rheolaethau ariannol

Rydym yn atebol i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol o ran sut rydym yn paratoi ac yn gwario ein dyraniad cyllideb. Mae ein prosesau yn cydymffurfio â Rheoli Arian Cyhoeddus. Gweithredwn yn effeithiol ac yn effeithlon a chanolbwyntiwn ar ddarparu gwerth am arian. Rydym yn cynnal adolygiadau chwarterol i sicrhau cyflawni ein cynllun busnes a rheolaeth ariannol. Rydym yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg am unrhyw wariant heb ei gynllunio fel taliadau ex gratia, costau anffafriol a drwgddyledion a dileu dyledion. Ceir polisi dim goddefiant ar gyfer gorwariant prosiectau a rhaid i unrhyw amrywiannau gael eu cymeradwyo gan y bwrdd newid.

Amrywiant o 1.1% ar y gyllideb net

### Newidiadau a wnaed yn 2020/21

- Ymgorfforwyd y model partneru busnes ariannol, gan ddarparu cyngor ariannol fel gwasanaeth drwy'r Arolygiaeth.
- Cynhaliwyd adolygiadau chwarterol i sicrhau rheolaeth ar y gyllideb a chyflawni'r cynllun busnes.

### Cynlluniau ar gyfer 2021/22

- Gweithredu proses newydd i awdurdodi ceisiadau cyllido y tu allan i'r gyllideb wreiddiol.
- Cysoni data ariannol a data pobl er mwyn gwella awtomeiddio rhagamcanu a modelu adnoddau.
- Datblygu cynllun ariannol sy'n gyson â'r adolygiad gwariant tymor hwy a'r Cynllun Strategol.
- Adolygu dirprwyaethau ariannol a masnachol o'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i sicrhau eu bod yn briodol ac yn gadarn.
- Datblygu adroddiad buddion i sicrhau bod prosiectau'n cyflawni ymrwymiadau'u hachos busnes.

## Rheolaethau masnachol

Mae rheolaethau masnachol yn sicrhau cyflawni contractau gwerth am arian yn effeithiol a chydymffurfio â rheoliadau caffael. Rydym yn rheoli risgiau'r gadwyn gyflenwi ac yn cynnal safonau caffael i gefnogi cynaliadwyedd, atal caethwasiaeth fodern a chefnogi twf economaidd. Rheolwn gyflenwyr drwy ystod o dechnegau yn dibynnu ar werth, critigolrwydd a'r math o gontract. Lle bynnag y bo'n bosib ac fel y bo'n briodol, defnyddiwn ddull cydweithredol i ddarparu'r gwerth gorau am arian, cynyddu arloesedd a throsglwyddo sgiliau i'n pobl. Anogwn ymgysylltu â chyflenwyr yn gynnar ac ymwneud â chaffael mewn modd rheoledig drwy oes gyfan y contract. Rydym yn rhannu risgiau gyda chyflenwyr, yn cytuno ar rwymedigaethau ac yswiriannau fel rhai wedi'u ffurfioli yn nhelerau ac amodau ein contractau. Amcanwn i dalu anfonebau a dderbyniwn cyn pen pum niwrnod, ond weithiau mae angen mwy o amser arnom i'w gwirio a'u dilysu.

Dyfarnwyd 58 o gontractau newydd, 14 ohonynt ar sail tendr unigol.

### Newidiadau a wnaed yn 2020/21

- Newidiwyd yr ymagwedd ar gyfer cyflawniad masnachol y prosiect gweddnewid.
- Hyfforddwyd ein pobl i greu a rheoli archebion prynu.
- Paratowyd strategaeth fasnachol a pholisi caffael newydd.

### Cynlluniau ar gyfer 2021/22

- Gweithredu strategaeth fasnachol a pholisi caffael newydd.
- Gwella prosesau masnachol.
- Cynyddu arbenigedd, capasiti ac effeithiolrwydd masnachol.

## Parhad busnes

Mae gennym drefniadau rheoli parhad busnes cadarn ac rydym yn cydymffurfio â Fframwaith Polisi Diogelwch y llywodraeth. Mae ein cynlluniau yn cwmpasu ystod o senarios (gan gynnwys diffyg argaeledd safleoedd, systemau neu gyflogeion) ac yn amlinellu strategaethau ymadfer. Mae cynllun a thim rheoli argyfwng ar waith, yn barod i weithredu yn dilyn digwyddiad. Mae cynlluniau unigol gan feysydd swyddogaethol hefyd.

18 o Gynlluniau Parhad Busnes ar waith

### Newidiadau a wnaed yn 2020/21

- Cwblhawyd dadansoddiad effaith ar fusnes i adolygu cynlluniau parhad busnes a risgiau fel rhan o'r hymateb i bandemig COVID-19.
- Dosbarthwyd arolwg dadansoddiad o effaith Covid-19 i'n holl bobl er mwyn nodi oriau gweithio a gollwyd, anghenion a chyfrifoldebau gofalu yn sgil y pandemig.
- Diweddarwyd y polisi, fframwaith a chynlluniau parhad busnes.
- Cynhyrchwyd adroddiad ar risgiau allweddol ar gyfer y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

### Cynlluniau ar gyfer 2021/22

- Adolygu templed y cynllun parhad busnes.
- Cynnal profion ar gynlluniau gydag ymarferiadau senario.

## Gwrthdaro Buddiannau

Mae ein polisi Gwrthdaro Buddiannau yn ei gwneud yn ofynnol i'n holl bobl a'n Cyfarwyddwyr Anweithredol ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posibl wrth iddynt gael eu penodi ac yn ddiweddarach wrth iddo godi. Mae eitem agenda sefydlog ar gyfer Cyfarfodydd y Bwrdd, Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Tîm Gweithredol yn gwneud darpariaeth i'r rhai sy'n mynychu ddatgan unrhyw fuddiannau. Mae'n ofynnol i'r holl Gyfarwyddwr wirio a diweddaru'r gofrestr datganiadau o fuddiant fel rhan o broses yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Yn ogystal, nid yw Arolygwyr yn gweithio ar achosion sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle mae ganddynt gysylltiadau diweddar neu gyfredol.

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau gan aelodau Bwrdd

### Newidiadau a wnaed yn 2020/21

- Cytunwyd i ddefnyddio offeryn newydd ar gyfer cofnodi datganiadau o fuddiant ein pobl, y system SAPHR. Mae Cyfarwyddwyr yn dal i ddefnyddi'r gofrestr buddiannau a gyhoeddir ar wefan GOV.UK: https://www.gov.uk/government/publications/register-of-planning-inspectorate-board-member-interests.

### Cynlluniau ar gyfer 2021/22

- Gwella cofnodi datganiadau o fuddiant trwy gyflwyno cymhwysiad newydd o fewn y system SAP HR.
- Adolygu'r polisi Gwrthdaro Buddiannau a gweithdrefnau cofnodi.
- Ysgogi pob un o'n pobl i adnewyddu'u datganiadau yn flynyddol, gan ddechrau yn 2021-22.

## Chwythu'r Chwiban

Gall ein pobl adrodd am gamymddygiad yn ddi-enw dros y ffôn neu drwy'r e-bost gan ddefnyddio'r gwasanaeth cyfrinachol 'See, Hear, Speak up'. Caiff adroddiadau eu llwybro i'n Swyddog Enwebedig, y gall chwythwyr chwiban fynd ato'n uniongyrchol hefyd, a bydd yn cydlynu ymateb i unrhyw adroddiadau a dderbynnir.

> 0 adroddiad wedi'i wneud

### Newidiadau a wnaed yn 2020/21

- Cyhoeddwyd cyfathrebiad mewnol i gynyddu ymwybyddiaeth a dangos dymuniad y Tîm Gweithredol i glywed pryderon a chefnogi chwythwyr chwiban, er mwyn meithrin diwylliant o deimlo'n ddiogel i godi materion a herio ymddygiadau.
- Diwygiwyd y polisi chwythu'r chwiban i gynnwys mwy o wybodaeth am y broses yn dilyn adroddiad, gan reoli disgwyliadau a chynnig sicrwydd i chwythwr chwiban posibl. Ystyriwyd bod y trefniadau ar gyfer chwythu'r chwiban yn effeithiol.

### Cynlluniau ar gyfer 2021/22

- Adolygu polisi fel rhan o'r ymdrech i gysoni polisïau'r Gwasanaeth Sifil fel ymarfer safonol.

## Twyll a llwgrwobrwyo

Rydym yn parhau i weithio gyda Chanolfan Arbenigedd ar gyfer Gwrth-dwyll Swyddfa'r Cabinet ac yn edrych ar ffyrdd newydd o nodi ac adrodd ar dwyll a gwallau.

> 0 adroddiad am dwyll neu lwgrwobrwyo

### Newidiadau a wnaed yn 2020/21

- Cyflwynwyd asesiad risg twyll i Swyddfa'r Cabinet ei adolygu.
- Cwblhawyd hyfforddiant Risg Twyll Swyddfa'r Cabinet.
- Ymunwyd â'r grŵp Aseswyr Risg Proffesiwn Gwrth-dwyll y Llywodraeth.
- Cynyddwyd ymwybyddiaeth o sut i nodi ac adrodd am dwyll drwy ddarlledu ar weminar mewnol ar atal twyll (150 o gyfranogwyr) a thrwy gyhoeddi erthygl mewn cyfres am dwyll ffug.

### Cynlluniau ar gyfer 2021/22

- Cynnal asesiadau o risg twyll cyn bod y prosiectau newid yn dechrau.
- Parhau ag ymgysylltiad mewnol i atal twyll rhag digwydd ac i gynyddu'r tebygolrwydd o nodi achosion o dwyll.

## Iechyd, Diogelwch a Lles

Mae'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles yn adrodd i'r Tîm Gweithredol. Maent yn cefnogi cyfrifoldebau statudol y cynrychiolwyr iechyd a diogelwch ac yn hyrwyddo diwylliant diogelwch cadarnhaol a rhagweithiol lle caiff risgiau eu nodi a'u lliniaru. Maent yn annog ymagwedd gyson at wella iechyd, diogelwch a lles ein pobl. Ymchwilir i'r holl ddamweiniau a'r damweiniau y bu ond y dim iddynt ddigwydd er mwyn atal ailadrodd digwyddiadau.

> Cofnodwyd 4 damwain, a 0 o ddamweiniau y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn y flwyddyn adrodd.

### Newidiadau a wnaed yn 2020/21 a chynlluniau ar gyfer 2021/22

Gweler mesurau lliniaru ar gyfer risg S16 tudalen 25.

## Rheolaethau adnoddau dynol

Mae ein rheolaethau adnoddau dynol wedi'u hamlinellu yn ein Dogfen Fframwaith. Mae Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn archwilio ein systemau yn rheolaidd i sicrhau cydymffurfio â'r Fframwaith, deddfwriaeth a safonau cyflogaeth. Rydym yn cynnal safonau recriwtio a dewis. Cefnogwn ein pobl yn eu gwaith, eu datblygiad ac o ran eu lles.

> Cymerwyd 4,099 o ddiwrnodau absenoldeb arbennig oherwydd COVID-19

### Newidiadau a wnaed yn 2020/21

- Datblygwyd a chyflëwyd ymagwedd at wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Gweithredwyd polisi dros dro ar absenoldeb arbennig â thâl a gwyliau blynyddol i gefnogi staff drwy pandemig COVID 19.
- Parhaom i ymgorffori ein model gweithredu newydd. Mae wedi'i gynllunio i sicrhau bod ein cyflawniad strategol yn fforddiadwy a gydag adnoddau priodol.
- Parhaom i hyrwyddo sgyrsiau ansawdd parhaus fel ymarfer rheoli llinell da a chyflwynwyd offeryn newydd i wella cysondeb.
- Sefydlwyd swyddogaeth arbenigol dysgu a datblygu.
- Adolygwyd partneriaethau gyda'r Undebau Llafur, a'u gwella.

### Cynlluniau ar gyfer 2021/22

- Sefydlu rhaglen dreigl o welliant parhaus ar gyfer ein holl bolisïau adnoddau dynol.
- Ymgorffori ein dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus drwy hyfforddiant gwell a defnyddio asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.
- Adeiladu systemau dysgu a datblygu er mwyn datblygu gallu ein pobl o fewn pob proffesiwn.
- Gweithredu a gwella ein hymagwedd at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Sarah Richards
Prif Weithredwr
29 Mehefin 2021

# Adroddiad cyflogau

## Mae'r adroddiad cyflogau yn crynhoi ein polisi cyflogau a datgeliadau ar gyflog Cyfarwyddwyr, fel sy'n ofynnol gan Adran 421 Deddf Cwmnïau 2006, wedi'u haddasu ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

### Polisi cyflogau'r Cyfarwyddwyr

Y trefniadau cyflogau ac arfarnu perfformiad sy'n gymwys ar lefel Cyfarwyddwyr ac uwch yw'r rhai sy'n gymwys i'r Uwch Wasanaeth Sifil yn gyffredinol. Nodir prif nodweddion y trefniadau hyn yn ganolog gan Swyddfa'r Cabinet. Yn unol â chanllawiau cyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil yn rhan o waith ac argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion, caiff cyflogau blynyddol eu pennu fesul unigolyn gan y Prif Weithredwr, dan oruchwyliaeth y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Cyfnod rhybudd Cyfarwyddwyr yw un mis o leiaf.

### Cyflogau a hawliau pensiwn (gan gynnwys datgeliadau Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV)) ar gyfer Cyfarwyddwyr ac aelodau'r Bwrdd

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad.
Mae cyfanswm ffigurau unigol cyflogau'r cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, ac mewn cromfachau y ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn a ddeth i ben ar 31 Mawrth 2020, yn cael eu dangos Nhabl 3.

Tabl 3. Cyfanswm ffigurau unigol cyflogau'r Cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 (rhan 1)

| | Cyflog a ffioedd a dalwyd | Bonws | Buddion trethadwy | Buddion yn gysylltiedig â phensiwn | Cyfanswm ar gyfer 2020/21 (2019/20) |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 mewn bandiau o £5,000 | £'000 mewn bandiau o £5,000 | £ i'r £100 agosaf | £ i'r £1,000 agosaf | £000 mewn bandiau o £5,000 |
| **Swyddog Cyfrifyddu** | | | | | |
| Sarah Richards<br>Prif Weithredwr | 140-145<br>(140-145) | 0-5<br>(-) | -<br>(-) | 56,000<br>(55,000) | 200-205<br>(195-200) |
| **Cyfarwyddwyr Gweithredol** | | | | | |
| Paul McGuinness<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (o fis Mawrth 2020) | 75-80<br>(0-5)<br>(75-80 cyfwerth ag amser llawn) | 0-5<br>(-) | -<br>(-) | 30,000<br>(1,000) | 105-110<br>(0-5) |
| Navees Rahman<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (tan fis Mawrth 2020<br>ac o fis Rhagfyr 2020) | 85-90<br>(85-90) | 0-5<br>(-) | -<br>(-) | 46,000<br>(51,000) | 135-140<br>(135-140) |
| Graham Stallwood<br>Cyfarwyddwr Gweithrediadau<br>(o fis Mai 2019) | 105-110<br>(90-95)<br>(100-105 cyfwerth ag amser llawn) | 0-5<br>(-) | -<br>(-) | 41,000<br>(36,000) | 145-150<br>(125-130) |
| Christine Thorby<br>Cyfarwyddwr Strategaeth<br>(o fis Ebrill 2019) | 110-115<br>(110-115) | 0-5<br>(-) | -<br>(-) | 40,000<br>(309,000) | 150-155<br>(415-420) |
| Tim Guy<br>Cyfarwyddwr Gweddnewid<br>(tan fis Mawrth 2020) | -<br>(100-105)<br>(105-110 cyfwerth ag amser llawn) | -<br>(-) | -<br>(-) | -<br>(41,000) | -<br>(145-150) |
| Phil Hammond<br>Cyfarwyddwr Swm Gwaith Achos (tan fis Gorffennaf 2019) | -<br>(120-125)<br>(75-80 cyfwerth ag amser llawn) | -<br>(-) | -<br>(-) | -<br>(-) | -<br>(120-125) |

Tabl 3. Cyfanswm ffigurau unigol cyflogau'r Cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 (rhan 2)

| | Cyflog a ffioedd a dalwyd | Bonws | Buddion trethadwy | Buddion yn gysylltiedig â phensiwn | Cyfanswm ar gyfer 2020/21 (2019/20) |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 mewn bandiau o £5000 | £000 mewn bandiau o £5000 | £ i'r £100 agosaf | £ i'r £1,000 agosaf | £000 mewn bandiau o £5000 |
| Cyfarwyddwyr Anweithredol | | | | | |
| Trudi Elliott<br>Cadeirydd, Anweithredol | 20-25<br>(20-25) | -<br>(-) | -<br>(-) | -<br>(-) | 20-25<br>(20-25) |
| Sally Dixon<br>Cyfarwyddwr, Anweithredol<br>(o fis Gorffennaf 2019) | 10-15<br>(5-10)<br>(10-15 cyfwerth ag amser llawn) | -<br>(-) | -<br>(-) | -<br>(-) | 10-15<br>(5-10) |
| Dr Rebecca Driver<br>Cyfarwyddwr, Anweithredol<br>(o fis Rhagfyr 2019) | 10-15<br>(0-5)<br>(10-15 cyfwerth ag amser llawn) | -<br>(-) | -<br>(-) | -<br>(-) | 10-15<br>(0-5) |
| Stephen Tetlow<br>Cyfarwyddwr, Anweithredol<br>(o fis Gorffennaf 2019) | 10-15<br>(5-10)<br>(10-15 cyfwerth ag amser llawn) | -<br>(-) | -<br>(-) | -<br>(-) | 10-15<br>(5-10) |
| Jayne Erskine<br>Cyfarwyddwr, Anweithredol<br>(tan fis Mai 2019) | -<br>(0-5)<br>(10-15 cyfwerth ag amser llawn) | -<br>(-) | -<br>(-) | -<br>(-) | -<br>0-5 |
| David Holt<br>Cyfarwyddwr, Anweithredol<br>(tan fis Rhagfyr 2019) | -<br>(5-10)<br>(10-15 cyfwerth ag amser llawn) | -<br>(-) | -<br>(-) | -<br>(-) | -<br>(5-10) |
| Susan Johnson<br>Cyfarwyddwr, Anweithredol<br>(tan fis Gorffennaf 2019) | -<br>(0-5)<br>(10-15 cyfwerth ag amser llawn) | -<br>(-) | -<br>(-) | -<br>(-) | -<br>(0-5) |

Mae Cyfarwyddwyr Anweithredol ar gontract am dair i bedair blynedd. Mis yw eu cyfnod rhybudd fel arfer. Mae rhai digwyddiadau penodol a all sbarduno terfynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

## Datgeliad pensiynau'r Cyfarwyddwyr

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad.

Tabl 4. Datgeliad pensiynau'r Cyfarwyddwyr

| | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig wrth gyrraedd oed pensiwn | Cyfanswm pensiwn cronedig wrth gyrraedd oed pensiwn ar 31/3/21 a'r cyfandaliad cysylltiedig | Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) mewn £000 i'r £1,000 agosaf | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 mewn bandiau o £2,500 | £000 mewn bandiau o £5,000 | Ar 31/03/20 (Ailddatganwyd) | Ar 31/03/21 | Cynnydd Gwirioneddol |
| Sarah Richards<br>Prif Weithredwr | 2.5-5 | 15-20 | 234 | 302 | 47 |
| Paul McGuinness<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (o fis Mawrth 2020) | 0-2.5 | 20-25 | 188 | 212 | 11 |
| Navees Rahman<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (tan fis Mawrth 2020 ac o fis Rhagfyr 2020) | 2.5-5 | 20-25 | 253 | 288 | 21 |
| Graham Stallwood<br>Cyfarwyddwr Gweithrediadau (o fis Mai 2019) | 0-2.5 | 0-5 | 22 | 49 | 18 |
| Christine Thorby<br>Cyfarwyddwr Strategaeth | 0-2.5 | 50-55 | 1,050 | 1,131 | 41 |

Mae ffigurau'r flwyddyn flaenorol ar gyfer Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod wedi'u hailddatgan i adlewyrchu newid yn y cyfrifiad buddion pensiwn. Mae Actiwari'r Cynllun wedi cynghori, o 17 Ionawr 2020, na fydd ffactorau addasu Isafswm Pensiwn Gwarantedig (GMP) yn berthnasol i rai aelodau mwyach. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.civilservicepension.org.uk.

## Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafu ar ôl asesiad actiwaraidd o fuddiannau cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i'w aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd ar lefel uwch y mae datgeliad yn gymwys iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall a drosglwyddwyd gan yr aelod i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir CETVau yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan fydd buddion pensiwn yn cael eu codi.

## Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) a ariennir gan y Trysorlys. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronedig o ganlyniad i chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Iawndal wrth ymddeol yn gynnar neu golli swydd

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad.
Nid oedd unrhyw daliadau yn ofynnol yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

## Datgeliad cyflog teg

This section of the document has been subject to audit.
Directors do not have any entitlements to pay after their departure date.

## Datgeliad cyflog teg

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad.
Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog y Cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf yn eu sefydliad a chyflog canolrifol gweithlu'r sefydliad. Mae'r cyfrifiad wedi'i seilio ar staff cyfwerth ag amser llawn ar ddyddiad olaf y cyfnod adrodd bob blwyddyn.

Tabl 5. Datgeliad cyflog teg

| | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| Band Cyfanswm Cyflog y Cyfarwyddwr ar y Cyflog Uchaf (£'000) | 140-145 | 140-145 |
| Cyfanswm Canolrifol - Arolygydd | £59,389 | £58,837 |
| Cymhareb Cyflogau - Arolygydd | 2.4 | 2.4 |
| Cyfanswm Canolrifol - Cymorth | £27,607 | £27,221 |
| Cymhareb Cyflogau - Cymorth | 5.2 | 5.2 |

Cyflog wedi'i fandio y Cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf yn y flwyddyn ariannol 2020/21 oedd £140,000 - £145,000 (2019/20: £140,000 - £145,000). Roedd hyn 2.4 gwaith (Arolygwyr); 5.2 gwaith (cymorth); (2019/20: 2.4 (Arolygwyr); 5.2 cymorth)) yn fwy na chyflog canolrifol y gweithlu, sef £59,389 (Arolygydd); £27,607 (cymorth) (2019/20: £58,837 (Arolygydd); £27,221 (cymorth)). Gwnaethom gynnal adolygiad cyflogau cyfartal yn seiliedig ar enillion cyfartalog cyflogeion yn 2018/19 i benderfynu a yw'r cyflogau a delir yn briodol ar gyfer y gwaith a wneir, ac nad ydynt yn achosi unrhyw heriau o ran cyflog teg. Bydd y gwaith hwn yn llywio ein hymagwedd gyflogau barhaus.

Cyhoeddwyd gwybodaeth am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer yr Arolygiaeth Gynllunio ar GOV.UK yn https://www.gov.uk/government/publications/mhclg-gender-pay-gap-report-and-data-2020.

Yn 2020/21, ni dderbyniodd unrhyw gyflogai gyflog yn uwch na'r Cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf (2019/20: dim). Roedd cyflogau'n amrywio o £111,989 i £10,500 (2019/20 £110,762 i £10,500) ac eithrio'r Cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf. Mae'r cyfanswm cyflog yn cynnwys cyflog, tâl anghyfunol yn gysylltiedig â pherfformiad a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.



# Adroddiad staff

## Niferoedd staff

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21, roeddem yn cyflogi (cyfwerth ag amser llawn, ar gyfartaledd) 759 o staff (gweler tabl 6). Roedd y cyfanswm hwn yn cynnwys 384 o fenywod a 471 o ddynion (cyfwerth ag amser llawn, ar gyfartaledd: 325 o fenywod; 423 o ddynion), a oedd yn cynnwys dwy fenyw a thri o ddynion ar lefel Cyfarwyddiaeth. Roedd nifer y staff yn cynnwys cymysgedd o gyflogeion amser llawn a rhan-amser, Arolygwyr cyflogedig sy'n gweithio gartref a staff swyddfa yn swyddfeydd Caerdydd a Bryste (mae staff swyddfa yn gweithio o gartref ar hyn o bryd yn ystod pandemig Covid-19). Hefyd, gwnaethom ddefnyddio gwasanaethau 85 o Arolygwyr heb fod ar gyflog misol (2019/20: 94) ar sail gytundebol am ffi er mwyn caniatáu adnoddau hyblyg a gwerth am arian.

Roedd nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a oedd yn cael eu cyflogi gennym yn barhaol (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn yn Nhabl 6. Y gyfradd drosiant yn 2020/21 oedd 9%. Gwnaethom ddefnyddio gwasanaethau dau aelod o staff a secondiwyd i mewn, ar gyfartaledd, yn ystod y flwyddyn. Defnyddiwyd y gwasanaethau hyn ar lefel Cyfarwyddwr a lefel reoli, am gyfnod hwy na chwe mis, i'n cynorthwyo gyda swyddi blaenoriaeth. Hefyd, roedd un aelod o staff ar lefel reoli wedi'i secondio allan ar gyfer swydd tymor hwy mewn sefydliad arall y Llywodraeth. Ar 31 Mawrth 2021, roedd 77 aelod o staff (75 ar 31 Mawrth 2020) ar gontractau cyfnod penodol. Cafodd niferoedd bach o staff eu secondio y tu allan i'r Arolygiaeth Gynllunio yn ystod 2020/21 i gefnogi adnoddau Covid-19 y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Tabl 6. Cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn y flwyddyn

| Parhaol (cyfartaledd) | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| Band Cyflog 2 yr Uwch Wasanaeth Sifil | 1 | 1 |
| Band Cyflog 1 yr Uwch Wasanaeth Sifil | 4 | 4 |
| Gradd 6-7 (Uwch Aelodau Staff) | 36 | 32 |
| Arolygydd Cyflogedig | 352 | 331 |
| Cymorth | 117 | 97 |
| Gweithwyr Achos | 238 | 260 |
| **Cyfanswm** | **748** | **725** |
| Llai Secondiadau | (1) | - |
| Ychwanegu Staff Asiantaeth | 12 | 11 |
| **Cyfanswm a Gyflogwyd** | **759** | **736** |

### Undebau llafur

Mae'r sefydliad yn cydnabod dau undeb yn ffurfiol: Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS), sy'n cynrychioli staff swyddfa, a Prospect, sy'n cynrychioli Arolygwyr. Cynhaliwyd ymgynghoriadau ffurfiol â'r undebau trwy'r 13 o gyfarfodydd Whitley, yn bennaf, a gynhaliwyd eleni. Rydym hefyd yn cydweithio â'r undebau a'n cyflogeion, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, ar gynigion rheoli sydd â pherthynas uniongyrchol â'r ffordd mae staff yn gweithio, gan sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin o'r effaith ar unigolion. Yn 2020/21, roedd ymgynghoriad allweddol gyda'r Undebau Llafur yn ymwneud â defnyddio digwyddiadau rhithwir ar gyfer gwrandawiadau ac ymchwiliadau.

Mae'n ofynnol i ni gyhoeddi gwybodaeth yn y tablau canlynol yn unol â Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017.

Tabl 7. Cynrychiolaeth Undeb Llafur

| Cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod | Cyflogeion cyfwerth ag amser llawn |
|---|---|
| 19 | 17.92 |

Tabl 8. Canran o'r amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster

| Canran yr amser | Nifer y cyflogeion |
|---|---|
| 0% | 9 |
| 1-50% | 10 |
| 51-99% | 0 |
| 100% | 0 |

Tabl 9. Canran o'r bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster

| | |
|---|---|
| Cyfanswm cost amser cyfleuster | £25,976.54 |
| Cyfanswm bil cyflogau | £45,986,987.60 |
| Cost amser cyfleuster fel canran o'r bil cyflogau | 0.06% |

Mae ffgur cyfanswm y bil cyflogau yn gynrychioliadol o daliadau cyflog, lle mae costau Staff yn cynnwys addasiadau cyfrifyddu sy'n angenrheidiol ar gyfer y datganiadau ariannol.

Tabl 10. Gweithgareddau Undeb Llafur â thâl

| | |
|---|---|
| Amser a dreuliwyd ar weithgareddau Undeb Llafur â thâl fel canran o'r cyfanswm oriau amser cyfleuster â thâl | 100% |

## Rheoli presenoldeb

Nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd drwy absenoldeb salwch, ar gyfartaledd, yn 2020/21 oedd 4.8 diwrnod (5.5 diwrnod yn 2019/20). Mae rhai o'r absenoldebau o ganlyniad i faterion cymhleth yn ymwneud ag anableddau. Mae gennym gyfartaledd o 5.5 diwrnod o absenoldeb arbennig â thâl a ddefnyddiwyd yn benodol mewn ymateb i bandemig COVID-19. Rydym yn cydweithio'n agos gyda rheolwyr llinell er mwyn sicrhau y rhoddir cymorth priodol i unigolion, trwy addasiadau rhesymol, cyfweliadau rheolaidd dychwelyd i'r gwaith a defnyddio'r Rhaglen Cymorth i Gyflogeion.

## Polisïau staff

### Polisi cyflogau

Mae'r adroddiad cyflogau yn crynhoi ein polisi cyflogau a datgeliadau ar gyflog Cyfarwyddwyr, fel sy'n ofynnol gan Adran 421 Deddf Cwmnïau 2006, wedi'u haddasu ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

### Recriwtio

Gwneir ein holl recriwtio ar sail cystadleuaeth deg ac agored, a chaiff detholiadau eu seilio ar deilyngdod. Mae prosesau recriwtio'n deg a chânt eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn ystyried unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth cyflogaeth.

### Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae cyfran y staff sy'n ystyried eu hunain yn anabl yn parhau'n fach, sef 7%, er bod y ffigur hwn wedi lleihau ychydig o gymharu â 2019/20. Wrth recriwtio staff, rydym yn parhau i sicrhau cyfweliad i ymgeiswyr anabl sy'n bodloni gofynion craidd y swydd ddisgrifiad a manyleb yr unigolyn, o dan y cynllun Hyderus o ran Anabledd. Rydym hefyd yn cynnig cymorth drwy addasiadau rhesymol i ymgeiswyr. Yn ystod y pandemig Covid-19, rydym wedi llwyddo i gynnal cyfweliadau yn rhithwir trwy gydol 2020/21, wrth gynnal proses ddethol a phenodi o safon uchel drwyddi draw. Byddwn yn ymgorffori'r profiad hwn yn nhrefniadau recriwtio'r dyfodol gan gynnig yr opsiwn mwyaf addas i ymgeiswyr ble bynnag y bo modd.

## Costau staff

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad.

Mae tabl 11 yn cynnwys cyfanswm y costau staff ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, fel y dangosir yn y Datganiadau Ariannol.

Tabl 11 Cyfanswm Costau Staff

| | 2020/21 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | 34,450 | 31,223 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 3,857 | 3,439 |
| Costau pensiwn eraill | 9,412 | 8,457 |
| **Staff asiantaeth** | **47,719** | **43,119** |
| Agency staff | 717 | 528 |
| **Cyfanswm y costau staff net** | **48,436** | **43,647** |

## Buddion pensiwn

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cynlluniau buddion diffiniedig amlgyflogwr heb eu hariannu yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a adwaenir fel 'Alpha', na allwn nodi ein cyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol ynddynt. Cynhaliwyd y prisiad actiwaraidd llawn diwethaf ar 31 Mawrth 2016. I gael manylion, gweler cyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/about-us/resource-accounts/).

Ar gyfer 2020/21, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £8,945,700 yn daladwy i PCSPS (2019/20 : £8,338,082) fel un o bedair cyfradd yn yr ystod 26.6% i 30.3% (2019/20: 26.6% i 30.3%) o gyflog pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd, fel arfer, ar ôl prisio'r cynllun llawn. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i fodloni costau'r buddion sy'n cronni yn ystod 2020/21 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliaid â chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £34,084 (2019/20: £30,197) i un neu fwy o banel o dri darparwr pensiwn rhanddeiliaid a benodwyd. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oed ac yn amrywio o 8% i 14.75% o gyflog pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn gwneud cyfraniad cyfatebol o hyd at 3% o gyflog pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £105 (0.5% o gyflog pensiynadwy ar gyfer y cyflogeion hynny) yn daladwy i PCSPS i dalu cost darparu buddion cyfandaliad yn y dyfodol pe byddai'r cyflogeion hyn yn marw yn y swydd neu'n ymddeol oherwydd afiechyd.

Y cyfraniadau a oedd yn daladwy i'r darparwyr pensiynau partneriaeth ar 31 Mawrth 2021 oedd £2,916 (2019/20: £2,550). Y cyfraniadau rhagdaledig ar y dyddiad hwnnw oedd £dim (2019/20: £dim). Ni ymddeolodd yr un unigolyn (2019/20: dim unigolion) yn gynnar oherwydd afiechyd; cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol a gronnwyd yn ystod y flwyddyn oedd £dim (2019/20: £dim).

## Gwariant ar ymgynghoriaeth a llafur amharhaol

Yn 2020/21, aeth yr Arolygiaeth Gynllunio i gostau o £345,000 (2019/20: £106,000) ar gontractau yn y categori ymgynghoriaeth. Fodd bynnag, nid oedd angen cymeradwyaeth Swyddfa'r Cabinet ar gyfer unrhyw un o'r rhain, gan eu bod y tu allan i gwmpas rheolaethau gwario Swyddfa'r Cabinet.

Mae ein gwariant ar lafur amharhaol yn disgyn i dri phrif gategori:

- Staff asiantaeth – defnyddiwyd i lenwi swyddi gweigion dros dro wrth i ni recriwtio a darparu adnoddau ychwanegol fel y bo'r angen;
- Cymorth technegol arbenigol – darparu sgiliau ac adnoddau technegol lle nad yw'r gallu a/neu'r capasiti ar gael;
- Arolygwyr heb fod ar gyflog misol – adnodd Arolygwyr hyblyg yn cael eu cyflogi ar sail ffi fesul achos, a phan fydd gwaith ar gael.

Our total contingent labour spend for 2020/21 was £6,791,000.

## Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres

Gwnaethom ymrwymo i nifer o gontractau oddi ar y gyflogres (gweler y tablau dilynol am ddadansoddiad pellach). Roedd dros 58% o'r ymrwymiadau hyn ar gyfer gwasanaethau Arolygwyr heb fod ar gyflog misol (ar sail gytundebol am ffi), i ddarparu'r hyblygrwydd angenrheidiol yng ngweithlu'r Arolygwyr. Roedd gweddill yr ymrwymiadau oddi ar y gyflogres i gefnogi angen penodol yn y sefydliad tra'n bod yn gweddnewid y sefydliad.

Tabl 12. Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres

| Ymrwymiadau gweithwyr ar gyflogau uchel oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2021, yn ennill £245 y dydd neu fwy | Ym mis Mawrth 2021 |
|---|---|
| Nifer yr ymrwymiadau presennol. | 110 |
| Ohonynt... | |
| Y nifer sydd wedi bodoli am lai na blwyddyn adeg yr adroddiad. | 11 |
| Y nifer sydd wedi bodoli am rhwng blwyddyn a dwy flynedd adeg yr adroddiad. | 23 |
| Y nifer sydd wedi bodoli am rhwng dwy a thair blynedd adeg yr adroddiad. | 76 |
| Y nifer sydd wedi bodoli am rhwng tair a phedair blynedd adeg yr adroddiad. | - |
| Y nifer sydd wedi bodoli am bedair blynedd neu fwy adeg yr adroddiad. | - |

Bu pob un o'r ymrwymiadau presennol oddi ar y gyflogres, a amlinellir uchod, yn destun asesiad risg ynghylch p'un a oes angen sicrwydd bod yr unigolyn yn talu'r swm cywir o dreth o dan ddeddfwriaeth 35 Cyllid y Wlad (IR35), a cheisiwyd y sicrwydd hwnnw, yn ôl yr angen.

Tabl 13. Yr holl ymrwymiadau oddi ar y gyflogres

| Yr holl weithwyr ar gyflogau uchel oddi ar y gyflogres a gyflogwyd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, yn ennill £245 y dydd neu fwy | Ym mis Mawrth 2021 |
|---|---|
| Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. | 146 |
| Ohonynt… | |
| Heb fod yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres. | - |
| Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac y pennwyd bod IR35 yn berthnasol iddynt. | 8 |
| Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac y pennwyd nad yw IR35 yn berthnasol iddynt. | 138 |
| Nifer yr ymrwymiadau a ailaseswyd at ddibenion cysondeb/sicrwydd yn ystod y flwyddyn. | 134 |
| O'r rheiny: Nifer yr ymrwymiadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn yr adolygiad cysondeb. | - |

Tabl 14. Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres ar gyfer aelodau'r Bwrdd/uwch swyddogion

| Unrhyw ymrwymiadau oddi ar y gyflogres ar gyfer aelodau'r Bwrdd, ac/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 | Ym mis Mawrth 2021 |
|---|---|
| Nifer yr ymrwymiadau oddi ar y gyflogres ar gyfer aelodau'r Bwrdd, ac/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol. | - |
| Cyfanswm nifer yr unigolion ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres yr ystyriwyd eu bod yn 'aelodau'r bwrdd ac/neu'n uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol' yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r ffigur hwn gynnwys ymrwymiadau ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres. | 9 |

## Pecynnau ymadael

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad.

Cyfrifir am gostau ymadael yn llawn naill ai yn y flwyddyn ymadael neu, lle gwneir ymrwymiad rhwymol i ymadael yn y flwyddyn ddilynol, caiff costau eu cronni. Caiff costau ymddeol oherwydd afiechyd eu bodloni gan y cynllun pensiwn.

Nid oedd unrhyw ymadawiadau gorfodol o ganlyniad i ddileu swydd yn 2020/21. Roedd costau ymadael eraill ar gyfer 2019/20 o ganlyniad i'r prosiect dylunio sefydliadol.

Tabl 15. Dadansoddiad o'r Costau Ymadael

| Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | 2020/21 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| < £10,000 | - | 1 |
| £10,000 - £25,000 | - | - |
| £25,001 - £50,000 | - | 1 |
| £50,001 - £100,000 | - | 1 |
| **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael** | **-** | **3** |
| **Cyfanswm cost adnoddau (£)** | **-** | **128,401** |



# Atebolrwydd Seneddol ac adroddiad archwilio

Mae'r adran hon yn darparu'r datgeliadau manwl y mae'n ofynnol i ni eu gwneud, ac fe'i hategir gan y manylion yn y Datganiadau Ariannol o'r Adroddiad Blynyddol.

## Dyraniadau'r Gyllideb ac All-dro

Ariennir yr Arolygiaeth Gynllunio drwy'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru. Cytunir ar ddyraniadau mynegol cychwynnol fel rhan o ymarferion Adolygiad o Wariant Trysorlys EM, ac yna cânt eu mireinio'n flynyddol yn ôl yr angen drwy gylch cynllunio busnes y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Er 1 Ebrill 2020, fe'n hariennir yn llawn o gyllidebau rhaglenni'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a chaiff y dosbarthiad hwn o'n cyllid ei adolygu'n flynyddol.

Mae'r cyfrifon manwl ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 wedi'u cynnwys yn rhan 'Datganiadau Ariannol' y cyhoeddiad hwn. Darperir crynodeb byr o'n perfformiad yn erbyn y gyllideb yn Nhabl 16.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom reoli ein perfformiad ariannol yn erbyn y gyllideb ar draws tri phrif bennawd: costau staff a chostau cysylltiedig; costau rhedeg nad ydynt yn ymwneud â chyflogau; ac incwm. Y gyllideb refeniw net gytunedig ar ddechrau'r flwyddyn oedd £49.6m (2019/20 £47.2m) a'r gyllideb gyfalaf oedd £5m. Ychwanegwyd £2.7m at y gyllideb gymeradwy gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn 2020/21 i gefnogi effaith gostyngiadau incwm yn deillio o COVID-19. Gwnaethom orffen y flwyddyn gyda thanwariant o £0.5m yn erbyn y gyllideb ddiwygiedig, sef fel y dangosir yn Nhabl 16.

Roedd ein hincwm o weithgareddau y gellir codi tâl amdanynt fel y dangosir yn Nodyn 4 £5m yn is na'n cyllidebau gwreiddiol o ganlyniad i'r pandemig COVID-19 yn gohirio ac yn lleihau gweithgareddau. Cafodd fwy o effaith na'r disgwyl ar gostau teithio a chynhaliaeth lle ceir y rhan fwyaf o'r tanwariant. Ar yr adeg pan bennwyd cyllidebau diwygiedig roedd cynlluniau i godi gweithgarwch teithio yn Chwarter 4 ond nid oedd hyn yn bosibl oherwydd bod rheolau a chanllawiau'r cyfnod clo yn parhau.

Gyda'r holl staff ar draws y sefydliad yn parhau i weithio gartref, gwnaed penderfyniad i ohirio prynu argraffwyr a phlotyddion newydd hyd y flwyddyn ariannol nesaf. Mae hyn yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r tanwariant cyfalaf o £0.8m.

Tabl 16. Cyllideb, alldro a thanwariant

| | 2020/21 Cyllideb wreiddiol £'000 | 2020/21 Cyllideb ddiwygiedig (Hydref 2020) £'000 | 2020/21 All-dro £'000 | 2020/21 Tanwariant £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Costau staff a chostau cysylltiedig | 46,188 | 48,000, | 48,436 | (436) |
| Costau rhedeg nad ydynt yn ymwneud â chyflogau | 17,698 | 15,000 | 14,099 | 901 |
| Derbynebau | (17,047) | (12,000) | (12,046) | 46 |
| **Costau net** | **46,839** | **51,000** | **50,489** | **511** |
| Costau a glustnodwyd | 2,550 | 1,000 | 968 | 32 |
| **Cyfanswm costau rhaglenni** | **49,389** | **52,000** | **51,457** | **543** |
| Costau nad ydynt yn arian parod (Gwariant a Reolir yn Flynyddol) | 161 | 200 | (29) | 229 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | **49,550** | **52,200** | **51,428** | **772** |
| Gwariant cyfalaf | 5,041 | 5,041 | 4,251 | 790 |

Mae Tabl 17 yn dangos y dyraniadau dros dro a'r tybiaethau ymarferol presennol ar gyfer y gyllideb. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi cael cyllideb ddangosol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, a fydd yn cael ei chadarnhau mewn cyllideb ddirprwyedig ffurfiol. Gallai'r ffigurau newid.

Tabl 17. Dyraniadau dros dro presennol.

| | 2021/22 £'000 |
|---|---|
| Costau Net | 52,028 |
| Costau a glustnodwyd | 1,500 |
| **Cyfanswm costau rhaglenni** | **53,528** |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | 161 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | **53,689** |
| Gwariant cyfalaf | 5,292 |

## Ffioedd a thaliadau

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad.

Rydym wedi cydymffurfio â'r gofynion dyrannu costau a thaliadau a amlinellir yng nghanllawiau Trysorlys EM a Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus ar gyfer ffioedd a thaliadau. Caiff gwaith achos y mae cyfanswm ei ffioedd yn fwy nag £1m ei ddadansoddi isod.

Tabl 18. Incwm a chostau ar gyfer gweithgarwch gwaith achos

| | 2020/21 | | | 2019/20 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cost £'000 | Incwm £'000 | Net £'000 | Cost £'000 | Incwm £'000 | Net £'000 |
| Seilwaith Cenedlaethol | 11,669 | (4,749) | 6,920 | 9,103 | (8,456) | 647 |
| Cynlluniau Lleol | 7,712 | (2,635) | 5,077 | 6,807 | (4,576) | 2,231 |
| Gwaith Achos Arbenigol Mawr arall | 3,687 | (1,109) | 2,578 | 4,540 | (1,277) | 3,263 |
| **Cyfansymiau** | **23,068** | **(8,493)** | **14,575** | **20,450** | **(14,309)** | **6,141** |

## Rheoleidd-dra gwariant

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad.

Cyflwynir adroddiad ar wariant ar golledion a thaliadau arbennig, fel y'i diffinnir ym Mhennod 4 ac Atodiadau 4.10 i 4.13 o Reoli Arian Cyhoeddus, i Drysorlys EM drwy'r rhiant Adran. Mae colledion a thaliadau arbennig sy'n fwy na £300,000 yn cael eu dangos yn nhabl 19.

Tabl 19. Colledion a thaliadau arbennig

| | 2020/21 | | 2019/20 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer yr achosion | £'000 | Nifer yr achosion | £'000 |
| Colled adeiladol | 1 | 2 | 1 | 455 |
| Taliadau Arbennig | 32 | 156 | 36 | 347 |

Mae taliadau arbennig yn cynnwys taliadau ex gratia; a difrod i geir llog.

Manylion achosion dros £300,000 : nid oedd unrhyw achosion adroddadwy yn 2020/21 (roedd un achos adroddadwy o £455,000 yn 2019/20).

## Rhwymedigaethau amodol bychain

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad.

Mae costau ex gratia yn daliadau anstatudol, a wneir yn gyffredinol o ganlyniad i gydnabod camgymeriad a oedd yn achosi gwariant diangen i'r hawliwr. Gall hyn gynnwys achosion lle y canfyddir camweinyddiaeth gan yr Ombwdsmon Seneddol. Ar sail blynyddoedd blaenorol, mae posibilrwydd bychan y gallwn dderbyn hawliad sylweddol am gostau sy'n ymwneud â gwaith a gwblhawyd cyn 31 Mawrth 2021 lle nad yw'r achos wedi'i godi eto. O ystyried y dosbarthiad bychan, nid yw'n bosibl amcangyfrif gwerth, ond pe bai angen, byddem yn ceisio cyllid ychwanegol gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol fel rhan o gyflwyniadau arferol ein hadolygiad o wariant.

Ar 29 Mawrth 2017, cyflwynodd Llywodraeth y DU ei hysbysiad i adael yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn unol ag Erthygl 50. Dechreuodd tanio Erthygl 50 broses ddwy flynedd o drafodaethau rhwng y DU a'r UE. Ar 31 Hydref 2019, gadawodd y DU yr UE a dechreuodd ar gyfnod pontio cychwynnol a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Nid yw'r Arolygiaeth yn cael ei hariannu'n uniongyrchol gan yr UE, ond datgelir rhwymedigaeth amodol fechan na ellir ei meintioli o ganlyniad i effaith bosibl newidiadau i ddeddfwriaeth a rheoliadau.

Rydym yn parhau i fonitro effaith COVID-19 ar ein cyflenwyr a'n contractwyr allweddol, ac nid oes unrhyw beth meintioledig i'w ddatgelu ar yr adeg ysgrifennu.



Sarah Richards,
Prif Weithredwr
29 Mehefin 2021

# Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

## Barn am y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol the Arolygiaeth Gynllunio am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: Datganiad am y Gwariant Net Cynhwysfawr, Datganiad am y Sefyllfa Ariannol; Datganiad am y Llifoedd Arian; Datganiad am Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol yn unol â'r dehongliad ohonynt yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EM.

Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd y nodir yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Arolygiaeth Gynllunio ar 31 Mawrth 2021, ac o gwariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan hynny.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Roeddwn wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (ISA) (DU), Roeddwn wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (ISA) (DU), y gyfraith berthnasol, a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd er mwyn archwilio adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adroddiadau Ariannol 2019. Rwyf hefyd wedi dewis defnyddio'r safonau moesegol sy'n berthnasol i listed entities. Rwyf yn annibynnol ar Arolygiaeth Gynllunio yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a finnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Arolygiaeth Gynllunio o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi gweld dim ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Arolygiaeth Gynllunio i barhau i fod yn fusnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes hyfyw yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mae sail cyfrifyddu busnes hyfyw ar gyfer Arolygiaeth Gynllunio yn cael ei mabwysiadu wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EM, sy'n mynnu bod endidau'n mabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol pan oedd yn rhagweld y bydd y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu yn parhau yn y dyfodol.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi cael ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd y nodir yn yr adroddiad hwnnw eu bod wedi cael eu harchwilio, y datganiadau ariannol a fy nhystysgrif archwilydd ar hynny. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am yr wybodaeth arall. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny, heblaw pan fo hynny wedi'i ddatgan yn glir yn fy nhystysgrif. Yng nghyswllt fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu sydd yn ymddangos fel camddatganiad o bwys fel arall. Os byddaf yn canfod anghysonderau o bwys neu gamddatganiadau o bwys tybiedig, mae'n ofynnol i mi bennu a yw hyn yn golygu bod camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol. Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, os byddaf yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a gyflawnwyd wrth gynnal yr archwiliad:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; a
- mae'r wybodaeth yn yr ee, Adroddiadau ar Berfformiad ac Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

AAc ystyried yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Arolygiaeth Gynllunio a'i [h]amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Perfformiad ac Atebolrwydd. Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn cysylltiad â'r materion canlynol, y byddaf yn adrodd arnynt os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw, neu nad oes ffurflenni perthnasol i'm harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni; neu
- nad yw rhai o'r taliadau a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EM wedi cael eu datgelu; neu
- Nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiad â chanllawiau Trysorlys EM.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- rheolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad;neu
- asesu gallu Arolygiaeth Gynllunio i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyw a defnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni fo'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Arolygiaeth Gynllunio yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol o ran a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fo hynny'n bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi drwy dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau o bwys mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

Mae fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Arolygiaeth Gynllunio a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Arolygiaeth Gynllunio sy'n ymwneud â'r canlynol:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig; a
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys rheolaethau Arolygiaeth Gynllunio sy'n ymwneud â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Rheoli Arian Cyhoeddus, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Cynllunio 2008.
- trafod ymysg y tîm ymgysylltu a chynnwys arbenigwyr mewnol a allanol perthnasol, gan ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw ac postio cyfnodolion anarferol;
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Arolygiaeth Gynllunio yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Arolygiaeth Gynllunio yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith o bwys ar weithrediadau Arolygiaeth Gynllunio Roedd y prif gyfreithiau a rheoliadau a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Rheoli Arian Cyhoeddus, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio 2008, Cyfraith Cyflogaeth a Deddfwriaeth Treth; a
- ymholiadau rheolwyr ynghylch eu hasesiad o'r risg, prosesau ar gyfer nodi ac ymateb i risgiau twyll, gwybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig, ymholiadau archwilio mewnol yn ymwneud â thwyll, diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau a rheoleidd-dra.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r hyn a ddatgelwyd yn y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiad â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosib;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, profi pa mor briodol yw eitemau dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i'r busnes arferol; a
- adolygiad o adroddiadau archwilio mewno,adolygu dogfennau busnes a gohebiaeth sy'n ymwneud â hawliadau a chontractau mawr a wnaed fel rhan o'n profion sylweddol, yn ogystal â gweithdrefnau asesu risg parhaus sy'n ymwneud â thwyll, peidio â chydymffurfio â chyfreithiau, rheoliadau neu rheoleidd-dra fel y bo'n briodol.

Roeddwn hefyd wedi cyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o ran twyll i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys arbenigwyr mewnol a thimau archwilio cydrannau o bwys, ac roeddwn yn ymwybodol o unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg

cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

AMae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy nhystysgrif.

Ar ben hynny, rhaid i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod yr [incwm a'r gwariant yr adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rheini sydd yn gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion o bwys mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

### Adrodd

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

#### Cyfieithiad Cymraeg

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddoil. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae [Client] yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hyn.

Gareth Davies
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

1st Gorffennaf 2021

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

Mae fformat a chynnwys y datganiadau ariannol yn yr adran hon yn unol ag arweiniad perthnasol y Trysorlys a Swyddfa'r Cabinet.

# Datganiad o wariant net cynhwysfawr

| | Nodyn | 2020/21 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | | (2,893) | (2,584) |
| Incwm gweithredu arall | | (9,153) | (14,982) |
| **Incwm gweithredu** | 4 | **(12,046)** | **(17,566)** |
| Costau staff | 3a | 48,436 | 43,647 |
| Costau gweinyddol eraill | 3b | 15,643 | 21,041 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | **64,079** | **64,688** |
| **Gwariant net ar gyfer y flwyddyn** | | **52,033** | **47,122** |

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau parhaus.
Mae'r Nodiadau sy'n dechrau ar dudalen 116 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol

| | Nodyn | 31 March 2021 £'000 | 31 March 2020 £'000 |
|---|---|---|---|
| Asedau anghyfredol | | | |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 5 | 758 | 1,585 |
| Asedau anniriaethol | 6 | 3,631 | 126 |
| Rhagdaliadau sy'n fwy na blwyddyn | 8 | 1 | 10 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **4,390** | **1,721** |
| Asedau cyfredol | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 8 | 6,258 | 6,383 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 9 | 5,522 | 1,263 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **11,780** | **7,646** |
| **Cyfanswm asedau** | | **16,170** | **9,367** |
| Rhwymedigaethau cyfredol | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n daladwy | 10 | (7,887) | (7,238) |
| Darpariaethau | 11 | (109) | (138) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(7,996)** | **(7,376)** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **8,174** | **1,991** |
| Ecwiti trethdalwyr | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 8,174 | 1,991 |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | **8,174** | **1,991** |

Mae'r nodiadau sy'n dechrau ar dudalen 116 yn ffurfi rhan o'r cyfrifon hyn.

Cymeradwywyd y cyfrifon ar dudalennau 111 i 129 gan Fwrdd yr Arolygiaeth ar 10 Mehefin 2021 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

Sarah Richards,
Prif Weithredwr
29 Mehefin 2021

# Datganiad o lifoedd arian

| | Nodyn | 2020/21 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|---|
| Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu | | | |
| Addasiadau ar gyfer trafodion heb fod yn arian parod | | (52,033) | (47,122) |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 3b, 4 | 1,253 | 1,238 |
| Llai symudiad yn y ddarpariaeth dyledion drwg | 8 | 134 | 2,265 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach | 3b | (1) | 30 |
| sy'n daladwy | 10 | 649 | (1,582) |
| Llai symudiadau mewn symiau sy'n daladwy yn ymwneud ag eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r SOCNE | 5, 6 | (13) | 1,159 |
| Defnydd o ddarpariaethau | 11 | (138) | (8) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(50,149)** | **(44,020)** |
| Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau ac offer | 5 | (65) | (1,344) |
| Prynu asedau anniriaethol | 6 | (3,568) | - |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(3,633)** | **(1,344)** |
| Llifoedd arian parod o weithgareddau cyllido | | | |
| Cyllid gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | | 58,041 | 44,150 |
| **Llif arian parod net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau cyllido** | | **58,041** | **44,150** |
| **(Gostyngiad)/cynnydd net mewn symiau arian parod a chyfwerth ag arian parod yn ystod y cyfnod** | 9 | **4,259** | **(1,214)** |
| **Symiau arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | 9 | **1,263** | **2,477** |
| **Symiau arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | 9 | **5,522** | **1,263** |

Mae'r Nodiadau sy'n dechrau ar dudalen 116 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Daganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr

| | Nodyn | 2020/21 £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | | **4,789** |
| Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer 2019/20 | | |
| Cyfanswm gwariant cynhwysfawr | | (47,122) |
| Taliadau heb fod yn arian parod – cyflog yr archwilydd | 3b | 60 |
| Taliadau tybiannol | 3b | 114 |
| Cyllid gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | | 44,150 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | | **1,991** |
| Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer 2020/21 | | |
| Cyfanswm gwariant cynhwysfawr | | (52,033) |
| Taliadau heb fod yn arian parod – cyflog yr archwilydd | 3b | 60 |
| Taliadau tybiannol | 3b | 115 |
| Cyllid gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | | 58,041 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | | **8,174** |

Mae'r Nodiadau sy'n dechrau ar dudalen 116 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## Nodyn 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu ac amcangyfrifon

### Nodyn 1.1 Polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2020/21 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Mae'r polisïau cyfrifyddu a gaiff eu cynnwys yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn cymhwyso'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fo'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol yr Arolygiaeth at ddibenion rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gennym isod. Maent wedi eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

### Nodyn 1.1a Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i roi cyfrif am ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer.

### Nodyn 1.1b Amcangyfrifon a barnau cyfrifyddu

Mae paratoi gwybodaeth ariannol sy'n cydymffurfio â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) yn mynnu defnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu penodol. Mae hefyd yn ofynnol bod rheolwyr yn arfer eu barn wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu. Yr amcangyfrifon a'r barnau cyfrifyddu allweddol yw croniadau (gweler Nodyn 10), darpariaethau (gweler Nodyn 11) a rhwymedigaethau amodol (gweler Nodyn 12). Caiff amcangyfrifon eu seilio ar wybodaeth hysbys yn y busnes a thueddiadau'r gorffennol.

### Nodyn 1.1c Treth ar werth

Roedd y rhan fwyaf o weithgareddau'r Arolygiaeth Gynllunio y tu allan i faes TAW ac, yn gyffredinol, nid yw treth allosod yn gymwys ac nid yw treth fewnbwn ar bryniannau yn adenilladwy, ac eithrio o dan delerau Cyfarwyddyd y Trysorlys o dan adran 41(3) Deddf Treth Ar Werth 1994. Codir TAW na ellir ei hadennill ar y categori gwariant perthnasol neu caiff ei chynnwys yng nghost prynu cyfalaf asedau sefydlog. Pan godir treth allosod neu pan fo TAW fewnbwn yn adenilladwy, datgenir y symiau heb gynnwys TAW.

Nid ydym wedi ein cofrestru ar gyfer TAW ar wahân ond rydym yn gweithredu o dan rif cofrestru TAW y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

### Nodyn 1.1d Incwm gweithredu

Cydnabyddir incwm pan fydd rhwymedigaeth gyflawni yn cael ei bodloni e.e. trwy ddarparu gwasanaeth i gwsmer. Mae darparu gwasanaethau yn cyfeirio at yr amser a dreuliwyd ar waith achos. O ran gwaith achos, megis ymchwiliadau Cynlluniau Lleol, a all ymestyn dros nifer o flynyddoedd ariannol, cyfrifir incwm ar y gwaith a gwblhawyd hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol a'i gronni ar sail cydradd ddyddiol pro-rata. Nid ydym yn datgelu gwerth rhwymedigaethau perfformiad heb eu cyflawni gan y codir ar gontractau gyda chwsmeriaid ar gyfradd benodedig sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith a gwblhawyd hyd yma.

Mae'r prif wasanaethau a gynigir i'w gweld yn y dadansoddiad segmentaidd yn Nodyn 2 i'r Datganiadau Ariannol, sy'n disgrifio'r meysydd gwasanaeth a'r incwm a dderbyniwyd.

### Nodyn 1.1e Prydlesi gweithredu

Dosberthir prydlesi heblaw prydlesi cyllidol yn brydlesi gweithredu. Codir prydlesi gweithredu ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros oes y brydles, gan ystyried unrhyw gymhellion prydles yn unol â thelerau Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 17 – Datgeliadau a thrin prydlesi cyllidol ar wahân i brydlesi gweithredu.

### Nodyn 1.1f Costau tybiannol

Yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus, caiff costau tybiannol ar y gyfradd briodol eu cynnwys ar gyfer ffioedd archwilio a gwasanaethau a ddarperir gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, sydd â chredyd gwrthdroi cyfartal yn y Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr.
Yn ogysal, mae costau tybiannol mewn incwm a gwariant yn adlewyrchu'r defnydd o'r ardoll Brentisiaethau.

### Nodyn 1.1g Eiddo, peiriannau ac offer

Caiff eiddo, peiriannau ac offer eu datgan ar werth teg gan ddefnyddio cost hanesyddol wedi ei dibrisio. Pan gânt eu cydnabod gyntaf, fe'u mesurir ar eu cost gan gynnwys unrhyw gostau, megis gosod, y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r gwaith o'u hadfer i gyflwr gwaith. Ni chaiff eiddo, peiriannau ac offer eu hailbrisio oherwydd, gan ddefnyddio mynegrifau a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n briodol i gategori'r ased, byddai'r gwerth yn anfaterol. Isafswm y lefel ar gyfer cyfalafu eiddo, peiriannau ac offer yw £5,000, neu £5,000 ar gyfer eitemau cyfanredol. Mae eitemau sy'n is na'r gwerth hwn yn cael eu codi fel costau ac fe'u dangosir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

### Nodyn 1.1h Dibrisiant

Caiff eiddo, peiriannau ac offer eu dibrisio ar gyfraddau a gyfrifir er mwyn dileu cost yr asedau dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig ar sail llinell syth, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Technoleg Gwybodaeth (TG Strategol) | 3 blynedd |

### Nodyn 1.1i Asedau anniriaethol

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys gwerth cyfalafog systemau a ddatblygwyd yn fewnol neu feddalwedd a brynwyd, trwyddedau meddalwedd a systemau sy'n cael eu datblygu. Caiff gwerth asedau anniriaethol eu datgan fel y gost, llai amorteiddio ac amhariad. Ni chaiff asedau anniriaethol eu hailbrisio; mae'r sefydliad o'r farn nad yw sail cost amnewid wedi'i hamorteiddio yn faterol wahanol i werth teg.

Mae meddalwedd mewnol newydd wrthi'n cael ei llunio ar gyfer system rheoli llif gwaith, a bydd yn cael ei hamorteiddio pan ddechreuir ei defnyddio.

### Nodyn 1.1j Amorteiddio ac amhariad

Caiff asedau anniriaethol eu hamorteiddio ar gyfraddau a gyfrifir er mwyn dileu'r asedau dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig ar sail llinell syth, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Meddalwedd a gynhyrchir yn fewnol | 8 mlynedd |

Caiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu hamorteiddio o'r pwynt y dechreuir defnyddio'r ased. Rhestrir amorteiddio fel traul ac fe'i dangosir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae'r system rheoli dogfennau bresennol yn dal i gael ei defnyddio ar ôl wyth mlynedd tra bod y system newydd i'w disodli yn cael ei datblygu.

### Nodyn 1.1k Prydlesi cyllidol

Caiff telerau holl brydlesi'r Arolygiaeth Gynllunio eu hadolygu a, lle mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn berchen ar y risgiau a'r taliadau, caiff prydlesi eu trin yn brydlesi cyllidol.

Hefyd, fe wnaeth yr Arolygiaeth Gynllunio adolygu pob contract gwasanaeth (e.e. contractau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth) er mwyn penderfynu a yw'r contractau'n cynnwys prydles gyllidol ymgorfforedig, o dan delerau IAS 17 fel y'i dehonglir gan y Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) 4 – Penderfynu a yw Trefniant yn Cynnwys Prydles.

### Nodyn 1.1l Darpariaethau

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu adeiladol sydd ag amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth (gweler Nodyn 11).

### Nodyn 1.1m Adrodd segmentaidd

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio, fel un o Asiantaethau Gweithredol y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, yn adrodd o dan un segment gweithredol yn unig: Adeiladu cartrefi gwell. Teimlir ei bod yn fwy priodol, felly, i seilio'r dadansoddiad segmentaidd ar brif feysydd gwaith achos, ar sail y strwythur adrodd mewnol. Nid yw'r asedau a'r rhwymedigaethau wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad segmentaidd gan nad yw'r rhain wedi eu dosrannu, ond yn hytrach wedi eu defnyddio ar draws y sefydliad (gweler Nodyn 2).

### Nodyn 1.1n Offerynnau ariannol

Gan fod ein gofynion arian parod yn cael eu bodloni trwy'r broses Amcangyfrif, mae offerynnau ariannol yn cyflawni rôl fwy cyfyngedig wrth greu a rheoli risg nag a fyddai'n berthnasol i gorff nad yw'n gorff sector cyhoeddus. Mae offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â'n gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig, felly nid ydym yn agored i lawer o risg o ran credyd, hylifedd neu'r farchnad.

### Nodyn 1.1o Safonau cyfrifyddu a dehongliadau nas mabwysiadwyd hyd yn hyn

Cyhoeddwyd y safonau, y diwygiadau a'r dehongliadau canlynol, ond nid ydynt ar waith hyd yn hyn:

| Newid a gyhoeddwyd | Cyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol | Blwyddyn ariannol y byddai'r newid yn gymwys iddi'n gyntaf |
|---|---|---|
| Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 Prydlesi | Ionawr 2016 | Daw i rym o 2022/23 |
| Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 17 Contractau Yswiriant | Mai 2017 | Daw i rym o 2023/23 |

Yn y nodiadau i'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, fe wnaethom ddatgelu effaith cyfalafu'r ymrwymiad prydlesi yr oedden yn disgwyl ei wneud yn y flwyddyn ariannol bresennol. Oherwydd y pandemig COVID-19, ni wnaethom gytundebau prydles cyfnod penodedig ar gyfer ein swyddfeydd ym Mryste na Chaerdydd bryd hynny, ond parhaom gyda chontract 12 mis treigl tymor byr. Gan ein bod yn disgwyl i'r broses o greu Arolygiaeth Cymru gael ei chwblhau ym mis Hydref 2021, byddai hyn yn cael ei drin fel prydles fer. Mae'r contract ar gyfer ein Swyddfa ym Mryste yn parhau ar 31 Mawrth 2021 heb unrhyw sicrwydd o ymrwymiadau prydles yn y dyfodol naill ai ar gyfer gwerth na thymor y cytundeb. Gan fod y cytundeb prydles hwn yn un tymor byr a heb unrhyw dymhorau na chostau yn y dyfodol, nid ydym yn gallu cyfrifo effeithiau IFRS 16 gydag unrhyw sicrwydd.



### Nodyn 1.1p Busnes hyfyw

Yn gyffredin â sefydliadau eraill y Llywodraeth, caiff ein rhwymedigaethau yn y dyfodol eu hariannu gan adnoddau a gymeradwyir yn flynyddol gan y Senedd. Dylai cymeradwyaeth i symiau sy'n ofynnol ar gyfer 2021/22 gael ei rhoi cyn Toriad y Senedd ac nid oes unrhyw reswm i gredu na cheir cymeradwyaeth yn y dyfodol i gefnogi gweithgareddau busnes arferol. Yn unol â hynny, ystyriwyd ei bod yn briodol mabwysiadu sail busnes hyfyw drwy gydol yr adroddiad hwn ac wrth baratoi Datganiadau Ariannol 2020/21.

### Nodyn 2. Datganiad o gostau gweithredu yn ôl segmentau

Rydym yn adrodd ar sail y dadansoddiad segmentaidd ar brif feysydd gwaith achos a chategorïau incwm a gwariant eraill arwyddocaol.

| | 2020/21 | | | 2019/20 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cost £'000 | Income £'000 | Net £'000 | Cost £'000 | Income £'000 | Net £'000 |
| Planning appeals | 31,199 | - | 31,199 | 30,480 | - | 30,480 |
| National infrastructure | 11,669 | (4,749) | 6,920 | 9,103 | (8,456) | 647 |
| Local plans | 7,712 | (2,635) | 5,077 | 6,807 | (4,576) | 2,231 |
| Enforcement appeals | 5,393 | - | 5,393 | 5,066 | - | 5,066 |
| Rights of way | 1,046 | - | 1,046 | 1,658 | - | 1,658 |
| Listed building planning appeals | 323 | - | 323 | 261 | - | 261 |
| Compulsory purchase orders | 188 | (123) | 65 | 441 | (213) | 228 |
| Other major specialist casework | 3,687 | (1,109) | 2,578 | 4,540 | (1,277) | 3,263 |
| Income from Welsh Government | - | (2,893) | (2,893) | - | (2,584) | (2,584) |
| Transformation programme | 894 | - | 894 | 5,242 | - | 5,242 |
| Other | 1,968 | (537) | 1,431 | 1,090 | (460) | 630 |
| **Totals** | **64,079** | **(12,046)** | **52,033** | **64,688** | **(17,566)** | **47,122** |

Nid yw'r asedau a'r rhwymedigaethau wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad segmentaidd gan y cânt eu defnyddio ar draws y sefydliad, ac ni chânt eu dosrannu na'u hadrodd yn y modd hwn i uwch arweinwyr. Caiff yr Arolygiaeth Gynllunio y rhan fwyaf o'i chyllid gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, ond cafodd oddeutu 19% o'i chostau yn 2020/21 eu hadennill drwy godi tâl ar gymysgedd o adrannau eraill y llywodraeth ganolog, cyrff llywodraeth leol neu unigolion a busnesau preifat.

Disgrifiad o'r segmentau

1. Apeliadau cynllunio: Mae hyn yn cwmpasu'r apeliadau cynllunio arferol sy'n effeithio ar ddeiliaid tai, hysbysebu a mân apeliadau masnachol.

2. Seilwaith Cenedlaethol: Mae hyn yn ymwneud â gwaith yr ymgymerir ag ef ar gynigion ar raddfa fawr sy'n cefnogi'r economi, a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, gan gynnwys rheilffyrdd, gorsafoedd cynhyrchu ynni, porthladdoedd a meysydd awyr. Mae'r costau hyn yn cynnwys elfen o waith cyn gwneud cais, sy'n digwydd cyn i'r incwm gael ei gydnabod, felly gall costau a'r incwm cysylltiedig rychwantu blynyddoedd ariannol gwahanol.

3. Cynlluniau Lleol: Mae hyn yn cwmpasu gwaith yr ymgymerir ag ef mewn perthynas ag archwilio cynlluniau lleol Awdurdodau Cynllunio Lleol.

4. Apeliadau gorfodi: Dyma lle gwneir apêl yn erbyn hysbysiadau gorfodi pan ymgymerir â datblygiad heb ganiatâd cynllunio neu pan nad yw'n unol â chais cynllunio cymeradwy.

5. Hawliau tramwy: Gwaith a wneir wrth adolygu gorchmynion yn ymwneud â hawliau tramwy yw hyn.

6. Apeliadau cynllunio adeiladau rhestredig: Mae hyn yn cwmpasu apeliadau'n ymwneud â gwaith yr ymgymerir ag ef mewn perthynas ag adeiladau rhestredig.

7. Gorchmynion prynu gorfodol: Gwaith yr ymgymerir ag ef mewn perthynas â gwrthwynebiadau a geir yn ymwneud â gorchymyn prynu gorfodol yw hyn.

8. Gwaith achos arbenigol mawr arall: Mae hyn yn cwmpasu gwaith yr ymgymerir ag ef ar ran adrannau eraill y llywodraeth.  Caiff y costau hyn eu hadennill yn rhannol yn unig o'r gwaith rydym yn ymgymryd ag ef ar ran adrannau eraill y llywodraeth.

9. Incwm gan Lywodraeth Cymru: mae hwn yn cwmpasu gwaith a wneir ar ran Llywodraeth Cymru yr adenillwn gostau ar ei gyfer fel yr adlewyrchir yn y Nodyn Incwm i'r Cyfrifon.

10. Rhaglen gweddnewid: Rhaglen o newid mawr yw hon sy'n ceisio cyflawni tair blaenoriaeth strategol: gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid; gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd; a mwy o ymgysylltu â staff.  At ddibenion dadansoddi segmentaidd, mae'r costau'n deillio o elfennau a ariennir gan: Gyllidebau gweddnewid; cyfalaf; a chyllidebau busnes arferol.

11. Arall: Mae hyn yn cwmpasu'r holl waith achos arall na restrir uchod ac mae'n cynnwys gwneud penderfyniadau costau sy'n deillio o apeliadau/hysbysiadau gorfodi a dynnir yn ôl a gwneud penderfyniadau ar apeliadau Hysbysiadau Prynu, yn bennaf.  Gall y gwaith hwn gynnwys pynciau fel gorchmynion diogelu coed a thrafnidiaeth.

## Nodyn 3. Gwariant gweithredu

### Nodyn 3a. Costau staff

### Cyflog Cyfarwyddwyr

Mae cyflogau Cyfarwyddwyr wedi'u cynnwys yn yr adran Costau Staff ond mae mwy o fanylion i'w gweld yn yr Adroddiad Cyflogau.

Costau staff  - Mae costau staff yn cynnwys:

| | | 2019/20<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | 34,450 | 31,223 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 3,857 | 3,439 |
| Costau pensiwn eraill | 9,412 | 8,457 |
| **Is-gyfanswm** | **47,719** | **43,119** |
| Staff asiantaeth | 717 | 528 |
| **Cyfanswm costau staff net** | **48,436** | **43,647** |

### Nodyn 3b. Costau gweinyddol eraill

Cyflog yr Archwilydd - Mae'n cynrychioli'r ffi archwilio dybiannol mewn perthynas ag ardystiad blynyddol y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol o ddatganiadau ariannol yr Arolygiaeth Gynllunio. Nid oedd unrhyw gyflog yn ddyledus am waith heb fod yn waith archwilio.

Mae taliadau adenilladwy y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cyfrifyddu ac Adnoddau Dynol.

Mae costau gweinyddol eraill yn cynnwys ffioedd proffesiynol, cyhoeddiadau, dodrefn a ffitiadau a gwasanaethau cyfieithu.

| | Nodyn | 2020/21 - £'000 | 2019/20 - £'000 |
|---|---|---|---|
| Rhenti dan brydlesi gweithredu: | | | |
| Llogi offer a pheiriannau | | 110 | 250 |
| Prydlesi gweithredu eraill | | 957 | 1,024 |
| **Cyfanswm** | | **1,067** | **1,274** |
| Eitemau anariannol: | | | |
| Dibrisiant | 5 | 905 | 832 |
| Amorteiddio | 6 | 63 | 126 |
| Amhariad asedau | | - | - |
| Colled ar waredu ased | | - | 3 |
| Darpariaeth ar gyfer dyledion amheus | | 1 | (30) |
| Cyflog yr Archwilydd | | 60 | 60 |
| Taliadau adenilladwy y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | | 115 | 114 |
| Gwasanaethau Hyfforddi'r Ardoll Brentisiaethau | | 17 | 13 |
| Cynnydd mewn darpariaeth yn ystod y flwyddyn | | 109 | 138 |
| Ôl-gofnodi darpariaethau | | - | (5) |
| **Cyfanswm** | | **1,270** | **1,251** |
| Gwariant arall: | | | |
| Ffioedd i Arolygwyr heb fod ar gyflog misol | | 839 | 1,222 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | | 732 | 2,316 |
| Costau llety | | 880 | 569 |
| Gwasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol | | 1,956 | 1,897 |
| Gwasanaethau Cymorth | | 3,889 | 3,613 |
| Ymchwil a Datblygu | | 605 | 3,260 |
| Technoleg Gwybodaeth | | 2,293 | 2,696 |
| Costau ex gratia | | 74 | 405 |
| Costau anffafriol | | 685 | 325 |
| Drwgddyledion a dileu dyledion | | 128 | 496 |
| Telathrebu | | 143 | 130 |
| Hyfforddiant a chynadleddau | | 238 | 532 |
| Gwasanaethau post | | 47 | 175 |
| Cyflenwadau swyddfa | | 77 | 150 |
| Costau dileu swydd a chostau ymadael eraill | | - | 128 |
| Costau gweinyddol eraill | | 720 | 602 |
| **Cyfanswm** | | **13,306** | **18,516** |
| **Cyfanswm** | | **15,643** | **21,041** |

## Nodyn 4. Incwm gweithredu

| | 2020/21 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| Ffioedd a thaliadau | | |
| Cynlluniau lleol | 2,635 | 4,576 |
| Seilwaith cenedlaethol | 4,749 | 8,456 |
| Gorchmynion prynu gorfodol | 123 | 213 |
| Gwaith achos arbenigol mawr arall | 1,109 | 1,277 |
| **Cyfanswm ffioedd a thaliadau** | **8,616** | **14,522** |
| Nwyddau a gwasanaethau | | |
| Incwm gan Lywodraeth Cymru | 2,893 | 2,584 |
| **Cyfanswm nwyddau a gwasanaethau** | **2,893** | **2,584** |
| Incwm amrywiol | | |
| Adennill costau anffafriol | 518 | 440 |
| Arall | 2 | 7 |
| **Cyfanswm incwm amrywiol** | **520** | **447** |
| **Cyfanswm incwm tybiannol amrywiol** | **17** | **13** |
| **Cyfanswm incwm gweithredu** | **12,046** | **17,566** |

## Nodyn 5. Eiddo, peiriannau ac offer

Nid yw'r ychwanegiadau a gofnodwyd yn y Datganiad Llifoedd Arian yn cynnwys symud asedau sydd wedi cronni, na fu unrhyw lifoedd arian ar eu cyfer.

| | 2020/2021 Technoleg Gwybodaeth £'000 |
|---|---|
| Cost neu brisiad | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 2,616 |
| Ychwanegiadau | 78 |
| Gwarediadau | - |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **2,694** |
| Dibrisiant | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 1,031 |
| Codwyd yn y flwyddyn | 905 |
| Gwarediadau | - |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **1,936** |
| **Gwerth llyfr net ar** | **758** |
| 31 Mawrth 2021 | 1,585 |
| Cyllido asedau | |
| Yn berchen arnynt ar 31 Mawrth 2021 | 758 |

| | 2019/2020 Technoleg Gwybodaeth £'000 |
|---|---|
| Cost neu brisiad | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 2,490 |
| Ychwanegiadau | 185 |
| Gwarediadau | (59) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **2,616** |
| Dibrisiant | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 255 |
| Codwyd yn y flwyddyn | 832 |
| Gwarediadau | (56) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **1,031** |
| **Gwerth llyfr net ar** | **1,585** |
| 31 Mawrth 2020 | 2,235 |
| Cyllido asedau | |
| Yn berchen arnynt ar 31 Mawrth 2020 | 1,585 |

## Nodyn 6. Asedau anniriaethol

Technoleg Gwybodaeth a Gynhyrchwyd yn Fewnol

| 2020/21 | Ased sydd wrthi'n cael ei adeiladu £'000 | Ar waith £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| Cost neu brisiad | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | £'000 | Cyfanswm | 3,473 |
| Ychwanegiadau | £'000 | - | 3,568 |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **3,568** | **3,473** | **7,041** |
| Amorteiddio | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | - | 3,347 | 3,347 |
| Codwyd yn y flwyddyn | - | 63 | 63 |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **-** | **3,410** | **3,410** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2021** | **3,568** | **63** | **3,631** |
| Ar 31 Mawrth 2020 | - | 126 | 126 |
| Cyllido asedau | | | |
| Yn berchen arnynt ar 31 Mawrth 2021 | 3,568 | 63 | 3,631 |

| 2019/20 | Ased sydd wrthi'n cael ei adeiladu £'000 | Ar waith £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| Cost neu brisiad | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | - | 3,473 | 3,473 |
| Ychwanegiadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **-** | **3,473** | **3,473** |
| Amorteiddio | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | - | 3,221 | 3,221 |
| Codwyd yn y flwyddyn | - | 126 | 126 |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **-** | **3,347** | **3,347** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2020** | **-** | **126** | **126** |
| Ar 31 Mawrth 2019 | - | 252 | 252 |
| Cyllido asedau | | | |
| Yn berchen arnynt ar 31 Mawrth 2020 | - | 126 | 126 |

## Nodyn 7. Offerynnau Ariannol

Gan y bodlonir ein gofynion arian parod trwy'r broses amcangyfrif, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig mewn creu a rheoli risg nag a fyddai'n berthnasol i gorff nad yw yn y sector cyhoeddus. Mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol, yn unol â'n gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig, felly nid ydym yn agored i lawer o risg o ran credyd, hylifedd na'r farchnad.

## Nodyn 8. Symiau masnach sy'n dderbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

Mae symiau eraill sy'n dderbyniadwy yn cynnwys balansau sy'n daladwy gan sefydliadau ac adrannau eraill y llywodraeth nad ydynt yn ymwneud â gwaith rheolaidd ar sail ffi a blaensymiau ac adenillion amrywiol y gyflogres.

| Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn | 2020/21 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach sy'n dderbyniadwy | 1,365 | 825 |
| Symiau eraill sy'n dderbyniadwy - TAW | 360 | 361 |
| Symiau eraill sy'n dderbyniadwy - Arall | 471 | 289 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 4,062 | 4,908 |
| **Cyfanswm** | **6,258** | **6,383** |
| Rhagdaliadau sy'n dod yn ddyledus ar ôl blwyddyn | 1 | 10 |
| **Cyfanswm** | **6,259** | **6,393** |

## Nodyn 9. Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Cedwir yr holl falansau arian parod yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

| | 2020/21 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **1,263** | **2,477** |
| Newid net i falansau arian parod a chyfwerth ag arian parod | 4,259 | (1,214) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **5,522** | **1,263** |

## Nodyn 10. Symiau masnach sy'n daladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn | 2020/21 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach sy'n daladwy | 65 | 23 |
| Symiau eraill sy'n daladwy - TAW, trethiant a nawdd cymdeithasol | 990 | 927 |
| Symiau eraill sy'n daladwy - yn cynnwys didyniadau'r gyflogres | 1,297 | 1,108 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 5,535 | 5,180 |
| **Cyfanswm y symiau taladwy ar 31 Mawrth** | **7,887** | **7,238** |

## Note 11. Provisions

| | Ex gratia £'000 | Costau anffafriol £'000 | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2020 | 138 | - | **138** |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 73 | 36 | **109** |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | (138) | - | **(138)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **73** | **36** | **109** |
| Balans ar 1 Ebrill 2019 | - | 13 | **13** |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 138 | - | **138** |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | - | (8) | **(8)** |
| Adferwyd yn y flwyddyn | - | (5) | **(5)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **138** | **-** | **138** |

| | 2020/21 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 109 | 138 |

### Ex gratia

Taliadau anstatudol yw taliadau ex gratia, a wneir yn gyffredinol o ganlyniad i gamgymeriad cydnabyddedig sy'n achosi gwariant diangen i'r hawliwr. Gall hyn gynnwys achosion lle mae'r Ombwdsmon Seneddol yn canfod camweinyddu. Y ddarpariaeth yw'r amcangyfrif gorau ar sail ar y wybodaeth sydd ar gael.

### Costau anffafriol

Costau ymgyfreitha yw costau anffafriol, y gellid mynd iddynt yn dilyn ceisiadau aflwyddiannus i wrthwynebu her i benderfyniad Arolygydd yn yr Uchel Lys. Y ddarpariaeth yw'r amcangyfrif gorau ar sail y wybodaeth sydd ar gael.

## Nodyn 12. Rhwymedigaethau amodol a ddatgelir o dan IAS 37

Roedd dau fath o rwymedigaeth amodol yn bodoli ar 31 Mawrth 2021, na ddarparwyd ar eu cyfer yn y cyfrifon. Roedd y rhain fel a ganlyn:

(a) Taliadau ex gratia y gellid eu gwneud i apelyddion neu bartïon eraill i apêl o ganlyniad i gamgymeriad cydnabyddedig sy'n achosi gwariant diangen i'r hawliwr. Mae'n anodd iawn rhagweld amseriad a gwerth y taliadau hyn, ond yr amcangyfrif gorau o'r rhwymedigaeth amodol yw £188,000 (2019/20: £5,000);

(b) Costau ymgyfreitha y gellid mynd iddynt yn dilyn ceisiadau aflwyddiannus i wrthwynebu her i benderfyniad gan Arolygydd yn yr Uchel Lys. Mae'n anodd rhagweld amseriad a gwerth y dyfarniadau hyn. Rydym wedi adolygu tystiolaeth o flynyddoedd blaenorol ar nifer yr achosion a arweiniodd at daliad, a thrwy gymhwyso'r duedd hon i'r achosion yn y flwyddyn gyfredol, amcangyfrifwn rwymedigaeth amodol o £70,000 (2019/20: £88,000).

## Nodyn 13. Ymrwymiadau o dan brydlesi

Meddiannir dau eiddo gan yr Arolygiaeth a'u defnyddio ar gyfer gweithgareddau gweithredol, un yng Nghaerdydd (Cymru) ac un ym Mryste (Lloegr). Darperir y ddau eiddo drwy femorandwm o delerau meddiannu gyda chyrff eraill y Goron. I ganslo'r memorandwm o delerau meddiannu, mae'n ofynnol i ni roi 12 mis o rybudd. Pe byddai'r un o'r ddau yn cael eu terfynu gyda llai o rybudd, byddai'r Arolygiaeth yn atebol am y costau a gytunwyd am y cyfnod 12 mis llawn.

## Nodyn 14. Ymrwymiadau ariannol eraill

Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn rheoli contract sylweddol ar gyfer gwasanaethau technoleg ar ein rhan, ac adlewyrchir yr ymrwymiad yn llawn yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Mae'r taliadau yr ydym wedi ymrwymo iddynt, ar gyfer gwasanaethau technoleg a theleffoni yn bennaf, fel a ganlyn:

| | 2020/21 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 821 | 551 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim mwy na phum mlynedd | 25 | - |

## Nodyn 15. Trafodion partïon cysylltiedig

Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yw'r parti cysylltiedig sy'n rheoli a'r parti sy'n rheoli, yn y pen draw.

Ystyrir bod Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig, y mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi cynnal nifer sylweddol o drafodion perthnasol â hi yn ystod y flwyddyn.

Yn ogystal, mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi cynnal nifer fawr o drafodion perthnasol ag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff y llywodraeth ganolog a sefydliadau llywodraeth leol yn ymwneud â'i busnes arferol. Yr Adrannau y mae'r Arolygiaeth yn cynnal y trafodion mwyaf arwyddocaol â hwy yw: Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig; yr Adran Drafnidiaeth; Adran Gyfreithiol y Llywodraeth; yr Adran Addysg; ac Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth.

Rhaid i aelodau Anweithredol a Gweithredol y Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiant personol neu fusnes a allai, neu y gellid tybio y gallai, ddylanwadu ar eu barn fel aelod o'r Bwrdd. Yn ystod y flwyddyn, nid oes unrhyw aelod o'r Bwrdd, nac unrhyw barti cysylltiedig arall, wedi cynnal unrhyw drafodion perthnasol â ni.

Mae cyflogau uwch reolwyr/aelodau'r Bwrdd i'w gweld yn yr Adroddiad Cyflogau.

## Nodyn 16. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Cyflwynir datganiadau ariannol yr Arolygiaeth Gynllunio gerbron Dau Dŷ'r Senedd gan Ysgrifennydd Gwladol y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Mae IAS 10 – Digwyddiadau Ar Ôl y Cyfnod Adrodd yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddatgelu'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r cyfrifon. Hwn yw'r dyddiad yr anfonir y cyfrifon ardystiedig gan reolwyr yr Arolygiaeth Gynllunio at Ysgrifennydd Gwladol y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi ar yr un dyddiad y mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn llofnodi Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

# Atodiad 1
# Targedau gweinidogol

## Mae adran Dadansoddiad o Berfformiad yr Adroddiad Blynyddol hwn yn disgrifio ein perfformiad drwy'r flwyddyn, ond mae'n ofynnol i ni adrodd ar ein perfformiad yn erbyn targedau gweinidogol hefyd.

Nid yw targedau gweinidogol y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn adlewyrchu'r mesurau craidd a ddefnyddir gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn Lloegr mwyach.

Mae'r adran Dadansoddiad o Berfformiad yn yr adroddiad hwn (tudalennau 38 i 53) yn dangos cyfanswm yr amser penderfynu yn fanwl, gan ddechrau o phan fydd cwsmer yn gwneud apêl ddilys hyd at roi ein penderfyniad. Mae'r targedau gweinidogol, ar y llaw arall, yn cychwyn y cloc pan fydd Arolygydd yn dechrau gweithio ar achos. Felly mae'r mesurau hynny'n llai perthnasol i'n cwsmeriaid o ran deall faint o amser a gymer ein penderfyniadau gan nad ydynt yn dangos yr amser rhwng cwsmer yn gwneud achos apêl ddilys ac Arolygydd yn dechrau gweithio arno. Fel yr eglurwyd yn yr adran Dadansoddiad o Berfformiad, effeithiodd y pandemig ar ein perfformiad yn erbyn targedau eleni.

Redd Cynllun Busnes 2020/21 yn cynnwys gwaith i ddisodli ein targedau gweinidogol â chyfres newydd o fesurau ar gyfer Lloegr, i'w cytuno gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Ni wnaethom gwblhau'r gwaith hwn oherwydd ein ffocws ar gadw gwaith achos i symud yn ystod y pandemig. Byddwn yn ei gwblhau yn 2021/22.

Tabl 20: Targedau gweinidogol yn Lloegr

| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Lloegr - Ceisiadau ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol | | | | | |
| Cyhoeddi 100% o holl farnau cwmpasu'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol o fewn y ffrâm amser statudol neu'r ffrâm amser a gytunwyd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol (Y targed cyn 2020/21 oedd 42 diwrnod o'u derbyn) | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Cyhoeddi 100% o holl farnau sgrinio'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol cyn pen 21 diwrnod o'u derbyn | N/A | N/A | N/A | N/A | 100% |
| Penderfynu ar dderbyn 100% yr holl geisiadau cyn pen 28 diwrnod | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Cwblhau 100% o'r holl archwiliadau o fewn y ffrâm amser statudol o 6 mis a gytunwyd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Cyflwyno 100% o'r holl argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol cyn pen tri mis o'u derbyn | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Lloegr - Apeliadau Cynllunio | | | | | |
| Penderfynu ar 80% o sylwadau ysgrifenedig cyn pen 14 wythnos o'r dyddiad dechrau | 69% | 77% | 59% | 50% | 44% |
| Penderfynu ar 80% o wrandawiadau cyn pen 14 wythnos o'r dyddiad dechrau | 17% | 31% | 24% | 20% | 17% |
| Penderfynu ar 80% o ymchwiliadau (nad ydynt yn bwrpasol) cyn pen 22 wythnos o'r dyddiad dechrau | 11% | 14% | 0% | - | 22% |
| Penderfynu ar 100% o ymchwiliadau (pwrpasol) yn unol â'r amserlen gytûn | 98% | 99% | 99% | 95% | 100% |
| Penderfynu ar 90% o ymchwiliadau o dan Adolygiad Rosewell cyn pen 24 wythnos | N/A | N/A | N/A | 83% | 21% |
| Penderfynu ar 100% o ymchwiliadau o dan Adolygiad Rosewell cyn pen 26 wythnos | N/A | N/A | N/A | 99% | 27% |
| Penderfynu ar 80% o apeliadau deiliaid tai cyn pen 8 wythnos o'r dyddiad dechrau | 60% | 85% | 76% | 58% | 36% |
| Penderfynu ar 80% o apeliadau masnachol cyn pen 8 wythnos o'r dyddiad dechrau | 48% | 80% | 63% | 40% | 37% |
| Lloegr - Ceisiadau am gostau | | | | | |
| Penderfynu ar 50% o bob math o apêl cyn pen 10 wythnos o'r dyddiad dechrau | 71% | 59% | 55% | 63% | 76% |

| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Lloegr - Apeliadau Gorfodi | | | | | |
| Penderfynu ar 80% o sylwadau ysgrifenedig cyn pen 32 wythnos o’r dyddiad dechrau | 72% | 85% | 89% | 94% | 87% |
| Penderfynu ar 80% o wrandawiadau cyn pen 33 wythnos o’r dyddiad dechrau | 50% | 58% | 83% | 64% | 49% |
| Penderfynu ar 80% o ymchwiliadau cyn pen 43 wythnos o’r dyddiad dechrau | 46% | 56% | 62% | 42% | 61% |
| Lloegr – Hawliau Tramwy, Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus | | | | | |
| Penderfynu ar 80% o sylwadau ysgrifenedig cyn pen 37 wythnos o’r dyddiad dilys (Y targed cyn 2019/20 oedd 27 wythnos o’r dyddiad dechrau) | 96% | 82% | 81% | 68% | 17% |
| Penderfynu ar 80% o wrandawiadau cyn pen 39 wythnos o’r dyddiad dilys (Y targed cyn 2019/20 oedd 29 wythnos o’r dyddiad dechrau) | 100% | 60% | 33% | 13% | 0% |
| Penderfynu ar 80% o ymchwiliadau cyn pen 45 wythnos o’r dyddiad dilys (Y targed cyn 2019/20 oedd 35 wythnos o’r dyddiad dechrau) | 75% | 72% | 78% | 57% | 0% |
| Lloegr - Hawliau Tramwy, Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad | | | | | |
| Penderfynu ar 80% o sylwadau ysgrifenedig cyn pen 37 wythnos o’r dyddiad dilys (Y targed cyn 2019/20 oedd 27 wythnos o’r dyddiad dechrau) | 85% | 92% | 74% | 42% | 21% |
| Penderfynu ar 80% o wrandawiadau cyn pen 39 wythnos o’r dyddiad dilys (Y targed cyn 2019/20 oedd 29 wythnos o’r dyddiad dechrau) | 89% | 78% | 83% | 33% | 0% |
| Penderfynu ar 80% o ymchwiliadau cyn pen 45 wythnos o’r dyddiad dilys (Y targed cyn 2019/20 oedd 35 wythnos o’r dyddiad dechrau) | 85% | 90% | 78% | 49% | 29% |
| Lloegr - Atodlen 14 | | | | | |
| Penderfynu ar 80% o gyfarwyddiadau cyn pen 21 wythnos o’r dyddiad dilys (Y targed cyn 2019/20 oedd 17 wythnos o’r dyddiad dechrau) | 100% | 83% | 46% | 89% | 68% |
| Penderfynu ar 80% o apeliadau cyn pen 30 wythnos o’r dyddiad dilys (Y targed cyn 2019/20 oedd 26 wythnos o’r dyddiad dechrau) | 65% | 99% | 46% | 30% | 59% |

| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Lloegr - Tir Comin | | | | | |
| Penderfynu ar 80% o’r rheiny heb wrthwynebiadau cyn pen 18 wythnos o’r dyddiad dechrau (Y targed cyn 2019/20 oedd 12 wythnos o’r dyddiad dechrau) | 97% | 83% | 89% | 100% | 82% |
| Penderfynu ar 80% o’r rheiny â gwrthwynebiad cyn pen 26 wythnos o’r dyddiad dechrau | 100% | 94% | 92% | 93% | 63% |
| Penderfynu ar 80% o’r rheiny â gwrthwynebiad (Arolygydd) cyn pen 40 wythnos o’r dyddiad dechrau (Y targed cyn 2019/20 oedd 52 wythnos o’r dyddiad dechrau) | 88% | 100% | 84% | 87% | 71% |
| Lloegr – Apeliadau Amgylcheddol | | | | | |
| Penderfynu ar bob math o apêl cyn pen 28 wythnos o’r dyddiad dechrau | 24% | 25% | 33% | 50% | 25% |
| Lloegr - Gorchmynion Diogelu Coed | | | | | |
| Penderfynu ar 80% o sylwadau ysgrifenedig cyn pen 14 wythnos o’r dyddiad dechrau | 6% | 3% | 1% | 92% | 10% |
| Penderfynu ar 80% o wrandawiadau ac ymchwiliadau cyn pen 26 wythnos o’r dyddiad dechrau | 22% | 0% | 13% | 85% | 0% |
| Lloegr - Gwrychoedd Uchel | | | | | |
| Penderfynu ar 80% o sylwadau ysgrifenedig cyn pen 24 wythnos o’r dyddiad dechrau | 21% | 2% | 2% | 87% | 7% |
| Lloegr - Gwrychoedd | | | | | |
| Penderfynu ar 80% o bob math o apêl cyn pen 28 wythnos o’r dyddiad dechrau | 23% | 50% | 0% | 100% | N/A |
| Lloegr - Archwiliadau cynlluniau datblygu | | | | | |
| Cwblhau archwiliadau Cynlluniau Datblygu (Cynllun Lleol) o fewn yr amserlen a gytunwyd gyda’r Awdurdod Cynllunio Lleol | 100% | 98% | 100% | 100% | 100% |
| Cwblhau archwiliadau’r Ardoll Seilwaith Cymunedol o fewn yr amserlen a gytunwyd gyda’r Awdurdod Cynllunio Lleol | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Lloegr - Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| Sicrhau bod 80% o’r partïon y gwnaed arolwg ohonynt yn fodlon neu’n fodlon iawn â’r broses/gweithdrefnau apelio (Yn 2020/21, disodlwyd y mesur hwn gan feincnod y Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid). | 100% | 79% | 74% | 55% | N/A |

CCS 0121932882
978-1-5286-2720-7